

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Ymchwil gymdeithasol
Social research



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Llais y Dysgwr 2009 ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith



Arolwg Llais y Dysgwr 2009 ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith

Cynulleidfa:

Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Nghymru

Trosolwg:

Mae dogfen strategaeth yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith yn nodi y bydd APADGOS yn "...ystyried...beth yw'r dull gorau o fonitro barn y myfyrwyr yn rheolaidd a chyhoeddi'r canlyniadau". Mae'r adroddiad hwn yn trafod canfyddiadau Arolwg Llais y Dysgwr ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith.

Rhagor o wybodaeth:

Julie Owens

Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cathays Park

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 825720

E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol:

Ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation>

Welsh Assembly Government Social Research, Ebrill 2010

ISBN

© Crown Copyright

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	4
Cyflwyniad	14
Bodddhad Cyffredinol â'r Profiad Dysgu	21
Dewis a Chyfle	43
Bodddhad â Chyflogwr	85
Problemau a Wynebwyd	98
Bwriadau yn y dyfodol	109
Grwpiau o ddiddordeb penodol	113
Casgliadau a Goblygiadau Polisi	117
Atodiadau	124

Crynodeb

Cynhaliwyd Arolwg Llais y Dysgwr 2009 ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) fel rhan o Raglen Ymchwil ymhlith Cwsmeriaid 2007-2010. Un o flaenoriaethau'r rhaglen yw mesur boddhad y dysgwr, a nodau'r arolwg oedd:

- dwyn ynghyd ddata ar lefelau boddhad a phrofiad dysgwyr sydd mewn addysg bellach a ariennir gan APADGOS ledled Cymru
- adolygu tueddiadau o ran boddhad dysgwyr dros amser
- amlygu blaenoriaethau o ran gweithredu.

Y sampl

Daeth y sampl o ddysgwyr DSW o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sef y ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr Ôl-16 (nad ydynt mewn addysg uwch) yng Nghymru¹. Mae Hysbysiad Prosesu Teg (HPT) yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a dim ond yr ymatebwyr hynny a wnaeth gytuno y gellid defnyddio eu manylion at ddibenion ailgysylltu a gafodd eu cynnwys yn y sampl. Felly, arolwg o ddysgwyr DSW a *wnaeth gytuno i gymryd rhan mewn gwaith dilynol yw'r arolwg hwn.*

Cafodd cyfanswm o 1,507 o ymatebwyr eu cyfweld dros y ffôn rhwng 9^{fed} Mawrth a 24^{ain} Ebrill 2009.

Roedd naw o bob deg o'r ymatebwyr DSW yn gweithio, ac roedd 60 y cant o'r sampl gyfan yn cael eu hyfforddi yn eu gweithle. Roedd ychydig dros hanner y rhai nad oeddent yn gweithio yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant gan ddarparwr preifat².

Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr DSW (38%) yn dilyn cyrsiau adeiladu, cludiant neu beirianeg a gweithgynhyrchu, tra roedd ychydig o dan chwarter (22%) ar gyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

Roedd naw o bob deg yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ. Roedd 10 y cant yn gweithio tuag at gymhwyster lefel mynediad neu lefel 1, roedd 39 y cant yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2 ac roedd 41 y cant yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 3.

¹ Nodir meini prawf cymhwyso rhaglenni DSW yn atodiadau'r adroddiad hwn

² Nodir meini prawf cymhwyso rhaglenni DSW yn atodiadau'r adroddiad hwn

Bodddhad cyffredinol â'r profiad dysgu

- Roedd **lefelau bodddhad** â'u profiad dysgu yn uchel iawn. Roedd dros naw o bob deg o ymatebwyr (94%) yn fodlon ar eu profiad dysgu cyffredinol i ryw raddau, gyda thri chwarter yn dweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn. Y grwpiau o ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o fynegi bodddhad oedd: ymatebwyr benywaidd; y rhai heb gyfrifoldebau gofalu; a'r rhai ar eu dewis cyntaf o gwrs.

Roedd cysylltiad cryf rhwng lefelau bodddhad cyffredinol, bodddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a bodddhad â chymorth cyflogwr.

Dangosodd y model dadansoddi KDA/KEA mai'r **ffactorau pwysicaf a oedd yn llywio lefelau uchel iawn o foddhad** oedd:

- bodddhad aruthrol ag ansawdd cyffredinol yr addysgu
- bodddhad aruthrol â chymorth cyflogwr

Ymhlith y grwpiau o ymatebwyr a oedd yn **llai bodlon** roedd y rhai nad oeddent wedi ystyried darparwr hyfforddiant arall, a'r rhai a oedd wedi ystyried gadael y cwrs.

Y prif **resymau a roddwyd dros fod yn anfodlon** ar y profiad dysgu oedd nad oedd y cwrs yn berthnasol i'w gwaith, safon wael yr addysgu a diffyg tiwtoriaid neu aseswyr.

Nododd y model dadansoddi KDA/KEA mai'r **ffactorau pwysicaf a oedd yn arwain at anfodddhad**, yn nhrefn pwysigrwydd, oedd:

- Lefel isel o foddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu
- Graddau isel ar gyfer darparu cymorth pan oedd gan ymatebwyr broblemau
- Graddau isel ar gyfer trefnu sesiynau neu apwyntiadau a oedd yn addas i'r dysgwr
- Graddau isel ar gyfer p'un a oedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol i swydd yr ymatebydd

Cafodd disgwyliadau'r rhan fwyaf o fyfyrwyr â disgwyliadau o ran eu cwrs eu bodloni, ond roedd methiant cwrs i fodloni disgwyliadau ymatebwyr yn rheswm allweddol dros fod yn anfodlon.

Roedd cysylltiad rhwng bodloni disgwyliadau ymatebwyr a bodddhad cyffredinol â'r profiad dysgu ynghyd â bodddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a chymorth cyflogwr.

Roedd y disgwyliadau **mwyaf cyffredin yn ymwneud â** chanlyniadau dysgu, gyda mwy na naw o bob deg o ymatebwyr yn disgwyl y byddent yn 'cael cymhwyster' (97%), yn 'dysgu sgiliau newydd' (94%) neu'n 'dysgu llawer mwy am y pwnc' (92%). Roedd disgwyliadau'n ymwneud â 'datblygu fel dysgwr' ac yn 'ymwneud â swydd' ychydig yn llai cyffredin ymhlith yr ymatebwyr. Roedd gan fwy na thri chwarter o'r ymatebwyr ddisgwyliadau 'datblygu cymdeithasol', megis cwrdd â phobl newydd a meithrin hyder.

Yn gyffredinol, roedd disgwyliadau yn tueddu i amrywio gydag oedran, ac yn ôl y math o leoliad dysgu. Roedd yr ymatebwyr ieuengaf (16-18 oed) yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu'n hŷn o sôn am ddysgu sgiliau newydd ac roedd y rhai rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu'n hŷn o sôn am gwrdd â phobl newydd. Roedd y rhai a oedd yn gymharol newydd i'r farchnad lafur (19-24 oed) yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o sôn am gael swydd wahanol neu swydd well. Roedd y rhai a oedd yn dysgu mewn coleg addysg bellach (AB) neu gyda darparwr hyfforddiant preifat yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle o fod â disgwyliadau'n ymwneud â chwrdd â phobl newydd, tra roedd y rhai a oedd yn y gweithle yn fwy tebygol o fod â disgwyliadau'n ymwneud â dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd a dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eu haddysg.

Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o'r farn bod eu profiad dysgu wedi eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dysgu dymunol. Roedd 99 y cant wedi dysgu llawer mwy am y pwnc; roedd 97 y cant wedi dysgu sgiliau newydd; roedd 96 y cant o'r farn bod eu hyfforddiant wedi eu helpu i wella eu dealltwriaeth o'u galwedigaeth; a dywedodd 92 y cant fod eu hyfforddiant wedi eu helpu i gael cymhwyster. Bodlonwyd disgwyliadau tua thri chwarter o'r ymatebwyr o ran cwrdd â phobl newydd a meithrin eu hyder.

Roedd y rhai a oedd yn dilyn cwrs mewn coleg AB yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle o nodi i'w hyfforddiant eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dysgu disgwyliedig a chanlyniad cymdeithasol cwrdd â mwy o bobl.

Dewis a chyfle

Dewis cyntaf o goleg/darparwr

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr DSW yn astudio yn eu dewis cyntaf o goleg neu gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr hyfforddiant. Nid oedd bron traean o'r farn iddynt gael unrhyw ddewis, gan fod eu cyflogwr neu, mewn nifer fach o achosion, y Ganolfan Byd Gwaith wedi gwneud y penderfyniad drostynt.

Roedd ymatebwyr benywaidd, ymatebwyr hŷn a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant yn llai tebygol o fod yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr nag ymatebwyr gwrywaidd, y rhai o dan 25 oed a'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad oedd unrhyw ddewis ganddynt, gan fod eu cyflogwr wedi gwneud y penderfyniad drostynt.

Roedd cysylltiad cryf rhwng astudio gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr a bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu.

Y prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y dewis o ddarparwr oedd: cyfleustra lleoliad (32%); y darparwr yn cynnig yr hyfforddiant roedd y dysgwr am ei gael (18%); enw da'r darparwr (15%); argymhellion ffrindiau (12%).

Roedd cyfleustra lleoliad yn bwysicach i'r rhai rhwng 25 a 44 oed, tra roedd enw da darparwr yn bwysicach i ymatebwyr hŷn (45+ oed) nag ymatebwyr iau.

Y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio ag astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr oedd: y ffaith nad oedd y darparwr yn cynnig y cwrs roedd ymatebwyr yn ei ddymuno; peidio â chael eu derbyn ar y cwrs gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr; ac wedi dechrau gyda darparwr arall, ond yn anhapus yno.

Dewis cyntaf o gwrs neu hyfforddiant

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (84%) yn astudio'r pynciau a'r cymwysterau roeddent am eu gwneud fwyaf. Dywedodd bron un o bob deg nad oeddent wedi cael dewis am fod eu cyflogwr wedi dewis eu hyfforddiant drostynt. Roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith ymatebwyr benywaidd nag ymatebwyr gwrywaidd, ynghyd â bod yn fwy cyffredin ymhlith y rhai dros 25 oed na'r rhai o dan 25 oed.

Roedd cysylltiad rhwng dilyn y dewis cyntaf o gwrs neu hyfforddiant a boddhad cyffredinol ymatebwyr a ph'un a oeddent wedi ystyried gadael y cwrs. Roedd yr ymatebwyr y cafodd eu cwrs neu eu hyfforddiant ei ddewis gan eu cyflogwr ddwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o nodi nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon/anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr.

Y **rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddewis y cwrs** oedd i helpu gyda swydd bresennol/datblygiad mewn swydd. Dilynwyd hyn gan fwynhau'r pwnc neu fod yn dda yn y pwnc, dysgu sgiliau newydd a chael cymhwyster.

Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o ddewis cwrs am eu bod yn ei fwynhau neu'n hoffi'r pwnc, tra roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o sôn am resymau'n ymwneud â gwaith.

Roedd ymatebwyr dros 25 oed yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o fod wedi dewis eu cwrs am resymau'n ymwneud â'u swydd bresennol ac ennill sgiliau, tra roedd y rhai o dan 25 oed yn fwy tebygol o gyfeirio at y ffaith eu bod yn mwynhau'r pwnc neu'n dda yn y pwnc.

Ffynonellau o gyngor cyn mynediad

Roedd naw o bob deg o ymatebwyr wedi cael **cyngor** cyn dechrau eu cwrs neu hyfforddiant. Y ffynonellau mwyaf cyffredin o gyngor cyn mynediad oedd eu cyflogwr, athro neu diwtor yn eu coleg neu gyda'u darparwr, rhieni ac aelodau eraill o'r teulu, a ffrindiau.

Ymhlith yr ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed, rhieni a Gyrfa Cymru oedd y ffynonellau mwyaf cyffredin o gyngor, ac ymhlith grwpiau oedran hŷn, y cyflogwr oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin.

O ran defnyddioldeb, y ffynonellau a ystyriwyd yn ddefnyddiol iawn gan y rhai a oedd wedi defnyddio pob un oedd: athrawon/tiwtoriaid yn y coleg/darparwr (68%); cyflogwr (59%); swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg (59%); Gyrfa Cymru (55%); rhiant/aelod arall o'r teulu (52%); ffrindiau (50%); cynghorydd gyrfaedd yn yr ysgol neu athro (47%); a learndirect (45%).

Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud bod y cyngor a gafwyd gan eu ffrindiau yn ddefnyddiol iawn.

Bodddhad â darparwr

Roedd lefelau bodddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd yn uchel iawn, gyda 93 y cant yn fodlon i ryw raddau a 70 y cant yn fodlon iawn neu'n hynod fodlon. Yn benodol, roedd ymatebwyr benywaidd a'r rhai 25 oed neu'n hŷn yn tueddu i fod yn fwy bodlon nag ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr iau.

Roedd ymatebwyr ar raglenni Adeiladu, Cludiant, Peirianeg a Gweithgynhyrchu, a oedd bron i gyd yn wrywaidd ac yn iau ar y cyfan, yn tueddu i fod yn llai bodlon ar ansawdd yr hyfforddiant yn gyffredinol.

Roedd lefelau boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant yn uwch ymhlith y rhai ar eu dewis cyntaf o gwrs neu gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr, a'r rhai lle roedd yr hyfforddiant yn berthnasol iawn i'w swydd bresennol. Roedd y rhai a oedd wedi cael problemau gyda'u hyfforddiant neu wedi ystyried gadael yn llai tebygol o fod yn fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant. Roedd ymatebwyr a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon na'r rhai a oedd yn mynychu coleg AB.

Rhoddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr raddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar addysgu, gyda dwy agwedd ar '**deall y dysgwr**' yn cael eu graddio'n arbennig o uchel, sef 'eich trin yn deg a chyda pharch' a 'gwrando ar eich anghenion'. O ran **dulliau addysgu**, cafodd 'y gallu i egluro pynciau'r rhaglen' sgôr uchel hefyd.

Rhoddodd y rhai heb unrhyw gymwysterau blaenorol, neu â chymwysterau hyd at lefel 2, raddau uwch i'r agweddau ar ddulliau addysgu a **datblygu fel dysgwr** nag ymatebwyr eraill.

Rhoddodd rhwng 60 a 70 y cant o ymatebwyr 9-10 allan o 10 ar gyfer pob agwedd ar **reoli'r cwrs**, ac eithrio 'cyfleu newidiadau i amseroedd sesiynau', a oedd ychydig yn is.

Nododd dadansoddiad ystadegol y ffactorau a oedd yn llywio boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu, o safbwynt yr ymatebydd, sef: 'gwneud defnydd da o amser sesiynau'; 'y cymorth y maent yn ei roi i chi'; a 'gwneud eich hyfforddiant yn ddiddorol ac yn ddifyr i chi'. Drwy fapio'r sgôr 'pwysigrwydd' hon yn erbyn y sgôr perfformiad ar gyfer pob ffactor (yn seiliedig ar raddau'r ymatebwyr ar gyfer agweddau unigol ar addysgu), gwelwyd bod 'gwrando ar eich anghenion' ac 'y gallu i egluro pynciau'r rhaglen' wedi cael eu graddio'n uchel o ran perfformiad a phwysigrwydd.

Boddhad â chyflogwr

Gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd yn gweithio yn ystod ei raglen nodi pa mor fodlon ydoedd ar y cymorth a gafwyd gan ei gyflogwr i'w helpu i lwyddo gyda'i hyfforddiant. Dywedodd 86 y cant eu bod yn fodlon, gyda bron dwy ran o dair yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn. Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd. Yn yr un modd, roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr na'r rhai a oedd yn gofalu am blant neu oedolion.

Roedd yr ymatebwyr a oedd ar raglenni adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr nag ymatebwyr yn gyffredinol, tra roedd y rhai ar raglenni rheoli, busnes, gweinyddu a'r gyfraith, yn llai tebygol o fod yn fodlon. Gellir egluro hyn yn rhannol drwy'r ystod oedran a geir ar gyrsiau.

Cofnodwyd lefelau uchel o foddhad hefyd gan y rhai a oedd yn dilyn rhaglen hyfforddi a oedd yn berthnasol iawn i'w gwaith. Roedd yr ymatebwyr nad oeddent wedi cymryd rhan yn y penderfyniad am y math o hyfforddiant i'w wneud, nac ar eu dewis cyntaf o gwrs, yn llai tebygol o fod yn fodlon iawn.

Roedd pwysigrwydd rôl y cyflogwr yn amlwg oherwydd roedd cysylltiad cryf rhwng boddhad â'r cymorth gan eu cyflogwr a boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Y prif **reswm a roddwyd dros fod yn anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan y cyflogwr** oedd y ffaith na wnaeth eu cyflogwr roi unrhyw gymorth na chyingor iddynt ar eu prosiect.

Ar y cyfan, fodd bynnag, rhoddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr raddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar fewnbwn eu cyflogwr. Yr elfennau hynny a gafodd y sgôr uchaf oedd: 'sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi'; 'eich annog i gyflawni'r cymhwyster hwn'; 'sicrhau nad oes pwysau i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr'; a 'caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen'.

Roedd gadael i ddysgwyr gael amser i astudio yn ystod oriau gwaith yn bwysig. Roedd y rhai a oedd yn bwriadu parhau i ddysgu yn y dyfodol yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr yn gadael iddynt astudio yn ystod oriau gwaith ac yn sicrhau nad oedd pwysau i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr. I'r gwrthwyneb, dywedodd un o bob chwech o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar eu cyflogwr am fod pwysau gwaith yn golygu nad oedd amser i astudio.

Dywedodd 91 y cant o ymatebwyr fod eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn astudio iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o ddweud bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd, tra roedd y rhai a oedd yn astudio cyrsiau rheoli, busnes, gweinyddu a'r gyfraith yn llai tebygol o deimlo bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd ac yn fwy tebygol o feddwl ei fod yn gysylltiedig mewn ffordd anuniongyrchol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a ddywedodd bod eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd o'r farn ei fod yn ddefnyddiol. Yn ddiddorol, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn astudio mewn coleg AB yn fwy tebygol o ddweud bod eu cwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd na'r rhai a oedd yn astudio yn eu gweithle.

Problemau a wynebwyd

Nododd ychydig dros hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau yn ystod eu cwrs. Ar gyfer y rhai a gafodd **broblemau**, y pum problem fwyaf cyffredin oedd:

- cadw cymhelliant i barhau i ddysgu (20%);
- cydbwysu ymrwymadau dysgu ag ymrwymadau eraill yn y gwaith (16%)

- cydbwysu ymrwymïadau dysgu ag ymrwymïadau eraill gartref (13%)
- cynnal safon y gwaith sydd ei hangen (11%)
- delio â'r pwysau ariannol (11%).

Roedd ymatebwyr gwrywaidd ychydig yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o gael problemau gyda sgiliau darllen neu ysgrifennu. I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud eu bod wedi cael problemau yn cydbwysu ymrwymïadau hyfforddi ag ymrwymïadau eraill yn y gwaith a gartref. Roedd y rhai rhwng 35 a 44 oed yn tueddu i sôn am anawsterau o ran cadw cymhelliant i raddau mwy na'r rhai o grwpiau oedran eraill.

Dywedodd 7% o ymatebwyr eu bod wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen. Roedd cysylltiad clir rhwng lefelau boddhad â'r profiad dysgu cyffredinol a'r tebygolrwydd bod ymatebwyr yn ystyried gadael eu rhaglen. Roedd ymatebwyr benywaidd ifanc ac ymatebwyr gwrywaidd hŷn yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am adael eu rhaglen nag ymatebwyr yn gyffredinol. Nid oedd ymatebwyr ag ymrwymïadau ychwanegol gartref a/neu yn y gwaith yn fwy tebygol o fod wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen hyfforddi nag ymatebwyr eraill.

Roedd y rhai ar gyrsiau a oedd yn para hyd at chwe mis yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael na'r rhai ar gyrsiau hwy. Roedd hyn hefyd yn wir am y rhai nad oeddent ar eu dewis cyntaf o raglen.

Bwriadau yn y dyfodol

Gofynnwyd i bob ymatebydd nad oedd ar gwrs neu raglen hyfforddi arall eisoes pa mor debygol ydoedd, os o gwbl, o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf. Nododd tri chwarter fod hynny'n debygol, gyda 44 y cant yn dweud eu bod yn 'debygol iawn' o wneud hynny.

Roedd cysylltiad agos rhwng y tebygolrwydd o barhau i ddysgu a lefelau boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Yn ddiddorol, nid oedd y rhai a oedd wedi cael problemau yn llai tebygol na'r rhai nad oeddent wedi cael problemau o ddweud eu bod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.

Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi eu bod yn 'debygol iawn' o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf, ac roedd y rhai rhwng 25 a 34 oed yn fwy tebygol o wneud hynny na'r rhai mewn grwpiau oedran eraill.

Roedd ymatebwyr a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle neu yr oedd eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol yn fwy tebygol o fod yn ystyried parhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf.

Grwpiau o ddiddordeb penodol

Cafodd y grwpiau a nodwyd fel rhai y dylid eu hastudio ymhellach yn y dyfodol eu categorio yn ôl:

- **Lleoliad** y dysgu: coleg AB neu weithlu
- **Rhyw**
- **Cyfnod mewn Oes**, yn arbennig:
 - Ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd rhwng 19 a 24 oed.
 - Y rhai â chyfrifoldebau gofalu

Argymhellion

- Dylid annog cyflogwyr i drafod y cwrs sydd ar droed gyda'u cyflogeion, ynghyd â'r hyn a ddisgwyllir ganddynt, a'r manteision cysylltiedig;
- Dylid parhau i ddarbwylo cyflogwyr ynghylch manteision hyfforddi eu cyflogeion;
- Yn eu deunydd marchnata a'u cysylltiadau â chyflogwyr, dylai darparwyr dysgu bwysleisio pa mor bwysig ydyw i gyflogwyr roi cymorth i gyflogeion sy'n cael hyfforddiant;
- Dylai pawb sydd ar fin cael hyfforddiant neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu eraill gael cyngor ac arweiniad hyddysg ar yr opsiynau sydd ar gael a'r llwybrau gyrfaol a gynigir gan yr opsiynau hynny. Dylid ymdrechu i alluogi Gyrfa Cymru i gael mwy o ddylanwad a mwy o effaith ar benderfyniadau gyrfaol oedolion;
- Dylai darparwyr dysgu gael eu canmol am y graddau uchel a roddwyd gan ymatebwyr am ansawdd yr addysgu a gafwyd a'r cymorth a roddwyd iddynt. Dylid eu hannog hefyd i barhau i fonitro cynnwys eu cyrsiau a'r ffordd y'u cyflwynir yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y safonau uchel hyn yn cael eu cynnal;
- Dylai tystiolaeth o'r dadansoddiad atchweliad amcangyfrifon sefydlog, sy'n nodi'r meysydd y mae angen rhoi sylw penodol iddynt er mwyn sicrhau bodddhad hyd yn oed yn uwch ymhlith dysgwyr mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu, gael ei hanfon at ddarparwyr er mwyn cynnig fframwaith i lywio gweithgareddau datblygu staff;

- Dylai darparwyr barhau i feithrin ethos ymhlith eu staff sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i bob dysgwr, ac sy'n arbennig o sensitif i nodi dysgwyr a all fod yn cael problemau;
- Dylai darparwyr anelu at fod yn hyblyg o ran yr amserlen a'u dulliau dysgu er mwyn darparu ar gyfer y rhai y mae ymrwymadau yn y gwaith neu ymrwymadau gofalu yn cyfyngu ar eu dysgu.

Cyflwyniad

Amcanion yr Ymchwil

Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) wedi sefydlu rhaglen ymchwil ymhlith cwsmeriaid i ddarparu sail gwybodaeth i feithrin dealltwriaeth glir o'i marchnadoedd, ei chwsmeriaid a'i ddarpar gwsmeriaid. Mae nodau'r rhaglen yn cynnwys:

- deall yr hyn sy'n cymell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu
- deall barn cwsmeriaid ar y gwasanaethau addysg a dysgu a gânt
- nodi anghenion dysgu pobl.

Un o flaenoriaethau Rhaglen Ymchwil ymhlith Cwsmeriaid APADGOS yw mesur boddhad y dysgwyr, sy'n bwydo i mewn i'r tri amcan a nodir uchod. Cynhaliwyd arolwg o ddysgwyr ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) yn 2003, ac erbyn 2009 roedd awydd am gael gwybodaeth fwy diweddar. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd trafodaeth barhaus yn y Cynulliad ynghylch dechrau casglu data a arweinir gan ddarparwyr ar safbwyntiau dysgwyr. Felly, arolwg 2009 yw'r arolwg 'o'r brig i'r bôn' (h.y. wedi'i samplu a'i weinyddu'n ganolog) olaf o ddarparwyr DSW.

Nodau penodol Arolwg Llais y Dysgwr 2009 ym maes DSW oedd:

- dwyn ynghyd ddata ar lefelau boddhad a manylion am brofiad dysgwyr sydd mewn darpariaeth a ariennir gan APADGOS ledled Cymru
- adolygu tueddiadau o ran boddhad dysgwyr dros amser
- amlygu blaenoriaethau o ran gweithredu.

Mae'r is-adrannau canlynol yn crynhoi'r dull o gynnal yr arolwg; ceir manylion llawn yn y nodiadau technegol yn atodiadau'r adroddiad hwn.

Samplu

Daeth y manylion am ddysgwyr DSW o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sef y ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr Ôl-16 (nad ydynt mewn addysg uwch) yng Nghymru³. Mae Hysbysiad Prosesu Teg (HPT) yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol

³ Nodir meini prawf cymhwyso rhaglenni DSW yn atodiadau'r adroddiad hwn

Oes Cymru a dim ond yr ymatebwyr hynny a wnaeth gytuno y gellid defnyddio eu manylion at ddibenion ailgysylltu a gafodd eu cynnwys yn y sampl. Roedd a wnelo dyluniad cychwynnol y sampl â llunio sampl haenog ar sail 4:1 (h.y. am bob cyfweiliad a gwblhawyd, byddai pedwar dysgwr yn cael eu dewis), ond oherwydd cyfyngiadau'r HPT, yn hytrach na llunio sampl fel hyn, defnyddiwyd holl gofnodion dysgwyr DSW ar gyfer y cyfweiliadau.

Mae'r gwahaniaethau yn y dull samplu yn golygu na chymherir canlyniadau arolwg 2003 â chanlyniadau 2009 yn yr adroddiad hwn.

Rhoddir manylion llawn y fethodoleg samplu yn atodiadau'r adroddiad hwn.

Dull

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn a chymerodd 20 munud ar gyfartaledd. Seiliwyd yr holiadur ar Arolwg Cenedlaethol 2003 o Fodddhad Dysgwyr yng Nghymru gan wneud rhai newidiadau yn dilyn gweithdy gyda darparwyr DSW ym mis Ionawr 2008

Gellir lawrlwytho copi o'r holiadur llawn yn

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/customer-research/?skip=1&lang=cy>.

Cynllun peilot

Cafodd yr holiadur ei dreialu cyn dechrau'r gwaith maes er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu deall yn gywir gan yr ymatebwyr a hefyd er mwyn profi hyd y cyfweiliad. Ar ôl gwneud hyn, newidiwyd yr arolwg ar gyfer y prif gam.

Gwaith maes

Cafodd cyfanswm o 1,507 o ymatebwyr eu cyfweld dros y ffôn rhwng 9^{fed} Mawrth a 24^{ain} Ebrill 2009. Roedd pob cyfwelydd wedi cael hyfforddiant IQCS ynghyd â sesiwn wyneb yn wyneb gydag aelod o dîm gweithredol GfK NOP.

Ar ddechrau'r cyfweiliad, cafodd yr ymatebwyr gynnig cyfweiliad Cymraeg. Ailgysylltwyd â'r rhai hynny a oedd am gael cyfweiliad yn Gymraeg gan gyfwelydd Cymraeg yn ddiweddarach. Cynhaliwyd saith cyfweiliad yn Gymraeg.

Er mwyn gwneud yr arolwg mor hygyrch â phosibl i bob dysgwr DSW, cafodd yr ymatebwyr hynny y nodwyd yn y sampl fod ganddynt anabledau neu anawsterau dysgu penodol⁴ lythyr ymlaen llaw yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn cyfweiliad 10 munud byrrach os oeddent yn credu na fyddai'r cyfweiliad llawn yn addas ar eu cyfer. Roedd

⁴ Ceir manylion llawn yn adran dechnegol yr atodiadau i'r adroddiad hwn

hefyd yn bosibl iddynt ofyn am gyfweliad wyneb yn wyneb os na fyddai cyfweliad dros y ffôn yn briodol yn eu barn hwy (e.e. oherwydd problemau cyfathrebu). Fodd bynnag, ni ofynnodd unrhyw ymatebydd DSW am gael cymryd rhan yn y ffyrdd hyn.

Pwysoli

Adolygwyd y data terfynol yn erbyn y proffil o ddysgwyr DSW ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a oedd wedi cytuno i weithgareddau ailgysylltu⁵. Dangosodd y gymhariaeth hon fod y sampl a gyflawnwyd yn debyg iawn i'r proffil hwn o ddysgwyr a gytunodd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ailgysylltu ac felly nid oedd angen pwysoli.

Proffil yr ymatebwyr

Rhoddir manylion llawn am broffil yr ymatebwyr a gyfwelwyd ar gyfer yr arolwg yn atodiadau'r adroddiad hwn. Dangosir nodweddion demograffig personol allweddol y sampl yn Nhabl 1.

⁵ Drwy'r Hysbysiad Prosesu Teg a oedd yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Tabl 1 Nodweddion demograffig allweddol

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Rhyw	Gwryw	53
	Benyw	47
Oedran	16-18	28
	19-24	30
	25-34	16
	35-44	13
	45+	12
Unrhyw anabledd / anhawster dysgu	Na	97
	Ie	3
Gradd gymdeithasol ⁶	AB	11
	C1	31
	C2	32
	DE	21

Cefndir profiad dysgu

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr DSW (91%) yn gweithio (mae hyn yn cynnwys y rhai ar leoliad gwaith a'r hunan-gyflogedig). Roedd dros hanner y rhai nad oeddent yn gweithio (57%) yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi gan ddarparwr preifat, o gymharu â dim ond un o bob deg o'r rhai a oedd yn gweithio (10%).

⁶ Y system dosbarthu cymdeithasol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn oedd system codio dosbarth cymdeithasol ymchwil i'r farchnad, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y diwydiant hysbysebu ac a gynhelir bellach gan y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Dosbarthiad cartref ydyw, sy'n seiliedig ar alwedigaeth bresennol neu flaenorol y prif enillydd incwm yn y cartref. Bydd y cyfwelydd yn mynd ati i ddsbarthu ar ôl gofyn cwestiynau am deitl swydd, y math o waith a wneir, y cymwysterau sydd eu hangen a chyfrifoldebau goruchwylio. Yn dechnegol mae'n ddsbarthiad chwe ffordd, ond ar y ddau begwn caiff y ddau gategori eithafol eu cyfuno fel arfer, gan greu'r dosbarthiad canlynol: AB – Proffesiynol a rheoli, C1 – Gweinyddol, clercaidd a choleraid gwyn arall, C2 Gwaith llaw crefftus, DE – Gwaith llaw heb sgiliau a'r rhai sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar fudd-daliadau'r wladwriaeth

Math o raglen a'r ffordd y'i cyflwynwyd

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, dosbarthwyd yr ymatebwyr fel a ganlyn:


Prentisiaeth Fodern	38%
Prentisiaeth Fodern Sylfaenol	45%
Adeiladu Sgiliau	11%
Rhaglen arall	7%

Cyflwynwyd rhaglenni DSW mewn sawl ffordd. Roedd pedwar o bob deg o ymatebwyr (42%) yn mynychu sesiynau mewn coleg AB, tra roedd 14 y cant yn cael hyfforddiant gan ddarparwr preifat. Cafodd chwech o bob deg o ymatebwyr DSW (59%) eu hyfforddiant yn eu gweithle. Mewn nifer o achosion, cyflwynwyd yr hyfforddiant mewn sawl ffordd: roedd 14 y cant o ymatebwyr yn cael hyfforddiant yn eu gweithle ac mewn coleg AB, tra roedd 4 y cant o ymatebwyr yn cael hyfforddiant yn y gweithle a chan ddarparwr preifat.

Pynciau a chymwysterau

Gofynnwyd i bob ymatebydd nodi pa bynciau roeddent yn eu hastudio ac fe'u categoriwyd yn gategorïau pwnc eang (felly efallai y gall fod ymatebwyr a oedd yn astudio mwy nag un pwnc wedi cael eu cynnwys mewn mwy nag un categori). Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr DSW (38%) yn dilyn cyrsiau adeiladu, cludiant neu beirianeg a gweithgynhyrchu, tra roedd ychydig o dan chwarter (22%) ar gyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

Siart 1 Meysydd pwnc



Sylfaen: Pob dysgwr (heb ei phwysoli: 1,507). Noder y caniatawyd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.

Yn ôl y disgwyl, roedd gwahaniaethau o ran rhyw ac oedran ym mhroffil yr ymatebwyr a oedd yn astudio pynciau gwahanol, a ddisgrifir yn fanylach yn yr adran ar Broffil Ymatebwyr yn atodiadau'r adroddiad hwn.

Yn y tabl canlynol dangosir y math o gymhwyster a lefel y cymhwyster a oedd yn cael ei astudio gan ymatebwyr DSW.

Tabl 2 Cymwysterau a hyd y cwrs

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Math o gymhwyster	NVQ	88
	Arall	19
Lefel y cymhwyster	Lefel mynediad / lefel 1	10
	Lefel 2	39
	Lefel 3	41

Dadansoddi yn yr adroddiad

Mae'r penodau yn yr adroddiad yn trafod y pynciau canlynol⁷:

- Boddhad Cyffredinol â'r Profiad Dysgu
- Dewis a Chyfle
- Boddhad â Darparwr
- Boddhad â Chyflogwr
- Problemau a Gafwyd
- Bwriadau yn y Dyfodol
- Grwpiau o diddordeb penodol
- Casgliadau a Goblygiadau Polisi

⁷ Roedd nifer y dysgwyr yn y categorïau 'ddim yn wyn' ac 'anabledd/anhawster dysgu' yn rhy fach i'w dadansoddi ar wahân. Felly, ni chanolbwyntir ar y nodweddion hyn yn yr adroddiad hwn. At hynny, ni cheir dadansoddiadau rhanbarthol yn yr adroddiad am fod proffil y dysgwyr a gytunodd i gymryd rhan mewn gwaith dilynol ar osgo'n rhanbarthol.

Bodddhad Cyffredinol â'r Profiad Dysgu

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn gosod y cyd-destun mewn perthynas â barn ymatebwyr ar eu profiad dysgu cyffredinol. Ystyriwn foddhad cyffredinol gan ddefnyddio model ystadegol i'n helpu i ddeall pa ffactorau sy'n llywio anfodlonrwydd â dysgu ac, i'r gwrthwyneb, y ffactorau hynny sydd bwysicaf o ran bodddhad eithriadol â dysgu (sef 'ffactorau gwella'). Caiff y canfyddiadau hyn effaith ar ein dehongliad o'r data drwy'r adroddiad.


Mae'r bennod hon yn ystyried nifer o feysydd sef:

- Bodddhad cyffredinol â'r profiad dysgu
- Y ffactorau allweddol sy'n llywio anfodlonrwydd a sicrhau bod dysgwyr wrth eu bodd
- Disgwyliadau o ran y cwrs a ph'un a gafodd y rhain eu bodloni ai peidio
- P'un a oedd hyfforddiant yn ymwneud â swydd bresennol a pha mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant i'r swydd
- Disgwyliadau o ran canlyniadau dysgu a ph'un a gafodd y rhain eu bodloni eto.

Bodddhad cyffredinol â'r profiad dysgu

Fel y dangosir yn Siart 2, roedd lefelau bodddhad yn uchel iawn. Roedd dros naw o bob deg o ymatebwyr (94%) yn fodlon ar eu profiad dysgu cyffredinol i ryw raddau, gyda thri chwarter yn dweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn. Dim ond 2 y cant o ymatebwyr DSW oedd yn anfodlon ar eu profiad i ryw raddau, ac roedd 4 y cant arall yn ddidaro (h.y. dywedwyd nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon).

Siart 2 Boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu



Sylfaen: Pob ymatebydd (1,507)

Gwelwyd nifer o batrymau yn y data a ddangosodd bod rhai grwpiau o ymatebwyr yn tueddu i arddel barn fwy cadarnhaol neu negyddol mewn llawer o feysydd yn yr arolwg. Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol pan ddadansoddwyd y data o ran newidynnau cwrs, megis y math o raglen, y math o gymhwyster a'r darparwr hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd y grwpiau demograffig canlynol yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar eu profiad dysgu nag eraill:

- roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn nag ymatebwyr gwrywaidd (79% o gymharu â 72%) ac roedd hyn yn arbennig o wir am ymatebwyr benywaidd rhwng 19 a 24 oed o gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd yn y grŵp oedran hwn: dywedodd 85 y cant o ymatebwyr benywaidd eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn, o gymharu â 72 y cant o ymatebwyr gwrywaidd, a gwelwyd y patrwm hwn hefyd mewn perthynas â'r graddau ar gyfer elfennau addysgu (gweler y bennod ddiweddarach: Boddhad â'r Darparwr)
- roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu (am oedolion neu blant) ychydig yn fwy tebygol o fynegi rhywfaint o foddhad na'r rhai â chyfrifoldebau o'r fath (95% o gymharu â 92% neu lai yn y drefn honno)

At hynny, roedd ymatebwyr a oedd yn dilyn eu dewis cyntaf o raglen hyfforddi yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn na'r rhai nad oeddent ar eu dewis cyntaf o gwrs neu'r rhai a ddywedodd mai eu cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith a ddewisodd eu cwrs (78% o gymharu â 54% a 59% yn y drefn honno).

Roedd cysylltiad cryf rhwng lefelau o foddhad cyffredinol, boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a boddhad â chymorth cyflogwr:

- roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant ar eu cwrs yn llawer mwy tebygol na'r rhai a ddywedodd eu bod yn eithaf bodlon, yn ddidaro neu'n anfodlon, o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn gyffredinol (86% ac 80% o gymharu â 64% neu lai)
- ymhlith ymatebwyr cyflogedig, roedd y rhai a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a roddwyd iddynt gan eu cyflogwr yn ystod eu hyfforddiant yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn llai na bodlon iawn o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y profiad dysgu cyffredinol (86% ac 80% o gymharu â 64% neu lai)
- yn ôl y disgwyl, roedd ymatebwyr a oedd o'r farn bod eu hyfforddiant yn berthnasol i'w swydd bresennol yn fwy tebygol na'r rhai na ddywedodd hynny o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn gyffredinol (86% o gymharu â 50%)

Fel y rhagwelwyd, roedd y grwpiau canlynol o ymatebwyr yn tueddu i arddel barn lai cadarnhaol:

- roedd ymatebwyr a ddywedodd na wnaethant ystyried opsiwn arall o ran darparwr hyfforddiant neu a ddywedodd mai eu cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith a ddewisodd eu darparwr yn llai tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn nag ymatebwyr eraill (62% a 67% yn y drefn honno o gymharu ag 80% neu fwy).
- roedd y rhai a gafodd broblemau ers dechrau eu hyfforddiant yn llawer llai tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn (66% o gymharu ag 83% o'r rhai nad oedd problemau ganddynt) ac roeddent hefyd yn fwy negyddol yn gyson ynghylch pob agwedd ar eu profiad dysgu.
- yn gysylltiedig â'r pwynt blaenorol efallai, roedd ymatebwyr a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael eu hyfforddiant yn llawer llai tebygol na'r rhai na wnaethant feddwl am hynny o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu hyfforddiant yn gyffredinol (48% o gymharu ag 81%).

Rhesymau dros fod yn llai na bodlon iawn ar y profiad dysgu

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn llai na 'bodlon iawn' ar eu profiad dysgu cyffredinol er mwyn pennu'r rheswm dros hyn.

Dangoswyd pa mor bwysig oedd perthnasedd yr hyfforddiant: dywedodd 6 y cant o'r rhai a oedd yn llai na bodlon iawn nad oedd eu hyfforddiant yn berthnasol i'w gwaith na'u swydd. Rhoddwyd rhesymau'n ymwneud ag elfennau addysgu ac asesu hefyd, gyda 5 y cant yn nodi safonau addysgu gwael a 4 y cant yn dweud bod agwedd y tiwtoriaid yn wael neu eu bod yn anghefnogol.

Roedd y ffordd y rheolwyd y cwrs yn broblem i rai: dywedodd 5 y cant nad oedd digon o diwtoriaid/aseswyr neu fod newidiadau staffio wedi bod, roedd 3 y cant o'r farn nad oedd darparwr eu hyfforddiant yn rhoi'r cymorth roedd ei angen, ac roedd 3 y cant o'r farn y gellid bod wedi darparu'r hyfforddiant mewn llai o amser. Dywedodd 3 y cant arall eu bod wedi cael problemau gyda lleoliadau gwaith neu waith ymarferol.

Dangoswyd pa mor bwysig oedd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad perthnasol gan y canfyddiad bod 4 y cant o'r rhai a oedd yn llai na bodlon iawn ar eu dysgu o'r farn mai'r rheswm dros hyn oedd am fod yr hyfforddiant yn siomedig, nad oedd fel yr hyn roeddent wedi ei ddisgwyl neu nad hwn oedd y cwrs iawn iddynt hwy.

Tabl 3 Rhesymau dros fod yn llai na 'bodlon iawn' ar y profiad dysgu

Sylfaen: Pob ymatebydd a oedd yn llai na 'bodlon iawn' ar ei brofiad dysgu cyffredinol	Cyfanswm	Bodddhad cyffredinol	
		Eithaf bodlon	Didaro/ anfodlon
Sylfaen: heb ei phwysoli	374	283	*91
	%	%	%
Ddim yn berthnasol o gwbl i'm swydd/gwaith	6	7	1
Safon yr addysgu yn wael/ heb ddysgu llawer	5	3	11
Prinder staff/ aseswyr/ newidiadau mewn staff	5	4	7
Ateb negyddol arall	5	4	10
Roedd yn siomedig/ nid yr hyn roeddwn yn ei ddisgwyl/ei eisiau/ nid y cwrs iawn i mi	4	2	10
Agwedd wael tiwtoriaid/ ddim yn gefnogol	4	2	10
Heb gael yr help angenrheidiol/ heb ddiwallu fy anghenion	3	2	4
Gellid bod wedi gorffen yn gynt/gwneud y	3	2	4

gwaith yn gyflymach			
Problemau gyda lleoliadau/ gwaith ymarferol	3	3	3

Noder: Dangosir pob ymateb 3% a mwy. Ni nodir ymatebion cadarnhaol er mwyn canolbwyntio ar y rhesymau dros fod yn ddiraddo/ anfodlon. * yn dynodi sylfaen fach (llai na 100)


Er bod y rhesymau a roddwyd dros fod yn llai na 'bodlon iawn' yn ein helpu rhywfaint i ddeall y rhesymau dros raddau ymatebwyr, defnyddiwyd dadansoddiadau ystadegol hefyd i ystyried patrymau ymateb yr ymatebwyr o ran rhagfynegi'r hyn a oedd yn llywio anfodlonrwydd a bod yn hynod fodlon ar y profiad dysgu cyffredinol. Trafodir hyn yn yr adran nesaf.

Deall anfodlonrwydd a bod dysgwyr wrth eu bodd - modelu ystadegol

Er bod y lefelau uchel o foddhad (a'r lefelau isel iawn o anfodlonrwydd) yn galonogol dros ben, mae hyn hefyd yn codi rhai cwestiynau diddorol: sut y gellir gwella pethau ymhlith grŵp sy'n gadarnhaol ar y cyfan neu a yw'n bwysicach cynnal boddhad? Beth yw goblygiadau'r canfyddiadau o ran polisïau?

Mewn ymgais i ateb y cwestiynau hyn, defnyddiwyd model dadansoddi dau gam, sef y model KDA/KEA. Mae hwn yn amrywiad ar ddadansoddiadau o ffactorau llywio allweddol traddodiadol, megis Dadansoddiad Atchweliad, gan ei bod yn ystyried y ffaith bod y ffactorau sy'n llywio anfodlonrwydd a sicrhau bod dysgwyr wrth eu bodd yn wahanol. Mae'r model KDA/KEA yn diffinio nodweddion ar ffurf 'Ffactorau Anfodlonrwydd Allweddol', 'Ffactorau Gwella Allweddol', dim un o'r ddau neu'r ddau. Nodweddion disgwylidig a/neu nodweddion sy'n llywio anfodlonrwydd cyffredinol yw Ffactorau Anfodlonrwydd Allweddol - heb fynd i'r afael â hwy gallant wthio pobl i ffwrdd. Nodweddion deniadol a/neu nodweddion dymunol sy'n llywio profiadau cadarnhaol neu fod dysgwyr wrth eu bodd yw Ffactorau Gwella Allweddol.

Mae'r model KDA/KEA yn cydnabod bod cwsmeriaid yn edrych ar rai nodweddion gwasanaethau yn wahanol. Mae rhai nodweddion yn ddisgwylidig a rhaid eu darparu i'r safon ofynnol; nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn golygu bod dysgwyr yn fwy wrth eu bodd o reidrwydd. Mae rhai eraill yn ddymunol ac mae'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn esgor ar raddau uwch gan gwsmeriaid. Mae'r siart isod yn dangos y gydberthynas rhwng 'Ffactorau Anfodlonrwydd' a 'Ffactorau Gwella' a'r effaith y maent yn ei chael ar foddhad cyffredinol.



Cafodd nifer o elfennau arolwg o Arolwg Llais y Dysgwr mewn DSW eu bwydo i mewn i'r model KDA/KEA (rhoddir manylion llawn yn atodiadau'r adroddiad hwn) gan gynnwys:

1. Boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu
2. Boddhad cyffredinol â chymorth cyflogwr yn ystod hyfforddiant
3. A yw dysgwr ar ei ddewis cyntaf o gwrs
4. A yw dysgwr wedi cael ei ddewis cyntaf o ddarparwr
5. A oedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol i swydd yr ymatebydd ai peidio
6. Problemau/dim problemau (11 o broblemau unigol, ynghyd â ffactor rhai/dim cyffredinol)
7. Graddau ar gyfer agweddau penodol ar reoli cwrs (chwe elfen)
8. A fodlonwyd disgwyliadau ai peidio (chwe elfen)

Cam un: anfodlonrwydd ymatebydd

Y cam cyntaf yn y model oedd ystyried i ba raddau yr oedd saith ffactor cyffredinol yn gysylltiedig â bod yn anfodlon neu'n niwtral ynghylch y profiad dysgu cyffredinol⁸. Dangosodd y dadansoddiad fod pedwar mater yn bwysig o ran llywio canlyniad llai na bodlon, sef:

- Lefel isel o foddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu (a wnaeth gyfrif am 35% o'r canlyniad negyddol)
- Graddau isel ar gyfer darparu cymorth pan oedd gan ddysgwyr broblemau (27% o'r canlyniad negyddol)
- Graddau isel ar gyfer trefnu sesiynau neu apwyntiadau a oedd yn addas i'r dysgwr (21% o'r canlyniad negyddol)
- Graddau isel ar gyfer p'un a oedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol i swydd y dysgwr ai peidio (17%)

Gradd isel⁹ ar gyfer boddhad ag ansawdd yr addysgu oedd y ffactor pwysicaf a oedd yn llywio anfodlonrwydd, ac mewn pennod ddiweddarach¹⁰ trafodir yr elfennau addysgu yn fanylach er mwyn ceisio helpu i ddeall y ffactorau sydd bwysicaf wrth lywio'r mesur hwn o ansawdd.

Roedd materion yn ymwneud â rheoli'r cwrs, a oedd yn cynnwys y broses o roi cymorth parhaus a llunio'r amserlen, yn cyfrif am bron hanner y canlyniad negyddol pan y'u cyfunwyd. I lawer o ymatebwyr, mae union natur DSW yn golygu bod yn rhaid dysgu ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill yn y gwaith. Felly, nid yw'n syndod, pan na fydd yr elfennau hyn o reoli dysgu yn gweithio, y gellir cael canlyniad negyddol.

Yn olaf, roedd y ffaith nad oedd hyfforddiant yn ddefnyddiol (a, thrwy hynny, yn berthnasol) i ymatebydd yn cyfrif am bron un rhan o bump o'r canlyniad negyddol. Mae hyn yn teimlo'n gywir yn reddfal - os na all dysgwr weld bod yr hyn y mae'n ei ddysgu yn berthnasol i'w swydd, efallai y bydd yn dadrithio (er y dylid nodi nad yw hyn yn wir bob tro, e.e. efallai y bydd cyflogwr yn annog rhai i gael hyfforddiant er mwyn cynyddu eu diddordeb cyffredinol mewn dysgu/ hyfforddiant).

Nid oedd diffyg dewis, disgwyliadau nas bodlonwyd, diffyg cymorth gan gyflogwr na chael problemau i'w gweld yn ffactorau allweddol a oedd yn llywio anfodlonrwydd ymhlith ymatebwyr yn gyffredinol.

⁸ Dylid nodi i ddysgwyr a ymatebodd 'ddim yn fodlon nac yn anfodlon' gael eu cynnwys fel bod digon o niferoedd i gynnal dadansoddiad KDA.

⁹ Cafodd gradd isel ei diffinio fel sgôr a oedd rhwng 1 a 4 ar raddfa a oedd rhwng 1 a 10

¹⁰ Pennod o'r enw 'Boddhad â'r Darparwr'

Cam dau: ymatebydd wrth ei fodd

Y cam nesaf yn y model oedd edrych ar y ffactorau sy'n sbarduno dysgwyr i fod 'wrth eu bodd', hynny yw y ffactorau sy'n arwain at ganlyniad hynod fodlon. Ni chafodd unrhyw ymatebydd a oedd yn 'anfodlon' ar gam un ei gynnwys yn y dadansoddiad a chafodd yr un saith ffactor cyffredinol eu bwydo i mewn i'r model er mwyn asesu eu heffeithiau.

Dangosodd y dadansoddiad fod dau ffactor yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod dysgwyr wrth eu bodd:

- bod yn hynod fodlon ar ansawdd cyffredinol yr addysgu (a wnaeth gyfrif am 57% o'r canlyniad cadarnhaol)
- bod yn hynod fodlon ar y cymorth a roddwyd gan gyflogwr (43% o'r canlyniad cadarnhaol)


Fel y ffactorau a oedd yn llywio anfodlonrwydd, roedd ansawdd cyffredinol yr addysgu yn bwysicach na dim o ran sicrhau canlyniad boddhaol, h.y. roedd ansawdd yr addysgu yn hanfodol mewn perthynas â chanlyniad cadarnhaol iawn A chanlyniad negyddol. Trafodir hyn yn fanylach yn y bennod 'Bodddhad â'r Darparwr', lle y defnyddir techneg atchweliad safonol i bennu pa agweddau ar addysgu a gaiff yr effaith fwyaf o ran llywio bodddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu.

Roedd bodddhad â'r cymorth a roddwyd gan gyflogwr hefyd yn bwysig o ran sicrhau canlyniad hynod gadarnhaol¹¹. Yng nghyd-destun DSW, lle y caiff hyfforddiant ei ddarparu ochr yn ochr â dyletswyddau eraill yn y gwaith, mae'n ddealladwy bod cymorth gan y cyflogwr yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniad hynod gadarnhaol.

Gwelwyd hefyd fod diffyg problemau, disgwyliadau nas bodlonwyd, perthnasedd hyfforddiant a dewis yn llai pwysig o ran sicrhau bod dysgwyr wrth eu bodd â'r profiad dysgu o gymharu â ffactorau eraill.

¹¹ Cafodd dysgwyr nad oeddent yn gweithio radd niwtral ar gyfer cymorth gan gyflogwr (h.y. ni chawsant eu hepgor o'r dadansoddiad); ond er gwaethaf hyn daeth cymorth gan gyflogwr i'r amlwg fel ffactor allweddol a oedd yn arwain at ganlyniad hynod gadarnhaol i ddysgwyr yn gyffredinol

Siart 3 Y Ffactorau Anfodlonrwydd a Gwella Allweddol sy'n llywio boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu



Disgwyliadau'n ymwneud â rhaglen

Cynigiwyd chwe disgwyliad yn ymwneud â chwrs i bob ymatebydd a gofynnwyd iddo nodi p'un a fodlonwyd ei ddisgwyliadau ai peidio neu a oedd yn ddysgwr nad oedd ganddo unrhyw ddisgwyliadau o ran y mesurau hyn (Tabl 4).

Mae'n werth nodi nad oedd gan rhwng 6 a 10 y cant o ymatebwyr unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â'r chwe agwedd benodol ar eu cwrs, fel y crynhoir yn y tabl nesaf. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod dysgu yn ddewis 'gorfodol' i rai.

Tabl 4 A fodlonwyd disgwyliadau'n ymwneud â rhaglen ai peidio

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)	Bodlonwyd disgwyliadau	Ni fodlonwyd disgwyliadau	Dim disgwyliadau	Ddim yn gwybod
	%	%	%	%
Safon y gwaith a ddisgwyliid	91	2	6	1
Cynnwys y rhaglen neu'r hyfforddiant	88	4	8	*
Faint o gyfrifoldeb y byddech yn ei dderbyn	88	3	9	*
Faint o waith y byddai'n rhaid ei wneud	87	4	9	*
Nifer y terfynau amser i'w bodloni	86	4	10	1
Strwythur y rhaglen neu'r hyfforddiant	85	4	10	*

Noder: * yn dynodi llai na 0.5%

Ar gyfer y chwe disgwyliad yn ymwneud â chwrs, roedd y grwpiau canlynol o ymatebwyr yn fwy tebygol o fod heb unrhyw ddisgwyliadau:

- y rhai lle roedd dysgu yn ddefnyddiol i'w swydd (o gymharu â'r rhai a ddywedodd ei fod yn eithaf defnyddiol/ddim yn ddefnyddiol)
- y rhai lle cafodd eu darparwr ei ddewis gan eu cyflogwr/ y Ganolfan Byd Gwaith (o gymharu â'r rhai a ddywedodd eu bod gyda'u dewis cyntaf)
- y rhai lle cafodd eu rhaglen hyfforddi ei dewis gan eu cyflogwr/ y Ganolfan Byd Gwaith (o gymharu â'r rhai a ddywedodd eu bod ar eu dewis cyntaf o raglen)
- Yn gysylltiedig â'r pwyntiau blaenorol, roedd y rhai ar raglenni Adeiladu Sgiliau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau ar wahân i rai mewn perthynas â nifer y terfynau amser y byddai'n rhaid eu bodloni a faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud. Fodd bynnag, dylid nodi, yn y ddau achos, i fwy o

ddysgwyr Adeiladu Sgiliau na'r cyfartaledd ddweud nad oedd ganddynt unrhyw ddisgwyliadau, er nad oedd y gwahaniaethau hyn mor sylweddol ar lefel hyder o 95%.

Mewn perthynas â'r disgwyliadau 'nifer y terfynau amser y byddai'n rhaid i chi eu bodloni' a 'safon y gwaith a ddisgwyliid', roedd ymatebwyr hŷn (25 oed neu'n hŷn) yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o fod heb unrhyw ddisgwyliadau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o ddweud nad oedd dewis ganddynt ac mai eu cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith a oedd wedi dewis eu darparwr a/neu raglen hyfforddi.

Wrth ystyried y rhai a oedd â disgwyliadau ynghylch eu hyfforddiant yn y chwe maes a nodwyd, cafodd y rhain eu bodloni ar gyfer y mwyafrif llethol o ymatebwyr ymhob achos (Tabl 5).

Tabl 5 A fodlonwyd disgwyliadau'n ymwneud â rhaglen ai peidio

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai heb unrhyw ddisgwyliadau	Sylfaen (heb ei phwysoli)	Bodlonwyd disgwyliadau	Ni fodlonwyd disgwyliadau	Ddim yn gwybod
		%	%	%
Safon y gwaith a ddisgwyliid	1413	97	2	1
Cynnwys y rhaglen neu'r hyfforddiant	1387	96	4	1
Faint o gyfrifoldeb y byddech yn ei dderbyn	1367	96	3	*
Strwythur y rhaglen neu'r hyfforddiant	1351	95	5	*
Faint o waith y byddai'n rhaid ei wneud	1371	95	4	*
Nifer y terfynau amser i'w bodloni	1357	95	4	1

Noder: * yn dynodi llai na 0.5%

Mae patrymau yn y data yn tynnu sylw at bwysigrwydd bodloni disgwyliadau dysgwyr gan fod cysylltiad rhwng mesurau allweddol o foddhad a disgwyliadau (sef, boddhad cyffredinol â'r hyfforddiant, Tabl 6, boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a boddhad â chymorth cyflogwr).

Tabl 6 Bodloni disgwyliadau yn ôl boddhad cyffredinol â rhaglen hyfforddi

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai heb unrhyw ddisgwyliadau	Sylfaen (heb ei phwysoli)	Cyfanswm	Boddhad cyffredinol			
			Hynod fodlon	Bodlon iawn	Eithaf bodlon	Didaro/anfodlon
% 'bodloni disgwyliadau'		%	%	%	%	%
Safon y gwaith a ddisgwyliid	1413	97	98	99	95	79
Cynnwys y rhaglen neu'r hyfforddiant	1387	96	98	98	93	64
Faint o gyfrifoldeb y byddech yn ei dderbyn	1367	96	98	98	96	74
Strwythur y rhaglen neu'r hyfforddiant	1351	95	99	98	91	57
Faint o waith y byddai'n rhaid ei wneud	1371	95	98	96	96	89
Nifer y terfynau amser i'w bodloni	1357	95	96	98	93	68

Er mai dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr na fodlonwyd eu disgwyliadau, yn ôl y disgwyl, roedd hyn yn fwy tebygol ymhlith ymatebwyr a oedd wedi cael problemau ers dechrau eu cwrs ac a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael.

Gofynnwyd i bob ymatebydd na fodlonwyd eu disgwyliadau roi'r rheswm dros hyn. Roedd nifer y myfyrwyr y gwnaed gwaith dilynol arnynt fel hyn yn fach (llai na 50 o achosion fesul disgwyliad), ond roedd y rhesymau a roddwyd yn amrywio yn ôl natur y disgwyliad. Dangosir hyn yn Siart 4, lle y caiff y prif resymau eu rhestru ar gyfer pob disgwyliad.

Siart 4 Y rhesymau allweddol dros beidio â bodloni disgwyliadau'n ymwneud â chwrs

Faint o waith y byddai'n rhaid iddynt ei wneud

Mwy o waith na'r disgwyl 33%

Dim digon o waith 20%

Disgwyl math gwahanol o waith 10%

Sylfaen (heb ei phwysoli): 40

Strwythur y rhaglen neu'r hyfforddiant

Heb ei drefnu/strwythuro'n dda 15%

Disgwyl math gwahanol o waith 15%

Cwrs anghywir i mi/ nid beth oeddwn ei eisiau 11%

Sylfaen (hen ei phwysoli): 46

Faint o gyfrifoldeb y byddent yn ei dderbyn

Mwy o waith na'r disgwyl/gormod o waith 9%

Dim amser i wneud gormod ar unwaith 9%

Ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl 9%

Sylfaen (heb ei phwysoli): 34

Nifer y terfynau amser i'w bodloni

Mwy o waith na'r disgwyl 11%

Athro ddim yn cadw at gynllun y cwrs/maes llafur/amseru 9%

Dim amser / gormod o bethau eraill i'w gwneud / gormod ar unwaith 9%

Sylfaen (heb ei phwysoli): 44

Cynnwys y cwrs neu'r hyfforddiant

Disgwyl math gwahanol o waith 17%

Gorfod gwneud popeth fy hun/dim cymorth/dysgu fy hun 8%

Heb ei fwynhau/ diflas 8%

Gormod o ruthr 8%

Sylfaen (heb ei phwysoli): 36

Safon y gwaith a ddigwylid

Dim digon o waith 11%

Dim amser i wneud gormod ar unwaith 11%

Agwedd wael gan yr athro/ difater 11%

Sylfaen (hen ei phwysoli): 28

Sylfaen: Pob ymatebydd y gofynnwyd iddo pam na fodlonwyd disgwyliadau'n ymwneud â chwrs. Noder bod y sylfeini'n fach iawn.

Disgwyliadau o ran canlyniadau dysgu


Gofynnwyd i bob ymatebydd nodi p'un a oedd, cyn dechrau dysgu, yn disgwyl i'r rhaglen neu hyfforddiant ei helpu gyda chanlyniadau dysgu penodol, a ddosbarthwyd yn bedair thema, fel a ganlyn:

Ymwneud â swydd <ul style="list-style-type: none">• Cael swydd wahanol neu swydd well• Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd• Cael mwy o foddhad o'ch gwaith• Gwella eich dealltwriaeth o'ch gwaith	Dysgu <ul style="list-style-type: none">• Dysgu sgiliau newydd• Cael cymhwyster• Dysgu llawer mwy am y pwnc
Datblygiad cymdeithasol <ul style="list-style-type: none">• Gwella eich hyder• Cwrdd â phobl newydd	Symud ymlaen <ul style="list-style-type: none">• Symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella eich datblygiad swydd• Gallu dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eich addysg

Datgelodd y canlyniadau, a ddangosir yn Siart 5, y canlynol:

- Roedd a wnelo'r disgwyliadau mwyaf cyffredin â **chanlyniadau dysgu**: roedd dros naw o bob deg o ymatebwyr yn disgwyl 'cael cymhwyster' (97%), 'dysgu sgiliau newydd' (94%) a/neu 'dysgu llawer mwy am y pwnc' (92%)
- Roedd gan fwy na thri chwarter yr ymatebwyr ddisgwyliadau'n ymwneud â **datblygiad cymdeithasol**: roedd 76 y cant yn disgwyl 'cwrdd â phobl newydd' ac roedd 87 y cant yn gobeithio y byddai'n 'gwella eu hyder'.
- Roedd gan o leiaf wyth o bob deg o ymatebwyr ddisgwyliadau'n ymwneud â **datblygu fel dysgwr**: roedd 91 y cant yn credu y byddai'n eu helpu i 'symud ymlaen yn eu gyrfa neu wella eu datblygiad swydd' ac roedd 79 y cant yn credu y byddai eu cwrs yn eu helpu i 'ddilyn cyrsiau eraill neu wella eu haddysg'
- Nid oedd yn syndod, o ystyried y lleoliad, i rai disgwyliadau'n ymwneud â swydd fod ar frig y rhestr, sef 'gwella eich dealltwriaeth o'ch gwaith' a nodwyd gan 91 y cant o ymatebwyr a 'cael mwy o foddhad o'ch gwaith' (87%). 'Cael swydd wahanol/swydd well' oedd y disgwyliad a nodwyd gan y nifer leiaf o ymatebwyr (75%), er bod hyn yn dal i gyfateb i'r rhan fwyaf o ymatebwyr.

Siart 5 Disgwyliadau cyn dechrau cael yr hyfforddiant neu'r rhaglen ynghylch canlyniadau hyfforddiant



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)

Datgelodd gwaith dadansoddi pellach nad oedd fawr o wahaniaeth rhwng y rhywiau, ond roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o feddu ar ddisgwyliadau'n ymwneud â chwrdd â phobl newydd (82% o gymharu â 69%). Gall y ffaith bod mwy o ymatebwyr gwrywaidd iau yn y sampl fod yn gyfrifol am hyn

Byddem yn disgwyl gweld bod disgwyliadau gwahanol yn bwysicach ar gamau gwahanol o fywyd rhywun, a ddangosir yn y data. Er enghraifft:

- roedd yr ymatebwyr ieuengaf (16-18 oed) yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu'n hŷn o sôn am ddysgu sgiliau newydd ac roedd y rhai rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu'n hŷn o sôn am gwrdd â phobl newydd (yn gysylltiedig â grŵp oedran, roedd y rhai nad oeddent yn gweithio ar adeg yr arolwg a'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu hefyd yn fwy tebygol o sôn am gwrdd â phobl newydd). Yn ôl y disgwyl, y rhai

rhwng 16 a 18 oed oedd lleiaf tebygol o sôn am ddysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd.

- roedd y rhai a oedd yn gymharol newydd i'r farchnad lafur (19-24 oed) yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o sôn am gael swydd wahanol neu swydd well (81% o gymharu â 72% neu lai).

Tabl 7 Disgwyliadau ynghylch canlyniadau dysgu yn ôl oedran

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Oedran				
		16-18	19-24	25-34	35-44	45+
Sylfaen: heb ei phwysoli	1507	423	458	241	199	186
	%	%	%	%	%	%
Cael cymhwyster	97	95	97	98	98	98
Dysgu sgiliau newydd	94	96	94	91	92	92
Dysgu llawer mwy am y pwnc	92	94	93	90	91	88
Symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella eich datblygiad swydd	91	87	94	95	90	90
Cael mwy o foddhad o'ch gwaith	87	86	88	85	87	88
Gwella eich hyder	87	88	87	86	81	88
Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd	83	75	85	85	91	87
Gallu dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eich addysg	79	76	82	82	76	77
Cwrdd â phobl newydd	76	93	80	60	57	65
Cael swydd wahanol neu swydd well	75	78	81	72	69	64

- Roedd gwahanol ddisgwyliadau yn gysylltiedig â'r lleoliadau y darparwyd hyfforddiant yr ymatebwyr ynddynt. Er enghraifft, roedd y rhai a oedd yn dysgu mewn coleg addysg bellach (AB) neu gyda darparwr hyfforddiant preifat yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle o fod â disgwyliadau'n ymwneud â chwrdd â phobl newydd, tra bod y rhai a oedd yn y gweithle yn fwy tebygol o fod â disgwyliadau'n ymwneud â dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd a dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eu haddysg.
- Roedd dysgwyr Adeiladu Sgiliau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn am gael swydd neu swydd well (82% o gymharu â 75%) a chwrdd â phobl newydd (95% o gymharu â 75%). Fel y trafodwyd yn gynharach, cafodd y canfyddiadau hyn eu llywio gan broffil oedran y grŵp hwn: roedd 80% o ddysgwyr Adeiladu Sgiliau rhwng 16 a 18 oed.
- Roedd ymatebwyr a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau NVQ yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn astudio ar gyfer cymhwyster arall o feddu ar ddisgwyliadau'n ymwneud â gwella eu dealltwriaeth o'u gwaith (92% o gymharu ag 87%) a dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd (85% o gymharu â 77%).
- Dangosodd gwaith dadansoddi yn ôl y lefel uchaf o gymhwyster y meddwyd arni eisoes fod y rhai ar lefel mynediad/Lefel 1 yn fwy tebygol na'r rhai ar Lefel 2 neu uwch o ddweud bod ganddynt ddisgwyliadau ynghylch cwrdd â phobl newydd; unwaith eto, mae hyn yn debygol o ymwneud ag oedran (84% o gymharu â 76% neu lai).
- Fel y rhagwelwyd, efallai, roedd y rhai a gredai fod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol yn fwy tebygol na'r rhai a gredai fod eu hyfforddiant yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol o feddu ar yr holl ddisgwyliadau a restrwyd, ar wahân i gael cymhwyster (h.y. roedd ganddynt y disgwyliad hwn beth bynnag).

A yw'r cwrs wedi helpu gyda disgwyliadau ynghylch canlyniadau dysgu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oedd eu cwrs, hyd yn hyn, wedi eu helpu i fodloni eu disgwyliadau a oedd yn ymwneud â chanlyniad dysgu¹². Tra bod angen mwy o amser i fodloni nifer o ddisgwyliadau (megis y rhai sy'n ymwneud â datblygu fel dysgwr, cael swydd wahanol neu swydd well a chael cymhwyster) gellid disgwyl i eraill fod yn fwy uniongyrchol, a ddangosir yn y data.

Fel y dangosir yn y tabl canlynol, roedd 99 y cant o'r rhai a holwyd wedi dysgu llawer mwy am y pwnc (85% wedi dysgu llawer a 14% wedi dysgu ychydig), ac roedd canran debyg (97%) wedi dysgu sgiliau newydd (83% wedi dysgu llawer a 14% wedi dysgu ychydig). Hefyd, roedd 96 y cant o'r farn bod eu hyfforddiant wedi eu helpu i wella eu dealltwriaeth o'u galwedigaeth (78% yn dweud llawer, 18% yn dweud ychydig) a

¹² Ar gyfer y dysgwyr â mwy na dau ddisgwyliad gofynnwyd iddynt am ddau ddisgwyliad yn unig, a ddewiswyd ar hap o blith eu disgwyliadau

dywedodd 92 y cant fod eu hyfforddiant wedi eu helpu i gael cymhwyster (81% yn dweud llawer ac 11% yn dweud ychydig).

O ran disgwyliadau'n ymwneud â chanlyniadau personol/ cymdeithasol, dywedodd cyfrannau tebyg (tua thri chwarter ymhob achos) fod eu hyfforddiant wedi bod yn llawer o help i gwrdd â phobl newydd a gwella eu hyder.

I'r gwrthwyneb, roedd cyfrannau is o'r rhai â disgwyliadau tymor hwy a oedd yn ymwneud â datblygu fel dysgwr, cael swydd wahanol neu swydd well a chael cymhwyster o'r farn bod eu cwrs wedi eu helpu hyd yn hyn - er bod hyn yn dal i fod yn fwyafrif yn y tri achos.

Tabl 8 A yw'r cwrs wedi helpu gyda chanlyniadau disgwylidig

Sylfaen: Pob ymatebydd y gofynnwyd iddo am ei ddisgwyliadau	Sylfaen (heb ei phwysoli)	A wnaeth helpu...			
		Llawer	Ychydig	Ddim o gwbl	Ddim yn gwybod
		%	%	%	%
Dysgu llawer mwy am y pwnc	308	85	14	2	0
Dysgu sgiliau newydd	281	83	14	3	*
Cael cymhwyster	357	81	11	5	3
Gwella eich dealltwriaeth o'ch gwaith	249	78	18	4	*
Gwella eich hyder	271	76	22	2	*
Cwrdd â phobl newydd	247	75	18	6	1
Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd	245	74	20	6	*
Cael mwy o foddhad o'ch gwaith	272	73	18	8	1
Symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella eich datblygiad swydd	270	69	19	10	2
Gallu dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eich addysg	261	64	20	13	4
Cael swydd wahanol neu swydd well	234	63	15	17	5

Noder: * yn dynodi llai na 0.5%

Dim ond yn ôl rhai is-grwpiau o ymatebwyr y gellid dadansoddi ymatebion i'r cwestiwn hwn am fod y sylfeini'n fach. Fodd bynnag, nodwyd bod ymatebwyr a oedd yn credu bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol yn fwy tebygol o gredu bod eu cwrs wedi bod yn **llawer** o help i fodloni'r holl ddisgwyliadau'n ymwneud â chanlyniadau dysgu (o gymharu â'r rhai a oedd yn credu bod eu hyfforddiant ond yn eithaf defnyddiol neu ddim yn defnyddiol i'w swydd bresennol).

Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o gredu bod eu rhaglen hyfforddi wedi bod yn llawer o help i 'ddysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd' (81% o gymharu â 66% o ymatebwyr benywaidd) neu i 'symud ymlaen yn eu gyrfa neu wella eu datblygiad swydd' (74% o gymharu â 63% o ymatebwyr benywaidd). Hefyd, roedd ymatebwyr a oedd yn cael eu hyfforddi mewn coleg AB yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle o gredu bod eu rhaglen hyfforddi wedi bod yn llawer o help i fodloni'r canlyniadau disgwylidig canlynol:

- Dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddech yn ei gwneud ar y pryd (86% o gymharu â 69%)
- Gallu dilyn cyrsiau eraill neu ddatblygu eich addysg (73% o gymharu â 61%)
- Cael cymhwyster (89% o gymharu ag 80%)
- Cwrdd â phobl newydd (82% o gymharu â 71%)

Roedd ymatebwyr a oedd wedi cael problemau ar eu rhaglen hyfforddi yn llai tebygol o gredu bod eu hyfforddiant wedi bod yn llawer o help i gael swydd wahanol neu swydd well (56% o gymharu â 69% nad oeddent wedi cael problemau), dysgu sgiliau ar gyfer swydd roeddent yn ei gwneud ar y pryd (62% o gymharu ag 84%), symud ymlaen yn eu gyrfa neu wella eu datblygiad swydd (61% o gymharu â 74%) neu gael cymhwyster (73% o gymharu ag 88%).

Casgliadau a goblygiadau polisi

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r arolwg sy'n ymwneud â boddhad cyffredinol â dysgu fel a ganlyn:

- Cofnodwyd lefelau uchel iawn o foddhad.
- Mynegwyd mwy o foddhad gan ymatebwyr benywaidd a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu.
- Roedd y rhai nad oeddent wedi ystyried darparwyr eraill, y rhai y cafodd eu darparwr ei ddewis ar eu rhan, neu'r rhai a gafodd broblemau neu a oedd wedi meddwl am adael y cwrs, yn llai bodlon.

- Roedd astudio yn y dewis cyntaf o goleg neu, yn arbennig astudio'r dewis cyntaf o gwrs, yn bwysig o ran pennu boddhad.
- Boddhad eithriadol ag ansawdd yr hyfforddiant a'r cymorth gan gyflogwr oedd y ffactorau pwysicaf a lywiai ganlyniad hynod fodlon ar y cyfan.
- Graddau isel ar gyfer ansawdd yr addysgu, cymorth i ddysgwyr, ynghyd â phryderon ynghylch perthnasedd yr hyfforddiant a'r ffordd y rheolwyd yr hyfforddiant i ddiwallu anghenion y dysgwr oedd y ffactorau pwysicaf a lywiai canlyniad anfoddhaol.
- Cafodd disgwyliadau'r rhan fwyaf o fyfyrwyr â disgwyliadau o ran eu cwrs eu bodloni, ond roedd methiant cwrs i fodloni disgwyliadau ymatebwyr yn rheswm allweddol dros fod yn anfodlon.
- Roedd cysylltiad rhwng bodloni disgwyliadau ymatebwyr a boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu ynghyd â boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a chymorth cyflogwr.
- Er bod y disgwyliadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â chanlyniadau dysgu, roedd gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr hefyd ddisgwyliadau'n ymwneud â datblygiad cymdeithasol a datblygu fel dysgwr.
- Roedd bodloni disgwyliadau ymatebwyr yn cael effaith gadarnhaol ar foddhad ymatebwyr, cadw myfyrwyr a bwriad i ddysgu yn y dyfodol.
- Ar y cyfan, roedd disgwyliadau yn tueddu i leihau gydag oedran.
- Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o'r farn bod eu cwrs wedi eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dysgu disgwyliedig.
- Roedd y rhai a oedd yn dilyn cwrs mewn coleg AB yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle o nodi i'w hyfforddiant eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dysgu disgwyliedig a chanlyniad cymdeithasol cwrdd â mwy o bobl.

Mae'r lefelau boddhad cyffredinol hynod o uchel a fynegwyd gan aelodau o'r sampl DSW mewn perthynas â'u profiad dysgu yn awgrymu bod yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd yn diwallu anghenion ac yn bodloni disgwyliadau'r dysgwyr DSW a gyfwelwyd. At hynny, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod eu disgwyliadau o ran eu cwrs wedi'u bodloni. Serch hynny, ceir agweddau ar y canfyddiadau sy'n dynodi meysydd ar gyfer gwella er mwyn cynnal y sefyllfa ffafriol hon neu wella arni.

Yn yr un modd â chanfyddiadau'r sampl o ddysgwyr AB, gwelwyd bod perthynas gadarnhaol rhwng dilyn y cwrs gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr a lefelau uchel o foddhad â'r profiad dysgu. Fodd bynnag, dywedodd bron traean o'r ymatebwyr (31%) nad oedd ganddynt ddewis, yn bennaf am fod y cwrs wedi cael ei ddewis iddynt, gan eu cyflogwr fel arfer. Mae cyflogwyr llawer o'r mathau o ddysgwyr hyn yn eu hanfon ar y cwrs er

mwyn dysgu neu wella'r sgiliau sydd eu hangen i wneud y swydd. Mae hyn yn helpu i egluro pam nad oedd gan rai ymatebwyr unrhyw ddisgwyliadau ynghylch eu cwrs.

Er na fydd gan ddysgwyr sydd yn y sefyllfa hon unrhyw wybodaeth flaenorol am yr hyn y mae'r cwrs yn ei olygu efallai, a phrin fydd eu disgwyliadau, mae'n rhaid i'r cyflogwr wybod beth a gynigir gan y cwrs a sut y caiff ei gyflwyno. Felly, dylai llunwyr polisïau geisio sicrhau ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael ymhlith cyflogwyr. Yn bwysicach efallai, dylai darparwyr, yn enwedig colegau AB, sefydlu a/neu gynnal cydberthnasau da â chyflogwyr lleol ynghyd â ffyrdd o gyfathrebu â hwy. Dylai darparwyr barhau i chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o farchnata eu cyrsiau i gyflogwyr a, lle y bo'n bosibl, dylent bwysleisio eu gallu i ddiwallu anghenion penodol cyflogwyr drwy'r hyn a ddarperir ganddynt. Gall y lefelau uchel o foddhad a adlewyrchir gan y canfyddiadau hyn fod yn ddadl gref drostynt.

Wrth weithio gyda chyflogwyr, gellid hefyd roi pwyslais ar fanteision cynnal asesiad o anghenion hyfforddi i gyflogwyr, fel bod hyfforddiant cyflogeion wedi'i dargedu a'i fod yn effeithiol.

Ar yr un pryd, dylid tanlinellu pa mor bwysig ydyw i gyflogwyr gynorthwyo eu cyflogeion wrth iddynt gael hyfforddiant. Drwy'r canfyddiadau gwelwyd bod hyn yn ffactor allweddol a lywiau boddhad ymhlith ymatebwyr DSW. Yn unol â hynny, mae angen i gyflogwyr fod yn ymwybodol o'r rôl y gallant ei chwarae, pan fydd eu cyflogeion ar fin dechrau cwrs, er mwyn sicrhau bod y cyflogai yn manteisio'n llawn ar y cwrs ac yn ei gwblhau, drwy roi cymorth ac anogaeth barhaus iddo.

Mater cysylltiedig yw pa mor berthnasol yw'r cwrs i swydd bresennol yr ymatebydd. Roedd hwn yn bryder mawr i ymatebwyr, yr oedd disgwyliadau llawer ohonynt ynghylch y cwrs yn canolbwyntio'n benodol ar yr effaith gadarnhaol y byddai'n ei chael ar eu gallu i wneud eu gwaith. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen cynnal deialog rhwng y darparwr a'r cyflogwr sy'n noddi'r cyflogai, er mwyn sicrhau bod y cyflogwr yn gwbl ymwybodol o'r hyn y bydd y cwrs yn ei gynnig mewn perthynas â datblygu sgiliau'r dysgwr.

I ddarparwyr, mae amlygrwydd ansawdd eu darpariaeth, ac yn arbennig yr addysgu/hyfforddiant, fel ffactorau allweddol yn asesiad dysgwyr o'u boddhad â'u profiad dysgu, yn ein hatgoffa bod angen i'r agwedd hon gael ei monitro'n barhaus. Roedd gallu colegau AB i ychwanegu gwerth i'r broses o gaffael sgiliau yn amlwg yn y canfyddiad bod y rheini a gawsai eu hyfforddi mewn colegau AB yn fwy tebygol na'r rhai a gawsai eu hyfforddi yn y gweithle o deimlo bod hyn wedi bod yn llawer o help i ddysgu sgiliau newydd, dilyn cyrsiau eraill, cael cymwysterau neu gwrdd â phobl newydd. Dylid pwysleisio hyn wrth i golegau farchnata'r hyn a ddarperir ganddynt i gyflogwyr.

O safbwynt yr ymatebydd, roedd yn ddiddorol bod agweddau ar ddatblygiad cymdeithasol, sef gwella hyder a chwrdd â phobl newydd, wedi'u rhagweld gan niferoedd mawr o ymatebwyr. Mae hyn yn dynodi i ymatebwyr gydnabod manteision dysgu, yn fwy

na chaffael sgiliau a chael cymwysterau. Bydd yn bwysig nodi'r rhain wrth roi gwybodaeth am gyrsiau, a phan gynigir cyngor i ddarpar ddysgwyr.

Dewis a Chyfle

Mae'r adran hon yn trafod:

- a gafodd ymatebwyr eu dewis cyntaf o ddarparwr a chwrs a pha effaith gafodd hyn ar eu profiad dysgu;
- rhesymau ymatebwyr dros ddewis dilyn cwrs penodol gyda darparwr penodol;
- o ble y cafodd ymatebwyr gyngor cyn dechrau eu cwrs a pha mor ddefnyddiol oedd y rhain.


Dewis cyntaf o goleg/darparwr

Gofynnwyd i bob ymatebydd DSW nodi a oedd wedi cael ei ddewis cyntaf o ddarparwr, hynny yw, y sefydliad ble roedd am wneud ei hyfforddiant fwyaf.

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn astudio yn eu dewis cyntaf o goleg neu gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr hyfforddiant (58%), a dim ond 3 y cant a ddywedodd nad oeddent. Nid oedd llai nag un o bob deg o ymatebwyr (7%) wedi ystyried opsiwn arall.

Nid oedd bron traean o ymatebwyr (31%) yn credu eu bod wedi cael dewis o ran coleg na darparwr hyfforddiant. Dywedodd bron tri o bob deg o ymatebwyr (29%) mai'r rheswm dros hyn oedd am fod eu cyflogwr wedi gwneud y dewis ar eu rhan a dywedodd 2 y cant mai'r Ganolfan Byd Gwaith a oedd wedi gwneud y dewis hwnnw.

Siart 6 Dewis cyntaf o goleg/darparwr



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli): 1,507). Ddim yn gwybod heb ei ddangos.

Wrth edrych ar wahaniaethau yn y data yn ôl nodweddion personol ymatebwyr, roedd ymatebwyr benywaidd, ymatebwyr hŷn a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant yn llai tebygol o fod yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr nag ymatebwyr gwrywaidd, y rhai o dan 25 oed a'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu (gweler Tabl 9 a Thabl 10). I'r gwrthwyneb, roeddent yn fwy tebygol o ddweud na chawsant unrhyw ddewis, gan fod eu cyflogwr wedi dewis eu darparwr:

- Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu darparwr ar eu rhan (33% o ymatebwyr benywaidd o gymharu â 25% o ymatebwyr gwrywaidd). Serch hynny, yn ddiddorol, nid oedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn ystod eu cwrs nag ymatebwyr gwrywaidd.¹³

¹³ Roedd 90% o ymatebwyr benywaidd a 92% o ymatebwyr gwrywaidd yn gweithio yn ystod eu cwrs.

- Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o ddweud nad oedd ganddynt ddewis o ran eu darparwr hyfforddiant am fod eu cyflogwr wedi ei ddewis ar eu rhan (rhoddodd 41% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn yr ateb hwn, o gymharu â 18% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed, a 12% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed). Nid yw hyn yn peri syndod gan fod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o fod yn gweithio wrth ddilyn eu rhaglen hyfforddi nag ymatebwyr iau (93% o ymatebwyr 19 oed neu'n hŷn yn gweithio, o gymharu â 77% o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed).
- Yn gysylltiedig â rhyw ac oedran, roedd ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am ofalu am blant hefyd yn fwy tebygol na'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu darparwr hyfforddiant¹⁴ (40% o gymharu â 25% yn y drefn honno).

Tabl 9 Ai'r coleg/darparwr oedd y dewis cyntaf yn ôl rhyw a chyfrifoldebau gofal plant

	Cyfanswm	Rhyw		Cyfrifoldebau	
		Gwryw	Benyw	Plant	Dim
Sylfaen: Pob ymatebydd					
	1507	806	701	373	1083
	%	%	%	%	%
Ie, fy newis cyntaf	58	61	55	46	62
Na, nid fy newis cyntaf	3	3	3	3	4
Nid oedd gen i ddewis gan fod fy nghyflogwr wedi dewis ar fy rhan	29	25	33	40	25
Nid oedd gen i ddewis gan fod y Ganolfan Byd Gwaith wedi	2	2	3	3	2

¹⁴ Roedd dysgwyr benywaidd a dysgwyr hŷn yn fwy tebygol o fod yn gyfrifol am ofalu am rywun. Roedd 36% o ddysgwyr benywaidd yn gyfrifol am blant rhwng 0 a 15 oed gartref fel rhieni, o gymharu â 15% o ddysgwyr gwrywaidd yn unig. O ran oedran, dim ond 2% o ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed ac 8% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed oedd yn gyfrifol am blant rhwng 0 a 15 oed gartref fel rhieni, o gymharu â 56% o'r rhai rhwng 25 a 34 oed, 68% o'r rhai rhwng 35 a 44 oed a 31% o'r rhai 45 oed neu'n hŷn.

dewis ar fy rhan					
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall	7	8	5	9	6
Ddim yn gwybod	*	*	*	0	1

Noder: * yn dynodi <0.5%

Tabl 10 Ai'r coleg/darparwr oedd y dewis cyntaf yn ôl oedran

	Cyfanswm	Oedran		
Sylfaen: Pob ymatebydd		16-18	19-24	25+
	1507	423	458	626
	%	%	%	%
Ie, fy newis cyntaf	58	74	62	46
Na, nid fy newis cyntaf	3	6	2	2
Nid oedd gen i ddewis gan fod fy nghyflogwr wedi dewis ar fy rhan	29	12	28	41
Nid oedd gen i ddewis gan fod y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar fy rhan	2	3	1	2
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall	7	4	7	8
Ddim yn gwybod	*	1	*	*

Noder: * yn dynodi <0.5%.

Yn ôl y disgwyl, roedd dysgwyr Adeiladu Sgiliau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar eu rhan (15% o gymharu â 2% ar gyfartaledd), tra bod y rhai a oedd yn dilyn prentisiaethau yn fwy tebygol na dysgwyr eraill o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu rhaglen hyfforddi ar eu rhan (tua thraean o ddysgwyr Prentisiaeth Fodern a Phrentisiaeth Fodern Sylfaenol o gymharu â 23% o ddysgwyr ar raglenni eraill a 2% o ddysgwyr Adeiladu Sgiliau).

Roedd cysylltiad agos rhwng cael y dewis cyntaf o ddarparwr hyfforddiant a chael dewis ynghylch darparwr a boddhad ymatebydd â'i brofiad dysgu fel a ganlyn:

- Roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu cyffredinol yn fwy tebygol nag ymatebwyr a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon o fod gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr (63% o'r rhai a oedd yn hynod fodlon/bodlon iawn o gymharu â 38% o'r rhai a oedd yn ddidaro/anfodlon). I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon ar eu profiad dysgu yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu darparwr ar eu rhan (38% o'r rhai a oedd yn ddidaro/anfodlon o gymharu â 26% o'r rhai a oedd yn hynod fodlon/bodlon iawn) ac yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall (16% o gymharu â 6% yn y drefn honno).
- Yn yr un modd, roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr addysgu yn fwy tebygol nag ymatebwyr a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon o fod gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr (61% o gymharu â 43% yn y drefn honno), tra bod ymatebwyr a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon ar ansawdd yr addysgu yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi cael dewis am fod eu cyflogwr wedi dewis ar eu rhan (39% o gymharu â 27% o'r rhai a oedd yn hynod fodlon/bodlon iawn), neu o ddweud nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall (13% o gymharu â 6% yn y drefn honno).

Roedd tystiolaeth hefyd i awgrymu bod ymatebwyr nad oeddent wedi cael eu dewis cyntaf o goleg/darparwr ychydig yn fwy tebygol o gael problemau yn ystod eu cwrs ac o fod wedi meddwl am adael eu hyfforddiant. O'r rhai nad oeddent gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr:

- roedd 5 y cant o ymatebwyr wedi cael problemau, o gymharu â dim ond 2 y cant o'r rhai nad oeddent wedi eu cael,
- ac roedd 7 y cant wedi meddwl am adael o gymharu â 3 y cant o'r rhai nad oeddent wedi gwneud hynny.


Rhesymau dros astudio gyda darparwr

Gofynnwyd i bob ymatebydd a ddywedodd ei fod wedi cael dewis o ran darparwr nodi'r prif resymau dros ddewis y darparwr hwnnw. Y prif reswm a roddwyd oedd bod y darparwr mewn lleoliad cyfleus neu mai dyna'r darparwr agosaf, a grybwyllwyd gan draean o ymatebwyr (32%). Y rhesymau eraill a roddwyd yn rheolaidd oedd bod y darparwr yn cynnig yr hyfforddiant roedd yr ymatebydd ei eisiau (18%), bod ganddo enw da yn gyffredinol (15%), a bod eu ffrindiau yn mynd yno neu wedi ei argymhell (12%).

Y ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar y dewis o ddarparwr a nodwyd gan 5 y cant o ymatebwyr neu fwy oedd ei fod wedi cael ei argymhell gan eu cynghorydd gyrfaoedd neu ysgol (7%) a bod ganddo enw da am y cwrs (5%).

Dim ond 5 y cant o ymatebwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt ddewis gan mai'r darparwr oedd yr unig un yn yr ardal a oedd yn cynnig eu cwrs.

Siart 7 Rhesymau dros fynychu darparwr



Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai y dewisodd eu cyflogwr/Canolfan Byd Gwaith y darparwr ar eu rhan (heb ei phwysoli): 1,038). Roedd modd rhoi mwy nag un ateb ar gyfer y cwestiwn hwn. Dangosir yr holl resymau a roddwyd gan 3% o ymatebwyr neu fwy yn y siart. Ddim yn gwybod/heb ddweud heb ei ddangos.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg o ran y rhesymau a roddwyd dros ddewis darparwr yn ôl rhyw. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau ychydig yn fwy diddorol wrth ddadansoddi'r data yn ôl oedran, a wnaeth adlewyrchu'r camau gwahanol ym mywydau'r ymatebwyr. Er enghraifft:

- Roedd dewis neu argymhelliad eu ffrindiau yn fwy tebygol o ddylanwadu ar benderfyniad ymatebwyr iau nag ymatebwyr hŷn (rhoddodd 15% o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed y rheswm hwn o gymharu â 9% o ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn).

- Roedd ymatebwyr rhwng 25 a 44 oed, yr oedd ymrwymadau fel rhieni ac yn y gwaith ar eu hanterth, yn fwy tebygol o ddewis darparwr a oedd mewn lleoliad cyfleus neu'n agos atynt (rhoddodd 40% o ymatebwyr rhwng 25 a 34 a 44% o ymatebwyr rhwng 35 a 44 y rheswm hwn, o gymharu â 26% o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed a 29% o ymatebwyr rhwng 19 a 24 oed). Roedd ymatebwyr rhwng 35 a 44 oed hefyd ychydig yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o ddewis darparwr am ei fod yn cynnig cyrsiau ar adegau cyfleus (7% o gymharu â 3% yn y drefn honno).
- I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr 45 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu darparwr am fod ganddo enw da (yn gyffredinol) na'r ymatebwyr ieuengaf (21% o gymharu â 12% o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed).

Roedd dysgwyr ar raglenni Adeiladu Sgiliau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn am argymhelliad gan gynghorydd gyrfaoedd/ysgol (16% o gymharu â 7% yn y drefn honno), ond nid yw hyn yn syndod o ystyried proffil ifanc y grŵp hwn o ddysgwyr.

Rhesymau dros beidio ag astudio gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr


Gofynnwyd i bob ymatebydd nad oedd yn astudio gyda'i ddewis cyntaf o ddarparwr roi'r rheswm dros hyn. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd:

- y ffaith nad oedd y darparwr yn cynnig y cwrs roedd ymatebwyr ei eisiau (16%)
- nid oeddent wedi cael eu derbyn ar y cwrs hwnnw / roedd eu cais yn rhy hwyr neu roedd y cwrs yn llawn (16%)
- roeddent wedi dechrau gyda darparwr arall ond nid oeddent yn ei hoffi / nid oeddent yn fodlon / nid oeddent yn hapus (14%).

Y rhesymau eraill a roddwyd gan fwy na 5 y cant o ymatebwyr nad oeddent gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr oedd bod y ganolfan arall wedi cau (6%) neu fod ymatebwyr ddim yn hoffi proses weinyddol darparwyr eraill, neu'r ffaith nad oeddent yn gallu ateb eu cwestiynau (6%).

Roedd nifer yr ymatebwyr a gyfwelwyd nad oeddent yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr yn rhy fach i'w dadansoddi fel is-grŵp (dim ond 49 o'r ymatebwyr DSW a arolygwyd nad oeddent yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr).

Siart 8 Rhesymau dros beidio ag astudio gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr



Sylfaen: Pob ymatebydd nad oedd wedi cael ei ddewis cyntaf o ddarparwr (heb ei phwysoli 49). Roedd modd rhoi mwy nag un ateb ar gyfer y cwestiwn hwn. Dangosir yr holl resymau a roddwyd gan 4% o ymatebwyr neu fwy yn y siart. Ddim yn gwybod/heb ddweud heb ei ddangos.


Dewis cyntaf o gwrs neu hyfforddiant

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn i'r ymatebwyr nodi ai'r mathau o hyfforddiant roeddent yn eu cael oedd eu dewisiadau cyntaf, hynny yw, ai'r pynciau a'r cymwysterau oedd y rhai roeddent am eu gwneud fwyaf.

Yn galonogol, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr mai'r hyfforddiant roeddent yn ei wneud ar hyn o bryd oedd eu dewis cyntaf (84%). Dim ond un o bob 25 o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwneud eu dewis cyntaf (4%) a dywedodd nifer hyd yn oed yn llai o ymatebwyr nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall (1%).

Roedd yn amlwg o'r canfyddiadau bod rhai cyflogwyr yn dewis y math o hyfforddiant a wnaed gan yr ymatebwyr yn ogystal â'u darparwr. Dywedodd bron un o bob deg o ymatebwyr nad oeddent wedi cael dewis am fod eu cyflogwr wedi dewis eu hyfforddiant ar eu rhan (9%). Yn gyffredinol, dywedodd llai na 0.5 y cant o ymatebwyr mai'r Ganolfan Byd Gwaith oedd wedi penderfynu ar eu hyfforddiant, er mai hyn oedd yr achos ar gyfer 4% o'r rhai ar raglenni Adeiladu Sgiliau.

Siart 9 Ai'r cwrs oedd dewis cyntaf yr ymatebydd



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1507). Ddim yn gwybod heb ei ddangos.

Wrth ystyried gwahaniaethau yn y data yn ôl nodweddion personol ymatebwyr, fel y canfyddiadau'n ymwneud â dewis darparwr, ymatebwyr benywaidd, ymatebwyr hŷn a'r rhai a oedd yn gyfrifol am ofalu am blant a oedd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwneud eu dewis cyntaf o hyfforddiant. I'r gwrthwyneb, roeddent yn fwy tebygol o ddweud na chawsant unrhyw ddewis ynghylch yr hyfforddiant a wnaed ganddynt, gan fod eu cyflogwr wedi ei ddewis. Er enghraifft:

- Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu hyfforddiant ar eu rhan nag ymatebwyr gwrywaidd (12% o gymharu ag 8%).
- Roedd ymatebwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o nodi nad oedd dewis ganddynt o ran y math o hyfforddiant a wnaed am fod eu cyflogwr wedi dewis ar eu rhan (rhoddwyd yr ateb hwn gan 14% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn o gymharu â 3% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed a 9% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed).
- Yn gysylltiedig â phatrymau ar gyfer rhyw ac oedran, roedd ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am ofalu am blant tua dwywaith yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis ar eu rhan, na'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu (16% o gymharu â 7% yn y drefn honno).

Tabl 11 Ai'r hyfforddiant oedd y dewis cyntaf yn ôl rhyw a chyfrifoldebau gofal plant

	Cyfanswm	Rhyw		Cyfrifoldebau	
		Gwryw	Benyw	Plant	Dim
Sylfaen: Pob ymatebydd					
	1507	806	701	373	1083
	%	%	%	%	%
Ie, fy newis cyntaf	84	87	80	77	86
Ie, ond dim ond rhai o'r cyrsiau oedd yn ddewis cyntaf gennyf	*	*	*	1	*
Na, nid fy newis cyntaf	4	3	5	3	5
Nid oedd gen i ddewis gan fod fy nghyflogwr wedi dewis ar fy rhan	9	8	12	16	7
Nid oedd gen i ddewis gan fod y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar fy rhan	*	*	1	1	*
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall	1	1	1	3	1
Ddim yn gwybod	*	*	*	*	*

Noder: * yn dynodi < 0.5%.

Tabl 12 A oedd ymatebwyr wedi cael eu dewis cyntaf o hyfforddiant yn ôl oedran

	Cyfanswm	Oedran		
Sylfaen: Pob ymatebydd		16-18	19-24	25+
	1507	423	458	626
	%	%	%	%
Ie, fy newis cyntaf	84	88	87	79
Ie, ond nid oedd rhai o'r cyrsiau'n ddewis cyntaf gennyf	*	0	*	1
Na, nid fy newis cyntaf	4	7	3	4
Nid oedd gen i ddewis gan fod fy nghyflogwr wedi dewis ar fy rhan	9	3	9	14
Nid oedd gen i ddewis gan fod y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar fy rhan	*	1	0	*
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall	1	1	1	2
Ddim yn gwybod	*	0	*	*

Noder: * yn dynodi < 0.5%.

Roedd hefyd dystiolaeth i awgrymu bod cael y dewis cyntaf o bwnc/cymhwyster yn effeithio ar brofiad ymatebwyr o'u hyfforddiant yn gyffredinol. Er enghraifft:

- Roedd ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu cyffredinol yn fwy tebygol nag ymatebwyr a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon o fod yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs (88% o gymharu â 62% yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon ar eu profiad dysgu yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwneud eu dewis cyntaf o hyfforddiant (11% o gymharu â 3% yn y drefn honno) ac yn fwy tebygol o ddweud bod eu hyfforddiant wedi cael ei ddewis gan eu cyflogwr (22% o gymharu ag 8% yn y drefn honno).
- Gwelwyd patrwm tebyg hefyd wrth edrych ar foddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu. Roedd 86 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu haddysgu yn gwneud eu dewis cyntaf o hyfforddiant o gymharu â 65 y cant o'r rhai a

oedd yn ddidaro/anfodlon. I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ddidaro/anfodlon ar eu profiad dysgu yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwneud eu dewis cyntaf o hyfforddiant nag ymatebwyr yn gyffredinol (12% o gymharu â 45% yn gyffredinol) ac yn fwy tebygol o ddweud bod eu hyfforddiant wedi cael ei ddewis gan eu cyflogwr (17% o gymharu ag 8% yn gyffredinol).


- Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi cael problem ers dechrau eu cwrs ychydig yn fwy tebygol o beidio â bod yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs o gymharu â'r rhai na chawsant unrhyw broblemau (6% o gymharu â 3%).
- Dangosodd y canfyddiadau hefyd fod 11 y cant o ymatebwyr nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o hyfforddiant wedi meddwl am adael eu rhaglen hyfforddi. I'r gwrthwyneb dim ond 3 y cant o'r rhai nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o gwrs a ddywedodd nad oeddent wedi meddwl am adael.

Roedd hefyd yn ymddangos bod diffyg ymreolaeth mewn perthynas â dewis cwrs yn gysylltiedig ag anfodlonrwydd â'r cymorth a roddwyd gan eu cyflogwr yn ystod eu hyfforddiant. Roedd yr ymatebwyr a ddywedodd fod eu cyflogwr wedi dewis y math o hyfforddiant a wnaed ganddynt ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddidaro/anfodlon ar y cymorth a roddwyd gan eu cyflogwr yn ystod eu hyfforddiant nag ymatebwyr yn gyffredinol (20% o gymharu â 9% o ymatebwyr yn gyffredinol).

Rhesymau dros ddewis cwrs neu hyfforddiant

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs neu nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall nodi'r rheswm dros ddewis yr hyfforddiant penodol hwnnw. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros ddewis hyfforddiant, gan un o bob pum ymatebydd, oedd i helpu gyda'u swydd bresennol neu eu datblygiad mewn swydd (41%). Y rhesymau poblogaidd eraill oedd am eu bod yn mwynhau'r pwnc neu'n dda yn y pwnc (29%), i gael cymhwyster (20%), i ddysgu sgiliau newydd neu wella sgiliau (20%) neu i gael swydd yn gysylltiedig â'r pwnc (17%).

Siart 10 Rhesymau dros ddewis cwrs/hyfforddiant



Sylfaen: Pob ymatebydd ar wahân i'r rhai nad oeddent yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs a'r rhai nad oedd dewis ganddynt o ran eu rhaglen hyfforddi (heb ei phwysoli: 1293). Roedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Dangosir yr holl resymau a roddwyd gan 5% o ymatebwyr neu fwy. Ddim yn gwybod heb ei ddangos.

Roedd rhai gwahaniaethau diddorol yn ôl rhyw. Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o ddweud eu bod wedi dewis eu cyrsiau am eu bod yn eu mwynhau neu eu bod yn dda yn y pwnc (36% o gymharu ag 21% yn y drefn honno) ac oherwydd bod y cwrs yn swnio'n ddiddorol (16% o gymharu ag 8% yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod wedi dewis eu cwrs presennol am resymau'n ymwneud â'u swydd bresennol a dysgu sgiliau/cael cymhwyster, yn benodol er mwyn:

- eu helpu gyda swydd bresennol/datblygiad mewn swydd (53% o ymatebwyr benywaidd o gymharu â 32% o ymatebwyr gwrywaidd)
- dysgu sgiliau newydd / gwella sgiliau (23% o gymharu â 17% yn y drefn honno)
- cael cymhwyster (22% o gymharu â 17% yn y drefn honno).

Gan fod proffil yr ymatebwyr gwrywaidd yn y sampl yn ifanc ar y cyfan, a bod proffil ymatebwyr benywaidd yn hŷn ar y cyfan, gellir cysylltu'r canfyddiadau hyn ag oedran.

Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol na'u cymheiriaid hŷn o fod wedi dewis cyrsiau am eu bod yn eu mwynhau neu am fod ganddynt ddiddordeb ynddynt. Er enghraifft:

- yn mwynhau'r pwnc / yn dda yn y pwnc (46% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed a 33% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 14% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn)
- cwrs yn swnio'n ddiddorol (18% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed, 15% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 7% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn).

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dewis cyrsiau am resymau a oedd yn gysylltiedig â swydd neu i ddysgu sgiliau/cael cymhwyster, megis:

- helpu gyda swydd bresennol/datblygiad mewn swydd (15% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed, 40% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 62% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn)
- cael cymhwyster (13% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed, 19% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 25% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn)
- dysgu sgiliau newydd/gwella sgiliau (12% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed, 16% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 29% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn).

Tabl 13 Rhesymau dros gael hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran

	Cyfanswm	Rhyw		Oedran		
		Gwryw	Benyw	16-18	19-24	25+
Sylfaen: Pob ymatebydd ar wahân i'r rhai nad oeddent yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs a'r rhai nad oedd dewis ganddynt o ran eu rhaglen hyfforddi						
Heb ei phwysoli	1293	715	578	377	405	511
	%	%	%	%	%	%
Helpu gyda swydd bresennol / datblygiad mewn swydd	41	32	53	15	40	62
Cael cymhwyster	20	17	22	13	19	25
Cael swydd sy'n gysylltiedig â'r pwnc	17	17	18	18	16	18
Dysgu sgiliau newydd / gwella sgiliau	20	17	23	12	16	29
Yn mwynhau'r pwnc / yn dda yn y pwnc	29	36	21	46	33	14
Cwrs yn swnio'n ddiddorol	13	16	8	18	15	7

Noder: roedd modd rhoi mwy nag un ateb. Dim ond rhag-godau â chytundeb o >10% a ddangosir yn y tabl.


Ffynonellau o gyngor cyn mynediad

Er mwyn pennu o ble y cafodd ymatebwyr gyngor ac arweiniad, gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd wedi cael cyngor o amrywiaeth o ffynonellau cyn dechrau cael hyfforddiant.

Roedd tua 90 y cant o ymatebwyr wedi cael rhyw fath o gyngor cyn dechrau ar eu cwrs. Nid yw'n syndod efallai mai'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o gyngor ymhlith ymatebwyr oedd eu cyflogwr, a nodwyd gan tua thair rhan o bump o ymatebwyr (62%). Yr ail ffynhonnell fwyaf cyffredin o gyngor, a nodwyd gan tua hanner yr holl ymatebwyr, oedd athrawon neu diwtoriaid yng ngoleg yr ymatebydd neu gyda'i ddarparwr hyfforddiant (48%).

Dywedodd tua dwy ran o bump o ymatebwyr eu bod wedi ceisio cyngor gan rieni ac aelodau o'r teulu (42%), ffrindiau (39%) a Gyrfa Cymru (37%) a soniodd tua tri o bob deg ymatebydd am geisio cyngor gan eu cynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol neu eu hathro yn eu hysgol (29%). Y ffynonellau eraill o gyngor a nodwyd gan fwy na 5 y cant o ymatebwyr oedd swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg (18%), learndirect¹⁵ (11%) ac anogwr dysgu (6%).

Siart 11 Ffynonellau o gyngor cyn mynediad



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1507). Roedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Dangosir yr holl ffynonellau a nodwyd gan >6% o ymatebwyr.

¹⁵ Ers cynnal yr arolwg, mae learndirect wedi cael ei ailfrandio fel y 'Llinell Cyngor ar Yrfaoedd.'

Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o gael cyngor nag ymatebwyr hŷn. Dim ond 3 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed a ddywedodd nad oeddent wedi cael unrhyw gyngor o gymharu â 7 y cant o'r rhai rhwng 19 a 24 oed a 14 y cant o'r rhai 25 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn ddealladwy am fod dysgwyr iau yn fwy tebygol o ddod ar draws ystod ehangach o gyngor ac arweiniad ffurfiol drwy fynychu'r ysgol neu'r coleg na dysgwyr hŷn (roedd 63% o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed wedi cael cyngor gan y cynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol/athrawon yn yr ysgol ac roedd 12% wedi cael cyngor gan anogwr dysgu).

Roedd ymatebwyr ifanc hefyd yn fwy tebygol o gael cyngor a oedd ar gael i bob grŵp oedran megis Gyrfa Cymru (76% o gymharu â 39% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed ac 8% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn) a swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg (23% o gymharu â 14% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn). Gall y ffaith bod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o geisio cyngor gan eu cyflogwr nag ymatebwyr iau (66% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed, 65% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn o gymharu â dim ond 54% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed) egluro hyn ac efallai oherwydd, gyda mwy o brofiad ym myd gwaith ac o ran dysgu, fod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o fod wedi llunio eu barn eu hunain ynghylch y math o gwrs neu hyfforddiant yr oedd ei angen arnynt heb deimlo bod angen ceisio cyngor.

Yn ôl y disgwyl, roedd ymatebwyr ifanc yn llawer mwy tebygol o geisio cyngor gan rieni ac aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau:

- roedd 72 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed wedi ceisio cyngor gan ffrindiau ac aelodau o'r teulu, o gymharu â 55 y cant o'r rhai rhwng 19 a 24 oed a 13 y cant o'r rhai 25 oed neu'n hŷn.
- roedd 53 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed yn ceisio cyngor gan ffrindiau, o gymharu â 42 y cant o'r rhai rhwng 19 a 24 oed a 30 y cant o'r rhai 25 oed neu'n hŷn.

Mae cysylltiad cryf rhwng y canfyddiadau yn ôl rhyw a'r canfyddiadau yn ôl oedran. Roedd ymatebwyr benywaidd yn y sampl yn hŷn ar y cyfan, gyda 61 y cant o ymatebwyr benywaidd yn 25 oed neu'n hŷn¹⁶. Fel ymatebwyr hŷn, roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod wedi peidio â cheisio cyngor ar eu hyfforddiant nag ymatebwyr gwrywaidd (11% o gymharu â 7% o ddynion).

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr gwrywaidd yn y sampl yn ifanc ar y cyfan (roedd 75 y cant o ymatebwyr gwrywaidd yn y sampl o dan 25 oed)¹⁷ ac roeddent yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o geisio cyngor o'r ffynonellau canlynol:

- athrawon neu diwtoriaid yn eich coleg neu'ch darparwr hyfforddiant (51% o ymatebwyr gwrywaidd o gymharu â 44% o ymatebwyr benywaidd)

¹⁶ Roedd hyn yn adlewyrchu proffil sampl o ddysgwyr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn gwaith dilynol.

¹⁷ Fel yr uchod.

- eich rhieni neu aelodau eraill o'r teulu (56% o gymharu â 27% yn y drefn honno)
- Gyrfa Cymru (46% o gymharu â 26% yn y drefn honno)
- Cynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol neu athrawon yn yr ysgol (40% o gymharu â 17% yn y drefn honno)
- Anogwr dysgu (8% o gymharu â 4% yn y drefn honno).

Mae'r siart ganlynol yn crynhoi'r tair ffynhonnell o gyngor fwyaf cyffredin yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw.

Siart 12 Y tair ffynhonnell o gyngor fwyaf cyffredin yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw

Bechgyn 16-18 oed (sylfaen 292)

Rhieni/teulu (73%)

Gyrfa Cymru (72%)

Cyngorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol/athrawon ysgol (65%)

Merched 16-18 oed (sylfaen 131)

Gyrfa Cymru (85%)

Rhieni/teulu (70%)

Ffrindiau (62%)

Dynion 19-24 oed (sylfaen 314)

Cyflogwr (64%)

Rhieni/teulu (64%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (48%)

Merched 19-24 oed (sylfaen 144)

Cyflogwr (72%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (43%)

Ffrindiau (42%)

Dynion 25-34 oed (sylfaen 95)

Cyflogwr (69%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (54%)

Ffrindiau (35%)

Merched 25-34 oed (sylfaen 146)

Cyflogwr (71%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (42%)

Ffrindiau (28%)

Dynion 35 oed neu'n hŷn (sylfaen 105)

Cyflogwr (57%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (50%)

Ffrindiau (19%)

Merched 35-54 oed (sylfaen 280)

Cyflogwr (64%)

Athrawon/tiworiaid yn y coleg (43%)

Ffrindiau (27%)

Tabl 14 Ffynonellau o gyngor ac arweiniad yn ôl rhyw ac oedran

	Cyfanswm	Rhyw		Oedran		
		Gwryw	Benyw	16-18	19-24	25+
Sail Pob Ymatebydd						
Heb ei phwysoli	1507	806	701	423	458	626
	%	%	%	%	%	%
Eich cyflogwr	62	61	64	54	66	65
Athrawon neu diwtoriaid yn eich coleg neu'ch darparwr hyfforddiant	48	51	44	53	46	46
Eich rhieni neu aelodau eraill o'r teulu	42	56	27	72	55	13
Ffrindiau	39	41	37	53	42	27
Gyrfa Cymru	37	46	26	76	39	52
Cynghorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol neu athrawon yn yr ysgol	29	40	17	63	38	-
Swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg	18	19	17	23	20	14
Learndirect	11	12	10	13	10	11
Anogwr Dysgu	6	8	4	12	8	0

Noder: Roedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Dim ond rhag-godau â chytundeb o >5% a ddangosir yn y tabl.

Yn gysylltiedig â'r canfyddiadau ar gyfer oedran, roedd y rhai ar raglenni Adeiladu Sgiliau (a oedd rhwng 16 a 18 oed ar y cyfan) yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o grybwyll y ffynonellau canlynol o gyngor:

- Gyrfa Cymru (78% o gymharu â 37% ar gyfartaledd)
- Rhieni/aelodau eraill o'r teulu (55% o gymharu â 42% ar gyfartaledd)
- Ffrindiau (49% o gymharu â 39% ar gyfartaledd)
- Cynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol/athrawon yn yr ysgol (43% o gymharu â 29% ar gyfartaledd)
- Anogwr Dysgu (14% o gymharu â 6% ar gyfartaledd)
- Y Ganolfan Byd Gwaith (6% o gymharu ag 1% ar gyfartaledd)

Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor a gafwyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi cael cyngor raddio pa mor ddefnyddiol oedd y prif ffynonellau a nodwyd. Yn galonogol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod pob ffynhonnell yn ddefnyddiol, gyda thua naw o bob deg o ymatebwyr neu fwy yn dweud bod pob ffynhonnell yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol. Efallai ei bod yn fwy ystyrlon cymharu cyfran yr ymatebwyr a roddodd radd 'defnyddiol iawn', sef y radd orau, ar gyfer ffynonellau o gyngor, er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng y ffynonellau'n haws.

Y ffynhonnell o gyngor a ystyriwyd fel yr un fwyaf defnyddiol (a gafodd radd 'defnyddiol iawn' gan tua dwy ran o dair o ymatebwyr) oedd athrawon neu diwtoriaid mewn colegau neu ddarparwyr hyfforddiant (68%). Yn dilyn hyn, roedd tua dau o bob pump o ymatebwyr o'r farn bod y cyngor a gafwyd gan eu cyflogwr (59%) a swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg (59%) yn ddefnyddiol iawn. Y ffynonellau eraill o gyngor a nodwyd gan fwy na 50 y cant o ymatebwyr fel rhai defnyddiol iawn oedd:

- Gyrfa Cymru (55%)
- Eich rhieni neu aelodau eraill o'r teulu (52%)
- Ffrindiau (50%)
- Cyngorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol neu athrawon yn yr ysgol (47%)
- Learndirect (45%).

Yn ddiddorol, roedd ymatebwyr hŷn a oedd wedi ceisio cyngor gan athrawon neu diwtoriaid gyda'u darparwr hyfforddiant yn fwy tebygol o gredu bod y cyngor hwn yn ddefnyddiol iawn nag ymatebwyr iau (74% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn o gymharu â 64% neu lai o'r rhai rhwng 16 a 24 oed). Gwelwyd patrwm tebyg mewn perthynas â chyngor ffrindiau: roedd 65 y cant o ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn yn credu ei fod yn ddefnyddiol iawn, o gymharu â 47 y cant neu lai o ymatebwyr iau. I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed yn fwy tebygol na'r rhai 25 oed neu'n hŷn o nodi bod cyngor gan eu cyflogwr yn ddefnyddiol iawn (69% o gymharu â 56%).

Yr unig wahaniaeth amlwg rhwng y rhywiau oedd bod ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi bod y cyngor a gafwyd gan eu ffrindiau yn ddefnyddiol iawn (59% o ferched o gymharu â 40% o ddynion).

Tabl 15 Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor canlynol?

Cyfran o'r rhai a oedd wedi defnyddio'r ffononellau canlynol o gyngor	Sylfaen heb ei phwysoli	Defnyddiol iawn	Eithaf defnyddiol	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl	Ddim yn gwybod
		%	%	%	%	%
Athrawon neu diwtoriaid yn eich coleg neu'ch darparwr hyfforddiant	431	68	31	*	0	1
Eich cyflogwr	642	59	36	3	1	0
Swyddfa derbyn myfyrwyr y coleg	116	59	38	0	3	1
Gyrfa Cymru	293	55	38	4	3	0
Eich rhieni neu aelodau eraill o'r teulu	336	52	43	3	2	*
Ffrindiau	303	50	44	5	2	*
Cynghorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol neu athrawon yn yr ysgol	206	47	44	6	2	*
Learndirect	**66	45	44	6	3	2

Noder: * yn dynodi canrannau <0.5%. ** yn dynodi sylfaen fach (<100).

Dangosodd dadansoddiad yn ôl y math o raglen fod dysgwyr ar raglenni Adeiladu Sgiliau yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o nodi nad oedd cyngor eu ffrindiau yn ddefnyddiol iawn neu nad oedd yn ddefnyddiol o gwbl (18% o gymharu â 7% ar gyfartaledd).

Casgliadau a goblygiadau polisi

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r arolwg sy'n ymwneud â dewis a chyfle fel a ganlyn:

- Dim ond 58 y cant o ymatebwyr a oedd yn mynychu eu dewis cyntaf o goleg a nododd 31 y cant nad oedd dewis ganddynt, gan fod eu cyflogwr wedi gwneud y penderfyniad hwnnw neu, mewn ambell achos, y Ganolfan Byd Gwaith.
- Roedd ymatebwyr benywaidd, ymatebwyr hŷn a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant yn llai tebygol o fod yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr. Roedd y grwpiau hyn hefyd yn fwy tebygol o deimlo nad oedd dewis ganddynt.
- Roedd cysylltiad cryf rhwng astudio gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr a bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu.

- Roedd ymatebwyr a oedd yn ddidaro/anfodlon ar y cymorth a roddwyd gan eu cyflogwr yn fwy tebygol o nodi mai eu cyflogwr a oedd wedi dewis eu darparwr hyfforddiant ar eu rhan o gymharu ag ymatebwyr yn gyffredinol.
- Y prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y dewis o ddarparwr oedd pa mor gyfleus oedd y lleoliad a ph'un a oedd y coleg yn cynnig y rhaglen hyfforddi ddymunol.
- Roedd cyfleustra lleoliad yn bwysicach i'r rhai rhwng 25 a 44 oed, tra bod enw da darparwr yn bwysicach i ymatebwyr hŷn nag ymatebwyr iau.
- Roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (84%) yn astudio'r pynciau a'r cymwysterau roeddent am eu gwneud fwyaf.
- Roedd cwrs un rhan o ddeg o ymatebwyr wedi cael ei ddewis iddynt, gan eu cyflogwr fel arfer. Roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith ymatebwyr benywaidd nag ymatebwyr gwrywaidd, ynghyd â bod yn fwy cyffredin ymhlith y rhai dros 25 oed na'r rhai o dan 25 oed.
- Roedd cysylltiad rhwng dilyn y dewis cyntaf o gwrs neu hyfforddiant a boddhad cyffredinol ymatebwyr a ph'un a oeddent wedi ystyried gadael y cwrs.
- Roedd yr ymatebwyr y cafodd eu cwrs neu eu hyfforddiant ei ddewis gan eu cyflogwr ddwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o nodi nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon/anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr.
- I helpu gyda swydd bresennol/datblygiad mewn swydd oedd y rheswm mwyaf cyffredin o gryn dipyn dros ddewis y cwrs, wedi'i ddilyn gan fwynhau'r pwnc neu fod yn dda yn y pwnc, dysgu sgiliau newydd a chael cymhwyster.
- Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o ddewis cwrs am eu bod yn ei fwynhau neu'n hoffi'r pwnc, tra bod ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o sôn am resymau'n ymwneud â gwaith.
- Roedd ymatebwyr dros 25 oed yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o fod wedi dewis eu cwrs am resymau'n ymwneud â'u swydd bresennol ac ennill sgiliau, tra bod y rhai o dan 25 oed yn fwy tebygol o gyfeirio at y ffaith eu bod yn mwynhau'r pwnc neu'n dda yn y pwnc.
- Y ffynonellau mwyaf cyffredin o gyngor cyn mynediad oedd eu cyflogwr, athro neu diwtor yn eu coleg neu gyda'u darparwr, rhieni ac aelodau eraill o'r teulu, a ffrindiau.
- Ymhlith yr ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed, rhieni a Gyrfa Cymru oedd y ffynonellau mwyaf cyffredin o gyngor, tra ymhlith grwpiau oedran hŷn, y cyflogwr oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin.
- Nodwyd bod y cyngor a gafwyd gan bob ffynhonnell yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol yn y mwyafrif llethol o achosion. Y cyngor a gafwyd gan athrawon neu

diwtoriaid yng ngholeg yr ymatebwyr neu gyda darparwr hyfforddiant yr ymatebwyr a ddisgrifiwyd fwyaf fel 'defnyddiol iawn'.

- Roedd ymatebwyr benywaidd i'w gweld yn dibynnu'n fwy ar ffrindiau am gyngor nag ymatebwyr gwrywaidd.

Dewis dysgwyr

Yn groes i'r arolwg o ddysgwyr AB, credai tua thraean o'r rhai mewn DSW nad oeddent wedi cymryd rhan yn y broses o ddewis darparwr dysgu a honnodd un rhan o ddeg hefyd nad oeddent wedi cael unrhyw ddewis mewn perthynas â'r cwrs. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhan a chwaraeir gan gyflogwyr wrth bennu'r dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael i'w cyflogeion neu sy'n ofynnol ganddynt. Nodwyd hefyd fod y rhai nad oeddent wedi dewis eu cwrs yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar eu profiad dysgu. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn anfodlon ar eu cwrs neu eu darparwr dysgu, dylid annog cyflogwyr i gynnwys eu cyflogeion yn fwy yn y broses o wneud penderfyniadau am unrhyw hyfforddiant y mae angen iddynt ei wneud. Yn ddiaw, bydd teimlo rhyw fath o berchenogaeth o'r penderfyniad yn gwella eu hymrwymiad i'w dysgu ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael boddhad o'r profiad. Hyd yn oed os yw'r cwrs yn orfodol er mwyn cyflawni eu rôl yn y gwaith, bydd cynnal trafodaeth â'r cyflogai ac egluro'r manteision yn atgyfnerthu'r teimladau hyn.

Er gwaethaf yr uchod, dim ond lleiafrif bach o ymatebwyr a awgrymodd fod diffyg opsiynau yn eu cyfyngu o ran dewis cwrs neu ddarparwr. Mae hyn yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod yr hyn a ddarperir yn diwallu anghenion dysgwyr seiliedig ar waith yng Nghymru.

Cyngor ac arweiniad

Er nad oedd yn annisgwyl y byddai'r cyflogwr yn chwarae rhan flaenllaw mewn perthynas â rhoi cyngor ac arweiniad i ymatebwyr, dylid ystyried gwrthrychedd cyngor ac arweiniad o'r fath. Yn amlwg, mae cyflogwyr mewn sefyllfa dda i asesu anghenion hyfforddi cyfredol eu cyflogeion yng nghyd-destun gofynion penodol y swydd a datblygiad mewn swydd yn y sefydliad. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn er budd tymor hwy cyflogeion unigol bob amser. Felly, gall defnyddio asiantaeth allanol sy'n arbenigo'n benodol mewn rhoi arweiniad, yn ogystal â gwybod am y ddarpariaeth sydd ar gael, alluogi cyflogeion unigol i wella eu sgiliau er budd eu gyrfa yn y dyfodol, ac i gyflogwyr gael budd o ddatblygu gweithlu mwy medrus.

Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i wasanaethau arweiniad Gyrfa Cymru gyrraedd oedolion gryn dipyn yn fwy. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod rôl Gyrfa Cymru, er yn ddylanwadol ymhlith y rhai rhwng 16 a 18 oed o ran rhoi cyngor ac arweiniad, yn llai o lawer ymhlith grwpiau oedran hŷn.

Bodddhad â'r Darparwr

Mae'r adran hon yn trafod bodddhad ymatebwyr â'u coleg neu ddarparwr hyfforddiant drwy ystyried tair agwedd ar ddarpariaeth ddysgu:

- bodddhad cyffredinol ag ansawdd yr hyfforddiant
- graddio hyfforddwyr, tiwtoriaid ac athrawon mewn nifer o feysydd allweddol yn ymwneud â'r hyfforddiant a roddwyd
- graddio pa mor dda y mae'r coleg neu'r darparwr yn rheoli'r hyfforddiant mewn sawl maes allweddol.


O ystyried pwysigrwydd graddau ar gyfer ansawdd cyffredinol yr hyfforddiant wrth lywio bodddhad cyffredinol¹⁸, rydym hefyd yn ystyried y posibilrwydd o wella graddau ymatebwyr ar gyfer ansawdd yr hyfforddiant drwy ddefnyddio techneg atchweliad amcangyfrifon sefydlog safonol er mwyn deall yr hyn sy'n llywio eu bodddhad.

Bodddhad â hyfforddiant

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa mor fodlon oeddent ar ansawdd yr hyfforddiant a geir yn eu coleg neu gyda'u darparwr hyfforddiant. Fel y dangosir yn Siart 13, roedd lefelau bodddhad yn uchel iawn gyda naw o bob deg o ymatebwyr (93%) yn fodlon i ryw raddau a saith o bob deg (70%) yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn.

¹⁸ gweler y bennod gynharach Bodddhad Cyffredinol â'r Profiad Dysgu

Siart 13 Boddhad cyffredinol ag ansawdd yr hyfforddiant



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)

Yn benodol, roedd ymatebwyr benywaidd a'r rhai 25 oed neu'n hŷn yn fwy bodlon nag ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr iau (gweler Tabl 16). Fodd bynnag, pan ddadansoddir y ffigurau'n agosach gwelir gwahaniaeth mawr rhwng ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr benywaidd rhwng 19 a 24 oed, gyda phedwar o bob pum ymatebydd benywaidd rhwng 19 a 24 oed (81%) yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o gymharu â thri o bob pum ymatebydd gwrywaidd rhwng 19 a 24 oed (62%).

Tabl 16 Boddhad cyffredinol ag ansawdd hyfforddiant yn ôl rhyw ac oedran

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Rhyw		Oedran				
		Gwryw	Benyw	16-18	19-24	25-34	35-44	45+
Sylfaen heb ei phwysoli	1507	806	701	423	458	241	199	186
	%	%	%	%	%	%	%	%
Hynod fodlon	32	28	37	32	29	33	33	39
Bodlon iawn	38	37	39	32	39	44	40	38
Eithaf bodlon	23	27	18	30	25	16	19	15
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	3	3	3	2	3	4	3	3
Anfodlon	4	4	3	4	4	4	5	3
(net) Hynod fodlon / bodlon iawn	70	65	76	64	68	77	73	77

Tabl 17 Canran sy'n hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant yn ôl oedran o fewn rhyw'r unigolyn

Sylfaen: Pob ymatebydd	Sylfaen heb ei phwysoli	Cyfanswm	Oedran			
			16-18	19-24	25-34	35+
		1,507	423	458	241	385
		%	%	%	%	%
Gwryw	806	65	63	62	74	72
Benyw	701	76	65	81	79	76

Dangosodd dadansoddiad yn ôl y math o raglen fod cyfran llai na'r cyfartaledd o ddysgwyr ar raglenni Adeiladu Sgiliau wedi rhoi gradd hynod fodlon/bodlon iawn ar gyfer ansawdd yr hyfforddiant.

O ganlyniad i feintiau sylfaen bach, bu'n anodd gweld patrwm clir o ran meysydd pwnc, ond dangosodd y data fod ymatebwyr ar raglenni Adeiladu, Cludiant, Peirianeg a Gweithgynhyrchu yn dueddol o fod yn llai bodlon ar ansawdd yr hyfforddiant yn gyffredinol (nododd 63% o ymatebwyr a oedd yn astudio'r pynciau hyn eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn). Fodd bynnag, fel y trafodir yn yr adran ar broffil ymatebwyr yn

atodiadau'r adroddiad hwn, roedd yr ymatebwyr a oedd yn astudio'r pynciau hyn yn wrywaidd bron i gyd ac yn iau ar y cyfan (o dan 25 oed).

Fel y trafodwyd yn gynharach, roedd cysylltiad rhwng lefelau boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu. Yn yr un modd, roedd y rhai a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr hefyd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd (77% o gymharu â 59% a oedd yn llai na bodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr).

Gwelwyd mwy o foddhad ag ansawdd yr hyfforddiant ymhlith yr is-grwpiau canlynol hefyd.

- Ymatebwyr a oedd yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr (74% yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn) o gymharu â'r rhai yr oedd eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar eu rhan (65% yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn).
- Yn yr un modd, roedd y rhai a oedd yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs hefyd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn (72%) na'r rhai nad oeddent yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs (55%) neu'r rhai yr oedd eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar eu rhan (62%).
- Roedd tua phedair rhan o bump o ymatebwyr a gredai fod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol (79%) yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant o gymharu â thua hanner y rhai a gredai fod eu hyfforddiant yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol (52%).

I'r gwrthwyneb, roedd y grwpiau canlynol o ymatebwyr yn llai tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant yn eu coleg neu gyda'u darparwr hyfforddiant:

- Y rhai a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael (44% o gymharu â 75% nad oeddent wedi ystyried hyn)
- Y rhai a oedd wedi cael problemau ers dechrau eu hyfforddiant (65% o gymharu â 75% nad oeddent wedi cael problemau)

Hefyd, nododd y data fod ymatebwyr a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon na'r rhai a oedd yn mynychu coleg AB i gael hyfforddiant (35% o gymharu â 29% a oedd yn hynod fodlon), er nad oeddent yn llawer mwy tebygol o fod yn 'hynod fodlon' neu'n 'fodlon iawn' yn gyffredinol (72% o gymharu â 68%). Dylid cofio bod ymatebwyr iau (y rhai o dan 25 oed) yn fwy tebygol o fod yn mynychu coleg AB, tra roedd y rhai 25 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o fod yn cael hyfforddiant yn eu gweithle.

Graddau ar gyfer hyfforddwr, tiwtoriaid ac aseswyr

Gofynnwyd i bob ymatebydd roi gradd rhwng 1 a 10 i'w hyfforddwr, tiwtoriaid neu aseswyr¹⁹ ar nifer o agweddau ar ddarparu hyfforddiant, y gellir eu dosbarthu o dan dri phennawd bras.

Dulliau addysgu	Deall y dysgwr	Datblygu fel dysgwr
<ul style="list-style-type: none"> Y gallu i egluro pynciau'r rhaglen Gwneud yr hyfforddiant yn ddiddorol neu'n ddifyr Gwneud defnydd da o amser sesiynau Ansawdd/argaeledd adnoddau 	<ul style="list-style-type: none"> Gwrando ar anghenion Eich deall chi/sut rydych yn hoffi dysgu Eich trin yn deg a chyda pharch 	<ul style="list-style-type: none"> Y cymorth y maent yn ei roi i chi, er enghraifft i wella eich sgiliau dysgu neu sut rydych yn rheoli amser Pennu targedau neu nodau dysgu clir er mwyn eich helpu i wella rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar gynnydd

Cafodd pob agwedd ar addysgu sgôr gymedr o 8 neu fwy²⁰, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn graddio elfennau addysgu tuag at frig y raddfa rhwng 1 a 10 (Tabl 18). Roedd a wnelo dwy o'r nodweddion a gafodd y sgôr uchaf â **deall y dysgwr**, sef: 'eich trin yn deg a chyda pharch' (78% yn cael 9 neu 10 allan o 10) a 'gwrando ar eich anghenion' (64% yn cael 9 neu 10). Tra cafodd 'y gallu i egluro pynciau'r rhaglen', yn ymwneud â **dulliau addysgu**, sgôr uchel hefyd (rhoddodd 64% 9 neu 10), cafodd y tair agwedd arall yn ymwneud â dulliau addysgu y sgorau isaf (rhwng 52% a 55% ar gyfer pob un). Cafodd agweddau ar addysgu'n ymwneud â **datblygu fel dysgwr** sgorau uchel o 9 neu 10 gan rhwng 56% a 59% o ymatebwyr.

Tabl 18 Graddau ar gyfer athrawon, tiwtoriaid neu aseswyr

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)	% a roddodd 9-10 allan o 10 (sgôr uchel)	Sgôr gymedr
Eich trin yn deg a chyda pharch	78	9.17
Y gallu i egluro pynciau'r rhaglen	64	8.75
Gwrando ar eich anghenion	64	8.70
Y cymorth y maent yn ei roi i chi, er enghraifft i wella eich sgiliau dysgu neu sut rydych yn rheoli eich amser	59	8.52

¹⁹ Roedd 1 yn gyfystyr â gwael iawn a 10 yn gyfystyr ag ardderchog

²⁰ Ystyr sgôr gymedr yw'r sgôr gyfartalog allan o 10

Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu	58	8.51
Rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar eich cynnydd	58	8.47
Pennu targedau neu nodau dysgu clir er mwyn eich helpu i wella	56	8.45
Gwneud defnydd da o amser sesiynau	55	8.38
Gwneud eich hyfforddiant yn ddiddorol neu'n ddifyr i chi	55	8.36
Ansawdd ac argaeledd yr adnoddau y maent yn eu defnyddio	52	8.33

Roedd y grwpiau a oedd yn tueddu bod yn fwy bodlon ar ansawdd eu hyfforddiant yn gyffredinol hefyd yn tueddu graddio agweddau unigol ar ddarparu eu hyfforddiant yn uwch. Fel y trafodwyd yn gynharach, y rhain oedd:

- Ymatebwyr benywaidd
- Y rhai a oedd yn fwy bodlon ar eu profiad dysgu yn gyffredinol
- Y rhai a oedd yn fwy bodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr
- Yr ymatebwyr a oedd yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr hyfforddiant
- Yr ymatebwyr a oedd yn dilyn eu dewis cyntaf o gwrs
- Y rhai a oedd o'r farn bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol

Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr a oedd yn llai bodlon yn gyffredinol yn tueddu rhoi graddau is:

- Ymatebwyr a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael
- Ymatebwyr a oedd wedi cael problemau ar eu rhaglen hyfforddi

Hefyd, roedd ymatebwyr nad oeddent yn gweithio yn tueddu rhoi graddau is i agweddau unigol ar y broses o ddarparu eu hyfforddiant na'r rhai a oedd yn gweithio.

Rhydd Siart 14 grynodedb o'r grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10, a'r grwpiau hynny oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai allan o 10 o dan y tri phennawd mantell cyffredinol sef dulliau addysgu, deall y dysgwr a datblygu fel dysgwr.

Trafodir grwpiau ychwanegol o ymatebwyr a roddodd raddau uwch neu is i agweddau penodol ar ddarparu hyfforddiant o gymharu ag eraill yn fanylach isod.

Dulliau addysgu

Roedd y rhai a oedd yn astudio tuag at gymhwyster hyd at lefel 2 yn fwy tebygol o roi graddau uwch i'w hyfforddwyr, tiwtoriaid ac aseswyr mewn perthynas â dulliau addysgu (o gymharu â'r rhai a oedd yn dysgu ar lefel 3 ac uwch). Er enghraifft, rhoddodd cyfran uwch o ymatebwyr a oedd yn astudio rhaglen hyd at lefel 2 9 neu 10 am 'gwneud yr hyfforddiant yn ddiddorol neu'n ddifyr' (58% o gymharu â 51% a oedd yn astudio lefel 3 ac uwch) a 'gwneud defnydd da o amser sesiynau' (58% o gymharu â 53%).

Yn yr un modd, roedd y rhai heb unrhyw gymhwysterau blaenorol yn fwy tebygol na'r rhai â chymhwyster uchaf blaenorol rhwng lefel mynediad a lefel 3 o roi 9 neu 10 allan o 10 i'w hyfforddwyr, tiwtoriaid ac aseswyr am bob agwedd ar ddulliau addysgu heblaw am 'ansawdd ac argaeledd yr adnoddau y maent yn eu defnyddio'.

Deall y dysgwr

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 i agweddau ar eu hyfforddiant yn ymwneud â deall y dysgwr roedd:

- Ymatebwyr â phlant - er enghraifft, nododd saith o bob deg (69%) eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o ran 'gwrando ar eich anghenion' o gymharu â 63% o ymatebwyr heb blant.
- Roedd y rhai a oedd yn astudio gyda darparwr hyfforddiant preifat yn fwy tebygol nag ymatebwyr a oedd yn mynychu coleg AB o roi 9 neu 10 allan o 10 am 'eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu' (60% o gymharu â 52%) ac 'eich trin yn deg a chyda pharch' (81% o gymharu â 74%). Fel y nodwyd eisoes, roedd ymatebwyr a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle yn fwy tebygol yn gyson na'r rhai a oedd yn mynychu coleg AB o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar bob agwedd ar ddarparu hyfforddiant.

Datblygu fel dysgwr

Unwaith eto, roedd y rhai a oedd yn astudio tuag at gymhwyster hyd at lefel 2 yn fwy tebygol o roi graddau uwch i agweddau ar ddarparu hyfforddiant yn ymwneud â datblygu fel dysgwr na'r rhai a oedd yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 3 neu uwch.

- Roedd ymatebwyr a oedd yn hyfforddi hyd at lefel 2 yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn mewn perthynas â phob agwedd ar ddatblygu fel dysgwr. Er enghraifft, rhoddodd 59 y cant o ymatebwyr 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer 'pennu targedau neu nodau dysgu clir er mwyn eich helpu i wella' o gymharu â 53 y cant o'r rhai a oedd yn hyfforddi ar lefel 3 neu uwch.

- Yn yr un modd, roedd y rhai heb unrhyw gymwysterau yn fwy tebygol nag ymatebwyr â chymhwyster blaenorol o roi 9 neu 10 neu 10 allan o 10 am bob agwedd ar ddatblygu fel dysgwr heblaw am 'pennu targedau neu nodau dysgu clir er mwyn eich helpu i wella'.

Siart 14 Y grwpiau mwyaf a lleiaf beirniadol mewn perthynas ag elfennau cyffredinol o hyfforddiant

Dulliau addysgu

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer o leiaf 2 allan o 4 elfen

Ymatebwyr benywaidd
65+
Dysgwyr gwyn
Dysgwyr rhan-amser, <3 awr
Ymatebwyr nad oeddent yn gweithio
Y rhai â chyfrifoldebau gofalu
Y rhai ar gyrsiau byr
Y rhai a oedd yn astudio hyd at L2

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer o leiaf 2 allan o 4 elfen

Y rhai ar raglenni Adeiladu
Sgiliau
Ymadawyr cynnar
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau
Ddim ar y dewis cyntaf o gwrs
Dysgu ar-lein/yn ysgrifenedig

Deall y dysgwr

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer o leiaf 2 allan o 3 elfen

Ymatebwyr benywaidd
65+
Dysgwyr rhan-amser, <3 awr
Y rhai â chyfrifoldebau gofalu
Y rhai ar gyrsiau byr
Y rhai a oedd yn astudio hyd at L2

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai ar gyfer o leiaf 2 allan o 3 elfen

Y rhai ar raglenni Adeiladu
Sgiliau
Dysgwyr amser llawn
Ymadawyr cynnar
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau
Ddim yn y dewis cyntaf o goleg
Ddim ar y dewis cyntaf o gwrs
Dysgu ar-lein/yn ysgrifenedig

Datblygu fel dysgwr

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer o leiaf 2 allan o 3 elfen

Ymatebwyr benywaidd
65+
Ymatebwyr nad oeddent yn gweithio
Dysgwyr dydd
Y rhai â chyfrifoldebau gofalu
Y rhai ar gyrsiau byr
Y rhai a oedd yn astudio hyd at L2

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai ar gyfer o leiaf 2 allan o 3 elfen

Dysgwyr nos
Ymadawyr cynnar
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau
Ddim yn y dewis cyntaf o goleg/heb gael dewis
Dysgu ar-lein/yn ysgrifenedig

Rheoli'r cwrs

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio eu coleg neu'u darparwr hyfforddiant mewn perthynas â rheoli'r cwrs mewn tri maes cyffredinol: lles y dysgwr, yr amserlen ac ymweliadau aseswyr. Unwaith eto, gofynnwyd i bob ymatebydd roi gradd rhwng 1 a 10²¹ ac mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau.

Rhoddodd bron dau o bob tri o ymatebwyr 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer pob agwedd ar reoli'r cwrs yn ymwneud ag **ymweliadau aseswyr**. Rhoddodd 70 y cant o ymatebwyr y sgôr hon am 'aseswyr yn cyrraedd yn unol â'r trefniadau', 68 y cant am 'gweld yr un aseswr drwy gydol y cwrs' a 63 y cant am 'amlder ymweliadau aseswyr'. Roedd a wnelo un datganiad â **lles y dysgwr** ('rhoi cymorth pan fydd gennych broblemau') a chafodd sgôr o 9 neu 10 gan ddwy ran o dair o ymatebwyr (67%). Ar gyfer agweddau'n ymwneud â'r **amserlen**, rhoddodd 63 y cant o ymatebwyr 9 neu 10 allan o 10 i'w coleg neu ddarparwr hyfforddiant am 'trefnu sesiynau neu apwyntiadau fel eu bod mor gyfleus â phosibl i chi' a rhoddodd 57 y cant 9 neu 10 am 'cyfleu newidiadau i amseroedd sesiynau'

Tabl 19 Graddau ar gyfer rheoli'r cwrs

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507) heblaw am * Pob ymatebydd a gaiff ei hyfforddi yn y gweithle (891)	% a roddodd 9-10 allan o 10 (sgôr uchel)	Sgôr gymedr
Lles y dysgwr		
Rhoi cymorth pan fydd gennych broblemau	67	8.83
Amserlenni		
Trefnu sesiynau neu apwyntiadau fel eu bod mor gyfleus â phosibl i chi	63	8.60
Cyfleu newidiadau i amseroedd sesiynau	57	8.45
Ymweliadau aseswyr		
Aseswyr yn cyrraedd yn unol â'r trefniadau*	70	8.86
Gweld yr un aseswr drwy gydol y cwrs	68	8.75
Amlder ymweliadau aseswyr*	63	8.61

²¹ Ar y raddfa rhwng 1 a 10, roedd 1 yn gyfystyr â gwael iawn a 10 yn gyfystyr ag ardderchog

Unwaith eto, roedd y grwpiau o ymatebwyr a nodwyd gynt fel rhai a oedd yn fwy bodlon ar ansawdd yr hyfforddiant yn gyffredinol yn tueddu graddio agweddau'n ymwneud â rheoli'r cwrs yn uwch. Fodd bynnag, gwelwyd rhai gwahaniaethau diddorol hefyd rhwng rhai is-grwpiau o ymatebwyr ar gyfer agweddau penodol ar reoli cwrs.

Lles y dysgwr

Roedd ymatebwyr heb unrhyw gymhwyster blaenorol yn fwy tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 am 'rhoi cymorth pan fydd gennych broblemau' (80% o gymharu â 70% neu lai o'r rhai â chymhwyster lefel mynediad neu uwch yn barod). At hynny, roedd y rhai yng ngradd gymdeithasol DE hefyd yn fwy tebygol o roi sgôr uwch i'r agwedd hon na'r rhai yng ngraddau cymdeithasol AB neu C1 (72% o gymharu â 63% a 65% yn y drefn honno).

Amserlenni

Rhoddodd ymatebwyr a oedd yn gweithio tra'n dilyn eu rhaglen ac ymatebwyr â phlant raddau uwch i'r ddwy agwedd yn ymwneud â'r amserlen na'r rhai nad oeddent yn gweithio a'r rhai heb blant. Er enghraifft:

- rhoddodd 64 y cant o ymatebwyr a oedd yn gweithio 9 neu 10 allan o 10 am 'trefnu sesiynau neu apwyntiadau fel eu bod mor gyfleus â phosibl i chi', o gymharu â 50 y cant nad oeddent yn gweithio yn ystod eu hyfforddiant.
- rhoddodd 62 y cant o ymatebwyr â chyfrifoldebau fel rhiant 9 neu 10 allan o 10 am 'cyfleu newidiadau i amseroedd sesiynau' (o gymharu â 55% o'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu)

Hefyd, roedd ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 na'r rhai o dan 25 oed. Er enghraifft, rhoddodd 71 y cant o ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn 9 neu 10 allan o 10 am 'trefnu sesiynau neu apwyntiadau fel eu bod mor gyfleus â phosibl i chi', o gymharu â 57 y cant o'r rhai rhwng 16 a 24 oed. Y rheswm dros hyn oedd bod ymatebwyr gwrywaidd iau (rhwng 16 a 24 oed) yn llawer llai tebygol o roi graddau mor uchel i'r ddwy agwedd yn ymwneud â'r amserlen ag ymatebwyr gwrywaidd hŷn (25 oed neu'n hŷn) neu ymatebwyr benywaidd o bob oed.

Ymweliadau aseswyr

Dim ond yr ymatebwyr hynny a oedd yn cael hyfforddiant yn y gweithle a holwyd am ddwy o'r tair agwedd yn ymwneud ag ymweliadau aseswyr ('aseswyr yn cyrraedd yn unol â'r trefniadau' ac 'amlder ymweliadau aseswyr').

Yn nodedig, roedd ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn a'r rhai â phlant yn fwy tebygol o roi graddau uwch i'r agweddau hyn na'r rhai o dan 25 oed a'r rhai heb blant, er y dylid ailbwyseisio bod ymatebwyr â phlant yn llawer mwy tebygol o fod yn 25 oed neu'n hŷn. Er enghraifft, rhoddodd 78 y cant o ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn 9 neu 10 allan o 10 am 'aseswyr yn cyrraedd yn unol â'r trefniadau' (o gymharu â 63% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed) a rhoddodd 73 y cant o ymatebwyr â phlant 9 neu 10 am 'gweld yr un aseswr drwy gydol y cwrs' (o gymharu â 66% o'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu').

Siart 15 Y grwpiau mwyaf a lleiaf beirniadol o ran rheoli'r cwrs

Lles y dysgwr

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer yr elfen hon

Ymatebwyr benywaidd
Hyfforddiant a ddarperir yn y gweithle*
Y rhai a oedd yn astudio gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr
Y rhai a oedd yn astudio ar eu dewis cyntaf o gwrs
Hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol
Heb unrhyw gymwysterau blaenorol**

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai ar gyfer yr elfen hon

Y rhai ar raglenni Adeiladu Sgiliau
Ddim yn gweithio
Hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ddarparwr hyfforddiant preifat
Cyflogwr neu'r Ganolfan Byd
Gwaith wedi dewis y darparwr
Cyflogwr neu'r Ganolfan Byd
Gwaith wedi dewis y cwrs/ ddim ar y dewis cyntaf o gwrs
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau

Amserlenni

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer y ddwy elfen

Ymatebwyr benywaidd
25 oed neu'n hŷn
Yn gweithio
Cyfrifoldeb fel rhiant am blentyn
Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y gweithle*
Ar y dewis cyntaf o gwrs
Hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol
Heb feddwl am adael
Â chymhwyster lefel 4+

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai ar gyfer y ddwy elfen

Ymatebwyr gwrywaidd
Ddim yn gweithio
Hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn coleg AB neu gan ddarparwr hyfforddiant preifat
Cyflogwr neu'r Ganolfan Byd
Gwaith wedi dewis y darparwr
Ddim ar y dewis cyntaf o gwrs
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau

Ymweliadau aseswyr

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 ar gyfer o leiaf ddwy allan o dair elfen

Ymatebwyr benywaidd
25 oed neu'n hŷn
Cyfrifoldeb fel rhiant am blentyn
Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y gweithle*
Hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol

Grwpiau oedd fwyaf tebygol o roi sgôr o 6 neu lai ar gyfer o leiaf ddwy allan o dair elfen

Cyflogwr neu'r Ganolfan Byd
Gwaith wedi dewis y darparwr
Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y gweithle*
Wedi meddwl am adael
Wedi cael problemau

* O gymharu â'r rhai a gaiff eu hyfforddiant mewn coleg AB

** O gymharu â'r rhai â chymhwyster rhwng lefel mynediad a lefel 3

Ffactorau sy'n llywio boddhad ag ansawdd yr addysgu

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd graddau ar gyfer boddhad ag ansawdd yr addysgu yn allweddol o ran teimlo'n anfodlon ac wrth eu bodd â'r profiad dysgu cyffredinol. Felly, mae'n ddefnyddiol ystyried *pa* elfennau o addysgu a gaiff yr effaith fwyaf ar y sgôr gyffredinol.

Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol²² i bennu *pa* mor bwysig oedd pob elfen o addysgu o ran llywio boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu. Mae'r tabl canlynol yn dangos pwysigrwydd perthynol (ar ffurf canran) pob ffactor o ran llywio boddhad cyffredinol, ynghyd â safle pob elfen yn nhrefn pwysigrwydd. Mae hyn yn dangos yn glir mai 'gwneud defnydd da o amser sesiynau' yw'r elfen bwysicaf, wedi'i dilyn gan 'y cymorth y maent yn ei roi i chi', 'gwneud yr hyfforddiant yn ddiddorol ac yn ddifyr' a 'gwrando ar eich anghenion'.

Tabl 20 Ffactorau sy'n llywio boddhad ag ansawdd yr addysgu

Newidyn dibynnol: Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd yr hyfforddiant?	% pwysigrwydd	Safle gradd
Y gallu i egluro pynciau'r rhaglen	9.3	7
Gwrando ar eich anghenion	10.5	4
Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu'n ddifyr	10.6	3
Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu	8.9	8
Y cymorth y maent yn ei roi i chi	12.2	2
Gwneud defnydd da o amser sesiynau	12.7	1
Ansawdd ac argaeledd yr adnoddau y maent yn eu defnyddio	8.9	9
Pennu targedau neu nodau dysgu clir er mwyn eich helpu i wella	10.2	5
Rhoi adborth prydlon a rheolaidd ar eich cynnydd	10.2	6
Eich trin yn deg a chyda pharch	6.3	10

²² Defnyddir Atchweliad Amcangyfrifon Sefydlog i weithio allan faint o ddylanwad a gaiff nodweddion gwahanol ar rai newidynnau dibynnol megis boddhad. Os oes rhyw fath o gysylltiad rhwng y nodweddion a fesurir (er enghraifft wrth i un wella mae un arall hefyd yn debygol o wella) gall dadansoddiad atchweliad llinol cyffredin fod yn gamarweiniol a rhoi ateb ansefydlog. Gelwir y rhyng-gysylltiad hwn rhwng newidynnau annibynnol yn 'aml-gyflinelledd'; mae atchweliad amcangyfrifon sefydlog yn fath arbennig o atchweliad, a ddefnyddir i ymdrin â'r problem hon.

Drwy fapio'r sgôr 'pwysigrwydd' hon yn erbyn y sgôr perfformiad (graddau'r ymatebwyr ar gyfer agweddau unigol ar addysgu) mae'n bosibl gweld pa ymyriadau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar wella boddhad yn y dyfodol.

Mae'r siart nesaf yn crynhoi'r canlyniadau ar ffurf pedwar cwadrant²³:

- blwch uchaf ar y chwith: pwysigrwydd uchel ond perfformiad is yn dynodi bod angen cynnal **adolygiad**
- blwch uchaf ar y dde: pwysigrwydd uchel a pherfformiad uchel yn dynodi bod achos dros **hyrwyddo** cryfderau
- blwch isaf ar y chwith: pwysigrwydd isel a pherfformiad is yn dynodi bod angen gwneud gwaith **monitro**
- blwch isaf ar y dde: pwysigrwydd is ond perfformiad is yn dynodi bod angen **cynnal** perfformiad.


Dengys y dadansoddiad y canlynol:

- Cafodd un agwedd ei graddio'n uchel o ran perfformiad a phwysigrwydd, sef 'gwrando ar eich anghenion' ac 'y gallu i egluro pynciau'r rhaglen'. Felly, mae'r rhain yn perthyn i'r cwadrant 'hyrwyddo' ac maent yn agweddau ar addysgu sy'n llywio'r lefelau uchel o foddhad a welwyd ac maent hefyd yn bwysig i ymatebwyr.
- Yn berthynol i bob agwedd arall ar hyfforddiant, mae 'gwneud defnydd da o amser sesiynau', 'y cymorth y maent yn ei roi i chi', 'gwneud eich hyfforddiant yn ddiddorol neu'n ddifyr', 'pennu targedau clir' ac 'adborth prydlon a rheolaidd' yn elfennau i'w hadolygu. Hynny yw, mae'r data'n awgrymu mai newidiadau yn y meysydd hyn a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar raddau cyffredinol ar gyfer ansawdd yr hyfforddiant.
- Roedd graddau 'ansawdd ac argaeledd yr adnoddau y maent yn eu defnyddio ac 'eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu' yn is o gymharu â ffactorau eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r ffactorau hyn yn llai pwysig yn berthynol o ran llywio boddhad cyffredinol ag addysgu, felly dylid monitro'r rhain dros amser.
- Er i 'eich trin yn deg a chyda pharch' gael sgôr uchel o ran perfformiad, roedd cyfraniad y ffactor hwn at foddhad cyffredinol ag addysgu yn is *mewn perthynas â'r holl agweddau eraill* ac felly dylid cynnal lefelau boddhad ar gyfer y ffactor hwn.

²³ Mae'r manau canol yn y siart sy'n darlunio'r cwadrantau yn seiliedig ar fod hanner ffordd rhwng y sgôr uchaf a'r sgôr isaf ar gyfer pwysigrwydd a'r cyfartaledd ar gyfer y 10 sgôr perfformiad

Siart 16 Grid gweithredu ar gyfer gwella graddau boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu

Pwysigrwydd (cyfraniad at foddhad ag ansawdd yr addysgu)



Perfformiad (sgôr gymedr allan o 10)

Casgliadau a goblygiadau polisi

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r arolwg sy'n ymwneud â boddhad â'r darparwr fel a ganlyn:

- Cofnodwyd lefelau uchel iawn o foddhad ag ansawdd yr hyfforddiant gan ymatebwyr.
- Roedd ymatebwyr benywaidd a'r rhai 25 oed neu'n hŷn yn fwy bodlon nag ymatebwyr gwrywaidd ac ymatebwyr iau ar ansawdd yr hyfforddiant.
- Roedd y rhai a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr hefyd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant.
- Roedd lefelau boddhad ag ansawdd yr hyfforddiant yn uwch ymhlith y rhai ar eu dewis cyntaf o gwrs neu gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr, a'r rhai lle roedd yr hyfforddiant yn berthnasol iawn i'w swydd bresennol.
- Rhoddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr raddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar addysgu, gydag 'eich trin yn deg a chyda pharch' yn cael ei graddio'n arbennig o uchel.
- Rhoddodd y rhai heb unrhyw gymwysterau blaenorol, neu â chymwysterau hyd at lefel 2, raddau uwch i'r agweddau ar ddulliau addysgu nag ymatebwyr eraill.
- 'Gwneud defnydd da o amser sesiynau' oedd y ffactor pwysicaf o ran boddhad cyffredinol ag ansawdd yr hyfforddiant.
- Roedd 'gwrando ar eich anghenion' ac 'y gallu i egluro pynciau'r rhaglen' ill dau yn feysydd o hyfforddiant a oedd yn ffactorau pwysig o ran llywio boddhad cyffredinol ag ansawdd yr addysgu a rhoddodd ymatebwyr sgorau uchel iddynt hefyd.

Datgelodd ymatebion i gwestiynau am ddarparwyr dysgu lefelau uchel o foddhad ag agweddau gwahanol ar y ddarpariaeth honno, gydag ansawdd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn cael clod mawr, yn enwedig gan ymatebwyr iau. Dylai darparwyr gofio'r amrywiad hwn rhwng grwpiau oedran o ran y graddau y gwerthfawrogwyd yr hyn a ddarparwyd, fel eu bod yn parhau i fod yn sensitif i anghenion a chanfyddiadau gwahanol pob dysgwr.

Roedd y graddau yr oedd darparwyr yn ceisio diwallu anghenion dysgwyr unigol yn amlwg o'r graddau uchel a roddwyd gan y rhai heb unrhyw gymwysterau i'r agweddau'n ymwneud â datblygu fel dysgwr ar rôl hyfforddwyr, tiwtoriaid ac aseswyr. Yn arbennig, soniwyd am y cymorth a roddwyd i ddysgwyr a pha mor aml y cafwyd adborth ar gynnydd. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr hyn yn croesawu'r ffordd y cynigiwyd cymorth iddynt pan gafwyd problemau. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod gan

ddarparwyr ethos gadarnhaol ynghyd â seilwaith briodol i ymateb i anghenion y rhan helaeth o'u dysgwyr. At hynny, ymddengys eu bod wedi llwyddo i gynnwys dysgwyr llai traddodiadol a allai, oherwydd eu profiad blaenorol, fod wedi disgwyl bod yn fwy beirniadol ac amharod mewn perthynas ag arlwy darparwyr.


Dangosodd y dadansoddiad atchweliad amcangyfrifon sefydlog mai 'gwrando ar eich anghenion' oedd yr agwedd bwysicaf a lywiai boddhad ag ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, yn bwysicach i ddarparwyr oedd y canfyddiad y gall gwella pum agwedd arall ar ansawdd yr addysgu esgor ar fanteision, o ran gwella boddhad dysgwyr, sef: gwneud defnydd da o amser gwersi; y cymorth y maent yn ei roi i chi; gwneud y pwnc yn ddiddorol/difyr; pennu targedau clir; a rhoi adborth prydlon a rheolaidd.

Dylid ystyried helpu darparwyr i geisio gwneud y gwelliannau hyn. Gellid gwneud hyn drwy lunio cyfres o ganllawiau, gan nodi a lledaenu enghreifftiau o arfer da gan ddarparwyr ledled Cymru, a chynnal gweithdai i staff darparwyr.

Bodddhad â Chyflogwr

Gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd yn gweithio yn ystod ei raglen nodi pa mor fodlon ydoedd ar y cymorth a gafwyd gan ei gyflogwr i'w helpu i lwyddo gyda'i hyfforddiant. Yn galonogol, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn fodlon (86%), gyda bron dwy ran o dair o ymatebwyr yn dweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn (63%). Dim ond 6 y cant o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anfodlon, ac o fewn y ffigur hwn, ychydig iawn a oedd yn anfodlon iawn neu'n hynod anfodlon (2%). Dywedodd 7 y cant arall o ymatebwyr nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon.

Siart 17 Bodddhad â'r cymorth a roddwyd gan y cyflogwr i lwyddo gyda'r hyfforddiant



Sylfaen: Pob ymatebydd a gyflogwyd gan gyflogwr yn ystod ei gwrs (heb ei phwysoli: 1,336)

Wrth edrych yn fanylach ar broffil ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a roddwyd gan eu cyflogwr, nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw. Fodd bynnag, mewn perthynas ag oedran, roedd yn amlwg bod ymatebwyr iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd (70% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed, 67% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed o gymharu â 56% o'r rhai 25 oed neu'n hŷn).

Yn gysylltiedig ag oedran, roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu hefyd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr na'r rhai a oedd yn gofalu am blant neu oedolion (66% o gymharu â 58% o'r rhai a oedd yn gofalu am blant a 51% o'r rhai a oedd yn gofalu am oedolion).

Er nad oedd unrhyw wahaniaethau amlwg o ran bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn yn ôl y math o raglen, lle roedd y sylfaen yn ddigon mawr i'w dadansoddi, gwelwyd rhai gwahaniaethau diddorol yn ôl y pwnc a astudiwyd. Roedd yr ymatebwyr a oedd ar raglenni adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr nag ymatebwyr yn gyffredinol (68% o gymharu â 63% yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr ar raglenni rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith, yn llai tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr (54% o gymharu â 63% o ymatebwyr yn gyffredinol). Unwaith eto, mae'r canfyddiad hwn yn gysylltiedig ag oedran gan fod rhaglenni adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant yn cael eu hastudio'n bennaf gan ymatebwyr iau ac roedd rhaglenni rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith yn cael eu hastudio gan ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn yn bennaf²⁴.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cael hyfforddiant a oedd yn ddefnyddiol iawn i'w swydd, yn eu barn hwy, hefyd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd na'r rhai a gredai fod eu hyfforddiant yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol iawn i'w swydd (70% o gymharu â 47% yn y drefn honno).

Nid yw'n syndod efallai i ymatebwyr a ddywedodd mai eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith a wnaeth benderfynu ar eu rhaglen hyfforddi neu eu darparwr hyfforddiant fod yn llai tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr o gymharu â'r ymatebwyr hynny a wnaeth y dewis hwn eu hunain ac a gafodd eu dewis cyntaf. Er enghraifft:

- roedd 52 y cant o ymatebwyr a ddywedodd mai eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith a oedd wedi dewis eu cwrs yn hynod fodlon/bodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr o gymharu â 65 y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cael eu dewis cyntaf o gwrs.
- roedd 58 y cant o ymatebwyr a ddywedodd mai eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith a oedd wedi dewis eu darparwr yn hynod fodlon/bodlon iawn ar y cymorth a

²⁴ Ar gyfer ffigurau, gweler yr adran 'Proffil dysgwyr' yn yr Atodiadau.

gafwyd gan eu cyflogwr o gymharu â 69 y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cael eu dewis cyntaf o ddarparwr.

- Roedd y rhai nad oeddent wedi cael eu dewis cyntaf o ddarparwr neu nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall hefyd yn llai tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr na'r rhai a gafodd eu dewis cyntaf (41% a 54% o gymharu â 69% yn y drefn honno).

Roedd boddhad â'r cymorth a gafwyd gan y cyflogwr hefyd yn gysylltiedig â mesurau eraill, sef:

- O blith yr ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu, roedd 70 y cant yn hynod fodlon/bodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr o gymharu â dim ond 45 y cant o'r ymatebwyr hynny a oedd yn ddidaro/anfodlon ar eu profiad dysgu.
- Roedd bron tri chwarter o'r ymatebwyr (73%) a ddywedodd nad oeddent wedi cael problemau yn hynod fodlon/bodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr. I'r gwrthwyneb, roedd tua hanner (53%) y rheini a oedd wedi cael problemau wedi rhoi'r radd hon i'w cyflogwr.
- Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael eu darparwr yn llai tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr: dywedodd 48 y cant o ymatebwyr a oedd wedi meddwl am adael eu rhaglen eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr o gymharu â 66 y cant o'r rhai nad oeddent wedi meddwl am adael.

Tabl 21 Proffil ymatebwyr a oedd yn hynod fodlon/bodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr gyda'u hyfforddiant

Ymatebwyr a gyflogwyd gan gyflogwr yn ystod eu cwrs (Dangosir y sylfaen heb ei phwysoli mewn cromfachau)	% a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn
Cyfanswm (1336)	63%
Rhyw	
Gwryw (717)	64%
Benyw (619)	62%
Oedran	
16-18 (326)	70%
19-24 (433)	67%
25+ (577)	56%
Ymrwymadau gofalu	
Plant (340)	58%
Oedolion (**65)	51%
Dim (949)	66%
Pwnc y cwrs	
Adeiladu/peirianeg a gweithgynhyrchu (463)	67%
Cludiant (**55)	80%
Rheoli, Busnes, Materion Gweinyddol a'r Gyfraith (204)	54%
A yw'r hyfforddiant yn ddefnyddiol i'w swydd bresennol	
Defnyddiol iawn (931)	70%
Eithaf defnyddiol / ddim yn ddefnyddiol (378)	47%
Dewis cyntaf o ddarparwr	
Ie (755)	69%
Na (**37)	41%
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall (**96)	54%
Cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis (445)	58%
Dewis cyntaf o gwrs	
Ie (1123)	65%
Na (**50)	62%
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall (**20)	35%
Cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis (140)	52%
Bodddhad â'r profiad dysgu cyffredinol	

Hynod fodlon/bodlon iawn (1005)	70%
Eithaf bodlon (249)	43%
Didaro/anfodlon (**80)	40%
Problemau ers dechrau'r cwrs	
Ie (600)	53%
Na (733)	72%
Wedi meddwl o ddifrif am adael	
Ie (164)	48%
Na (1131)	66%

Noder: ** Sylfaen fechan (<100). *** dim modd profi arwyddocad sylfaen fechan iawn (<30).


Rhesymau dros anfodlonrwydd

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr i'w helpu i lwyddo gyda'u hyfforddiant roi'r rhesymau dros hyn. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan 45 y cant o ymatebwyr oedd y ffaith na wnaeth eu cyflogwr roi unrhyw gymorth na chynghor iddynt ar eu prosiect.

Yn dilyn hyn, dywedodd tua un o bob chwech o ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar eu cyflogwr am fod pwysau gwaith yn golygu nad oedd amser i astudio (17%) ac am nad oedd eu cyflogwr yn dangos unrhyw ddiddordeb yn eu hyfforddiant (17%). Dywedodd tua un o bob deg o ymatebwyr fod angen iddynt gael mwy o gymorth gan eu cyflogwr (12%) a bod yn rhaid iddynt gymryd gwyliau am nad oedd eu cyflogwr yn caniatáu digon o amser iddynt gael hyfforddiant neu astudio (12%).

Y ffactorau eraill a grybwyllwyd gan fwy na 5 y cant o ymatebwyr oedd bod ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well gan eu cyflogwr eu gweld yn gweithio yn hytrach na mynd i'r coleg neu gael hyfforddiant (7%) a phroses gyfathrebu wael rhwng y cyflogwr, y coleg a nhw eu hunain (7%).

Siart 18 Rhesymau dros anfodlonrwydd



Sylfaen: Pob ymatebydd a oedd yn anfodlon ar ei gyflogwr (heb ei phwysoli: 83 (sylfaen fechan)). Ddim yn gwybod/heb ddweud heb ei ddangos. Roedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.

O ganlyniad i'r nifer fach o ymatebwyr a oedd yn anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr yn ystod eu hyfforddiant (83 o ymatebwyr - gweler Tabl 54 yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn) prin oedd y gwahaniaethau demograffig pwysig yn ymwneud â'r cwestiwn hwn. Roedd dau eithriad i hyn sef:

- Roedd ymatebwyr benywaidd tua phum gwaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o fod yn anfodlon ar eu cyflogwr am eu bod yn credu nad oedd ganddynt ddiddordeb yn eu hyfforddiant (27% o gymharu â 5%).
- Roedd y rhai a oedd yn gyfrifol am ofalu am blant tua theirgwaith yn fwy tebygol na'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu o ddweud nad oeddent yn fodlon ar eu cyflogwr am fod pwysau gwaith yn golygu nad oedd amser i astudio (30% o gymharu â 9%).

Mesur boddhad â'r cyflogwr

Gofynnwyd i bob ymatebydd roi gradd rhwng 1 a 10 ar gyfer sawl agwedd ar ei gyflogwr, lle roedd 1 yn wael a 10 yn ardderchog. Cafodd pob agwedd ar y cyflogwr sgôr gymedr o 8 neu fwy²⁵, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn graddio elfennau cyflogwr tuag at frig y raddfa rhwng 1 a 10 (Tabl 22).

Yr elfennau hynny a gafodd y sgôr uchaf lle rhoddodd 62 y cant neu fwy o ymatebwyr 9 neu 10 allan o 10 i'w cyflogwr oedd:-

- sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi (65%)
- eich annog i gael y cymhwyster (65%)
- sicrhau nad oes pwysau i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr (64%)
- caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen (62%).

Yr agweddau hynny a oedd ychydig yn llai tebygol o gael 9 neu 10 oedd:

- eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen (58%)
- deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer (56%).

Tabl 22 Mesur boddhad â'r cyflogwr

Sylfaen, pob ymatebydd a oedd yn gweithio yn ystod ei raglen (1336)	% a roddodd 9-10 allan o 10 (sgôr uchel)	Sgôr gymedr
Sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi	65	8.64
Sicrhau nad oes pwysau i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr	64	8.6
Eich annog i gael y cymhwyster	65	8.51
Caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen	62	8.28
Eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen	58	8.19
Deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer	56	8.31

Datgelodd y gwaith o ddadansoddi is-grwpiau yn y data mai prin oedd y gwahaniaethau nodedig yn ôl rhyw. Yr unig eithriad i hyn oedd y ffaith bod dynion yn fwy tebygol na

²⁵ Ystyr sgôr gymedr yw'r sgôr gyfartalog allan o 10.

merched o roi 9 neu 10 i'w cyflogwr am 'caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen'.

Wrth edrych ar y canfyddiadau yn ôl oedran, yn unol â boddhad cyffredinol â'r cyflogwr, roedd ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol nag ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn o roi 9 neu 10 allan o 10 am y chwe agwedd ar eu cyflogwr. Dangosir y ffigurau yn Nhabl 23:

Tabl 23 Mesur boddhad â chyflogwr yn ôl rhyw ac oedran

	Cyfanswm	Rhyw		Oedran		
		Gwryw	Benyw	16-18	19-24	25+
Sylfaen: Pob ymatebydd a gyflogwyd yn ystod ei gwrs						
Heb ei phwysoli	1336	717	619	326	433	577
% a roddodd 9-10 allan o 10 (sgôr uchel)	%	%	%	%	%	%
Sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi	65	63	67	72	66	60
Sicrhau nad oes pwysau i golli sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag asesywyr	64	65	63	71	66	58
Eich annog i gael y cymhwyster [^]	65	66	64	76	69	56
Caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen	62	65	58	73	64	54
Eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen	58	60	56	68	60	51
Deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer	56	56	57	68	57	49

Nodiadau: [^] Dim ond ymatebwyr a gyflogwyd ac a oedd yn astudio ar gyfer cymhwyster yn ystod eu cwrs a holwyd ynghylch p'un a oedd eu cyflogwr yn eu hannog i gael y cymhwyster (maint sylfaen y cwestiwn hwn yw cyfanswm o 1318, ymatebwyr gwrywaidd 706, ymatebwyr benywaidd 612, 16-18 - 317, 19-24 - 428, 25+ - 573).

Yn gysylltiedig ag oedran, roedd ymatebwyr heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o roi 9 neu 10 ar gyfer pump o'r chwe agwedd na'r ymatebwyr hynny â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion. Yr unig eithriad i hyn oedd, 'eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen' lle nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y ddau grŵp Tabl 55 - gweler atodiadau).

Dangosodd dadansoddiad yn ôl y math o raglen fod dysgwyr ar raglenni Adeiladu Sgiliau yn llawer mwy tebygol na'r cyfartaledd o roi 9 neu 10 allan o 10 i'w cyflogwyr am y canlynol:

- deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer
- eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen
- sicrhau nad oes pwysau i golli sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr

I'r gwrthwyneb, roedd dysgwyr a oedd yn dilyn Prentisiaeth Fodern a rhaglenni Eraill yn llai tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 na dysgwyr Prentisiaeth Fodern Sylfaenol ac Adeiladu Sgiliau ar gyfer:

- deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer
- sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi
- caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen

Yn ddiddorol, roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn debygol o barhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf yn fwy tebygol o roi 9 neu 10 i'w cyflogwr na'r rhai nad oeddent yn credu bod hynny'n debygol am y canlynol: caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen (64% o gymharu â 55%) a sicrhau nad oes pwysau i golli sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr (66% o gymharu â 55%). Mae hyn yn awgrymu bod y rhain yn ffyrdd pwysig y gall cyflogwyr helpu dysgwyr gyda'u hyfforddiant.

Perthnasedd hyfforddiant i'ch swydd bresennol

Gofynnwyd i bob ymatebydd a gyflogwyd nodi a oedd ei hyfforddiant yn gysylltiedig â'i swydd bresennol mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol ai peidio. Dywedodd tua naw o bob deg o ymatebwyr (91%) fod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd a dywedodd 7 y cant ei fod yn anuniongyrchol gysylltiedig. Dim ond 2 y cant a ddywedodd nad oedd yn gysylltiedig o gwbl.

Wrth edrych ar wahaniaethau demograffig yn y data, roedd ymatebwyr gwrywaidd 35 oed neu'n hŷn yn llai tebygol o feddwl bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd nag ymatebwyr yn gyffredinol, (82% o ddynion 35 oed neu'n hŷn o gymharu â 91% o ymatebwyr yn gyffredinol) ac yn fwy tebygol o feddwl bod eu hyfforddiant yn anuniongyrchol gysylltiedig (17% o gymharu â 7% yn gyffredinol).

Tabl 24 A oedd hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â swydd bresennol dysgwyr yn ôl oedran o fewn rhyw'r unigolyn

	Cyfanswm	Gwryw yn ôl oedran		Benyw yn ôl oedran	
		16-34	35+	16-34	35+
Pob ymatebydd a oedd yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ystod ei gwrs					
Sylfaen: heb ei phwysoli	1369	741	628	1004	365
	%	%	%	%	%
Yn uniongyrchol gysylltiedig â'ch swydd	91	92	82	93	90
Yn anuniongyrchol gysylltiedig â'ch swydd	7	6	17	6	9
Ddim yn gysylltiedig â'ch swydd	2	2	1	1	1
Ddim yn gwybod	*	0	0	*	1

* Noder: * yn dynodi <0.5%.

Dywedodd o leiaf naw o bob deg o ddysgwyr a oedd yn gwneud Prentisiaeth Fodern, Prentisiaeth Fodern Sylfaenol a Rhaglenni eraill fod eu dysgu yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd. I'r gwrthwyneb, dim ond 80 y cant o ddysgwyr a oedd yn dilyn rhaglenni Adeiladu Sgiliau a deimlai hyn (roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol na'r nifer ar gyfartaledd o ddweud nad oedd eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd o gwbl: 7% o gymharu â 2% ar gyfartaledd).

Roedd rhai gwahaniaethau diddorol yn ôl y pwnc dan hyfforddiant: roedd yr ymatebwyr a oedd yn astudio iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o ddweud bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd (94% o gymharu â 91%). I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a oedd yn astudio cyrsiau rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith yn llai tebygol o deimlo bod eu hyfforddiant yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd ac yn fwy tebygol o feddwl ei fod yn anuniongyrchol gysylltiedig (dywedodd 14% ei fod yn anuniongyrchol gysylltiedig â'u swydd, o gymharu â 7% o ymatebwyr yn gyffredinol).

Yn ôl y disgwyl, roedd ymatebwyr a oedd yn astudio yn eu gweithle yn fwy tebygol o ddweud bod eu cwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd na'r rhai a oedd yn defnyddio darparwyr hyfforddiant preifat (93% o gymharu ag 87% yn y drefn honno).

Defnyddioldeb hyfforddiant i'ch swydd bresennol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a ddywedodd fod eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nodi pa mor ddefnyddiol oedd yr

hyfforddiant i'w swydd. Yn galonogol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn o'r farn ei fod yn ddefnyddiol (96%), gyda 71 y cant yn dweud ei fod yn ddefnyddiol iawn a chwarter yn dweud ei fod yn eithaf defnyddiol (25%). Dim ond 4 y cant a ddywedodd nad oedd yn ddefnyddiol i'w swydd (dywedodd 3% nad oedd yn ddefnyddiol iawn a dywedodd 1% nad oedd yn ddefnyddiol o gwbl).

Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn o ddweud bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd (73% o'r rhai rhwng 16 a 34 oed o gymharu â 66% o'r rhai 35 oed neu'n hŷn). Fodd bynnag, o ran rhyw, nid oedd unrhyw wahaniaethau nodedig.

Tabl 25 Defnyddioldeb hyfforddiant i waith dysgwyr yn ôl rhyw ac oedran

	Cyfanswm	Rhyw			Oedran	
		Gwryw	Benyw		O dan 34 oed	35+
Pob ymatebydd y mae ei hyfforddiant yn gysylltiedig â'i swydd						
Sylfaen: heb ei phwysoli	1369	741	628	1004	365	
	%	%	%	%	%	
Defnyddiol iawn	71	71	71	73	66	
Eithaf defnyddiol	25	25	25	24	29	
Ddim yn ddefnyddiol iawn	3	3	3	2	4	
Ddim yn ddefnyddiol o gwbl	1	1	1	1	1	
Ddim yn gwybod	*	*	*	*	*	

Noder: * yn dynodi < 0.5%.

Roedd ymatebwyr ar gyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, ynghyd â chyrsgiau adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant, yn fwy tebygol o ddweud bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol nag ymatebwyr yn gyffredinol (78% a 76% o gymharu â 71% yn y drefn honno). I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr a oedd yn dilyn cyrsiau manwerthu, dosbarthu a gwasanaethau cwsmeraid, ynghyd â rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith, yn llai tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o deimlo bod yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol iawn i'w swydd (64%, 56% o gymharu â 71% yn y drefn honno).

Yn ddiddorol, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn astudio mewn coleg AB yn fwy tebygol o ddweud bod eu cwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd na'r rhai a oedd yn astudio yn eu gweithle (77% o gymharu â 71% yn y drefn honno).

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd yr ymatebwyr hynny ar gyrsiau hyfforddi a oedd yn ddefnyddiol iawn i'w swydd yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y

cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr a'u profiad dysgu cyffredinol nag ymatebwyr ar gyrsiau a oedd yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl.

Casgliadau a goblygiadau polisi

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r arolwg sy'n ymwneud â boddhad â'u cyflogwr fel a ganlyn:

- Roedd mwyafrif mawr o ymatebwyr a oedd yn gweithio yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr.
- Roedd ymatebwyr iau yn fwy tebygol o fod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn.
- Roedd yr ymatebwyr a oedd ar raglenni adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr nag ymatebwyr yn gyffredinol.
- Cofnodwyd lefelau uchel o foddhad hefyd gan y rhai a oedd yn dilyn rhaglen hyfforddiant a oedd yn berthnasol iawn i'w gwaith.
- Roedd yr ymatebwyr nad oeddent wedi cymryd rhan yn y penderfyniad am y math o hyfforddiant i'w wneud, nac ar eu dewis cyntaf o gwrs, yn llai tebygol o fod yn fodlon iawn.
- Rhoddodd y rhan fwyaf o ymatebwyr raddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar fewnbwn cyflogwyr.
- Roedd y rhai a oedd yn bwriadu parhau i ddysgu yn y dyfodol yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr yn gadael iddynt astudio yn ystod oriau gwaith ac yn sicrhau nad oedd pwysau i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr.
- Dywedodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr a oedd yn gweithio fod eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol.
- Roedd y mwyafrif llethol o'r farn bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol i'w swydd.
- Roedd y rhai a oedd yn astudio mewn coleg AB yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle o haeru bod eu cwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr a oedd yn gweithio yn cael cymorth ac anogaeth gan eu cyflogwr. Byddai hyn ar ffurf ymarferol iawn yn aml, megis caniatáu iddynt gael amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn treulio digon o amser yn astudio i fodloni gofynion y cwrs. Roedd y ffaith bod y cyflogwr yn dangos diddordeb yn eu dysgu yn cael ei werthfawrogi

hefyd, ac roedd y gydnabyddiaeth hon gan eu cyflogwr o'r hyn roeddent yn ceisio ei gyflawni ar eu cwrs yn amlwg yn sbardun i gwblhau'r cwrs a chael cymhwyster.

Fodd bynnag, yn y lleiafrif o achosion lle nad oedd y cymorth a'r diddordeb hwn i'w gweld gan y cyflogwr, mynegwyd mwy o anfodlonrwydd gan ymatebwyr. Roedd rhai hyd yn oed yn credu nad oedd eu cyflogwr am iddynt gael hyfforddiant mewn gwirionedd am ei fod yn amharu ar eu gwaith. Mae'r fath agwedd ymhlith cyflogwyr yn dangos nad oes hyder ganddynt yng ngwerth hyfforddiant, ac mae angen gwrthsefyll hyn ar bob cyfle. Mae'r gwrthwynebiad hwn i hyfforddi a datblygu cyflogeion ymhlith sawl cyflogwr wedi'i nodi ers cryn amser fel rhwystr mawr i wella sgiliau'r gweithlu a natur gystadleuol llawer o sefydliadau. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos y dylid parhau i ddarbwylllo cyflogwyr o fanteision ymrwymo i hyfforddi a datblygu eu cyflogeion a chredu yn hynny.

Mae'r ffaith bod eu cyflogeion yn gwneud rhyw fath o hyfforddiant yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r rôl gadarnhaol y gall cyflogwyr ei chwarae yn y gwaith o wella sgiliau gweithwyr. Gall hyn fod yn gydnaws â'r neges 'mae hyfforddiant yn talu ffordd', o ran y manteision hirdymor i gyflogwyr. Gall rôl cynghorwyr busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd, ymhlith pethau eraill, yn gallu cynnig y gwasanaeth Adolygu Sgiliau am Ddim i gyflogwyr, fod yn hanfodol yn hyn o beth. Hefyd, gall darparwyr dysgu ynghyd â thiwtoriaid ac aseswyr unigol achub ar gyfleoedd i ddarbwylllo cyflogwyr o fanteision buddsoddi yn y broses o hyfforddi'r gweithlu. Ar yr un pryd, gellir annog cyflogwyr i gydnabod y baich ychwanegol ar y cyflogeion hynny sy'n ceisio gwella eu sgiliau, er eu budd hwy a'r sefydliad, tra'n ceisio parhau â'u llwyth gwaith arferol.

Roedd effaith gyffredinol cael cyflogeion i gymryd rhan mewn DSW a chael digon o gymorth gan eu cyflogwr ynghyd â'i gael i ymddiddori yn hyn yn amlwg o'r canfyddiad. Roedd y rhai a oedd am barhau i ddysgu yn y dyfodol yn fwy tebygol o gydnabod bod eu cyflogwr yn caniatáu amser iddynt wneud eu gwaith cwrs yn ystod oriau gwaith ac yn sicrhau nad oedd pwysau gormodol arnynt i golli sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd â'u haseswyr.

Problemau a Wynebwyd

Mae'r adran hon yn trafod:

- pa broblemau, os o gwbl, a wynebwyd gan ymatebwyr ers dechrau eu rhaglen hyfforddi;
- a oedd ymatebwyr erioed wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen hyfforddi.

Problemau a wynebwyd

Darllenwyd rhestr o broblemau i bob un o'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt nodi a oeddent wedi cael unrhyw un ohonynt ers dechrau eu rhaglen hyfforddi. Rhoddwyd y cyfle iddynt hefyd sôn am unrhyw broblemau eraill a gafwyd.

Yn galonogol, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau eu cwrs (54%). Ar gyfer yr ymatebwyr a oedd wedi cael problemau, y ddwy fwyaf cyffredin oedd:

- cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant (a nodwyd gan 20% o ymatebwyr)
- cydbwysu ymrwymadau dysgu ag ymrwymadau eraill yn y gwaith (16%).

Y tair problem arall a nodwyd gan tua un o bob deg o ymatebwyr oedd:

- cydbwysu ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill gartref (13%)
- ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen (11%)
- delio â phwysau arian (11%).

Tabl 26 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1507)	
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20%
Cydbwysu ymrwymiadau hyfforddiant ag ymrwymiadau eraill yn y gwaith	16%
Cydbwysu ymrwymiadau hyfforddiant ag ymrwymiadau eraill gartref	13%
Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen	11%
Delio â phwysau arian	11%
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7%
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7%
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7%
Dim problemau	54%

Noder: roedd modd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Dangosir ymatebion sy'n fwy na 5% yn y tabl.

Yn gyntaf, o ran rhyw, roedd ymatebwyr gwrywaidd ychydig yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd o fod wedi cael problemau gyda:

- sgiliau darllen neu ysgrifennu (8% o gymharu â 5%).

I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud eu bod wedi cael problemau yn cydbwysu ymrwymiadau hyfforddi ag ymrwymiadau eraill yn y gwaith a gartref:

- dywedodd 19 y cant o ymatebwyr benywaidd eu bod wedi cael problemau oherwydd ymrwymiadau yn y gwaith o gymharu â 13 y cant o ymatebwyr gwrywaidd
- a dywedodd 18 y cant o ymatebwyr benywaidd eu bod wedi cael problemau oherwydd ymrwymiadau gartref o gymharu â 10 y cant o ddynion.

Fel y nodwyd mewn penodau blaenorol, roedd ymatebwyr benywaidd fwy na dwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o fod â chyfrifoldebau rhiant am blant rhwng 0 a 15 oed gartref (36% o ferched o gymharu â 15% o ddynion). Felly, nid yw'n syndod bod ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi bod ymrwymiadau gartref yn peri problem²⁶. O ran ymrwymiadau yn y gwaith, fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o fod yn gweithio yn ystod eu cwrs (90% o ferched a 92% o ddynion yn gweithio), felly nid yw'n glir pam bod ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau gyda'r ymrwymiadau hyn.

²⁶ Yn sampl Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru mae dysgwyr benywaidd yn hŷn ar y cyfan ac mae dysgwyr gwrywaidd yn iau ar y cyfan.

Tabl 27 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl rhyw

	Cyfanswm	Rhyw	
		Gwryw	Benyw
Sylfaen: Pob ymatebydd			
Heb ei phwysoli	1507	806	701
	%	%	%
Dim problemau	54	57	51
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20	18	21
Cydbwysu ymrwymiadau hyfforddiant ag ymrwymiadau eraill yn y gwaith	16	13	19
Cydbwysu ymrwymiadau hyfforddiant ag ymrwymiadau eraill gartref	13	10	18
Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen	11	12	11
Delio â phwysau arian	11	12	9
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7	8	7
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7	8	5
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7	8	5
Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu	5	5	5

Roedd ymatebwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o fod â chyfrifoldebau rhiant ac o fod yn gweithio yn ystod eu cwrs²⁷, ac o ganlyniad roeddent yn fwy tebygol o fod wedi cael y problemau canlynol:

- roedd rhwng 20 a 31 y cant o ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn wedi cael problemau'n cydbwysu hyfforddiant ag ymrwymiadau gwaith eraill o gymharu â dim ond 8 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed ac 11 y cant o ymatebwyr rhwng 19 a 24 oed. I ryw raddau, gallai hyn ddeillio o'r ffaith bod ymatebwyr iau yn cael eu hystyried yn 'hyfforddeion' gan eu cyflogwr ac, o ganlyniad, ei bod yn haws rhoi hyfforddiant iddynt.
- Roedd 21 y cant o ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed, 26 y cant o'r rhai rhwng 35 a 44 oed a 18 y cant o'r rhai 45 oed neu'n hŷn wedi cael problemau gydag ymrwymiadau eraill gartref o gymharu ag 8 y cant o ymatebwyr rhwng 16 a 18 oed a 7 y cant o'r rhai rhwng 19 a 24 oed.

Efallai am fod ymrwymiadau fel rhiant ac ymrwymiadau yn y gwaith ar eu hanterth ymhlith ymatebwyr rhwng 35 a 44 oed, roeddent yn fwy tebygol nag ymatebwyr yn gyffredinol o gael problemau i gynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant (30% o gymharu ag 20% o ymatebwyr yn gyffredinol).

²⁷ Dim ond 2% o'r rhai rhwng 16 a 18 oed ac 8% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed oedd â chyfrifoldebau rhiant am blant rhwng 0 a 15 oed gartref o gymharu â 56% o'r rhai rhwng 25 a 34 oed, 68% o'r rhai rhwng 35 a 44 oed a 31% o'r rhai 45 oed neu'n hŷn. Roedd 78 y cant o'r rhai rhwng 16 a 18 oed yn gweithio yn ystod eu cwrs o gymharu â 97% o'r rhai rhwng 19 a 24 oed, 95% o'r rhai rhwng 25 a 34 oed, 96% o'r rhai rhwng 35-54 oed a 93% o'r rhai 45 oed neu'n hŷn.

Tabl 28 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl oedran

	Oedran					
Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	16-18	19-24	25-34	35-44	45+
Heb ei phwysoli	1507	423	458	241	199	186
	%	%	%	%	%	%
Dim problemau	54	55	62	54	38	49
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20	20	13	20	30	24
Cydbwysu ymrwmiadau hyfforddiant ag ymrwmiadau eraill yn y gwaith	16	8	11	20	31	23
Cydbwysu ymrwmiadau hyfforddiant ag ymrwmiadau eraill gartref	13	8	7	21	26	18
Ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen	11	11	12	10	13	10
Delio â phwysau arian	11	13	10	10	8	8
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7	11	6	8	6	5
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7	12	8	3	4	3
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7	9	6	5	5	6
Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu	5	7	4	4	4	4

Yn gysylltiedig â chanfyddiadau'n ymwneud â rhyw ac oedran, roedd ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau'n cydbwysu ymrwmiadau dysgu ag ymrwmiadau eraill gartref (25% o'r rhai â chyfrifoldebau gofalu o gymharu â 9% o'r rhai heb gyfrifoldebau) ac yn y gwaith (26% o gymharu â 12% yn y drefn honno). Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael problemau i gynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant (25% o gymharu â 17% yn y drefn honno - Tabl 57 yn yr atodiadau).

Dangosodd dadansoddiad yn ôl y math o raglen fod dysgwyr Adeiladu Sgiliau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi cael problemau ers dechrau eu hyfforddiant (dywedodd 45% nad oeddent wedi cael problemau o gymharu â 54% ar gyfartaledd). Yn nodedig, roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o sôn am y problemau canlynol:

- Delio â phwysau arian (17% o gymharu ag 11% ar gyfartaledd)
- Sgiliau mathemateg neu rifedd (16% o gymharu â 7% ar gyfartaledd)
- Problemau o unrhyw fath gyda hyfforddeion eraill (5% o gymharu â 2% ar gyfartaledd)

Roedd dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Fodern ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi cael problemau'n ymwneud â chydbwysu ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau gartref (17% o gymharu â 13% ar gyfartaledd).

Roedd cysylltiad clir rhwng boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu a'r tebygolrwydd bod ymatebwyr yn cael problemau. Roedd y rhai a oedd yn anfodlon ar eu profiad dysgu yn fwy tebygol o nodi bron pob problem a restrwyd na'r ymatebwyr hynny a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn²⁸, a nododd 81 y cant o leiaf un broblem. Cafwyd y gwahaniaethau mwyaf mewn perthynas â chymhelliant, cydbwysu hyfforddiant ag ymrwymadau yn y gwaith neu gartref, ymdopi â safon y gwaith sydd ei hangen a'r ffaith nad oedd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu (a grynhoir yn Siart 19 isod).

Gwelwyd patrwm tebyg hefyd wrth edrych ar foddhad â'r cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr (Siart 19).

²⁸ Yr eithriadau i hyn oedd sgiliau darllen neu ysgrifennu a theithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi.

Siart 19 Siart Problemau a wynebwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl boddhad â'r profiad dysgu cyffredinol a'r cymorth a gafwyd gan y cyflogwr yn ystod yr hyfforddiant

Yn ddidaro/anfodlon ar eu profiad dysgu cyffredinol (sylfaen heb ei phwysoli: 91)

Nododd 81% o leiaf un broblem

Yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn hynod fodlon, bodlon iawn o fod wedi cael problemau o ran:

- Cymhelliant
- Cydbwyso ymrwymiadau dysgu ag ymrwymiadau yn y gwaith
- Cydbwyso ymrwymiadau dysgu ag ymrwymiadau gartref
- Cynnal safon y gwaith sydd ei hangen
- Nid oedd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu

Yn ddidaro/anfodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr (sylfaen heb ei phwysoli: 177)

Nododd 66% o leiaf un broblem

Yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn hynod fodlon/bodlon iawn o fod wedi cael problemau o ran:

- Cymhelliant
- Cydbwyso ymrwymiadau dysgu ag ymrwymiadau yn y gwaith
- Cydbwyso ymrwymiadau dysgu ag ymrwymiadau gartref
- Cynnal safon y gwaith sydd ei hangen
- Delio â phwysau arian

Meddwl am adael y rhaglen hyfforddi

Gofynnwyd i bob ymatebydd a oedd yn dal i astudio adeg y cyfweiliad neu a oedd wedi cwblhau eu rhaglen yn llawn i nodi a oeddent byth wedi meddwl o ddifrif am adael eu hyfforddiant.

Er nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (86%) wedi meddwl am adael eu rhaglen, dywedodd 14 y cant eu bod wedi meddwl o ddifrif am wneud hyn.

Nid yw'n syndod i'r rhai a oedd wedi cael problemau ar eu cwrs hyfforddi fod yn fwy tebygol o feddwl am adael eu cwrs na'r rhai nad oeddent wedi cael problemau (22% o gymharu â 7%). Roedd dysgwyr a oedd yn dilyn rhaglenni Adeiladu Sgiliau hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi meddwl o ddifrif am adael eu hyfforddiant (23% o gymharu â 14% yn y drefn honno).

Roedd cysylltiad clir hefyd rhwng lefelau boddhad â'r profiad dysgu cyffredinol a'r tebygolrwydd bod ymatebwyr wedi meddwl am adael eu rhaglen hyfforddi: dim ond 9 y cant o'r rhai a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu hyfforddiant a oedd wedi meddwl am adael eu rhaglen o gymharu â 53% o ymatebwyr a oedd yn ddidaro neu'n anfodlon. Yn yr un modd, roedd y rhai a oedd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr i lwyddo gyda'u hyfforddiant yn llai tebygol o fod wedi meddwl am adael eu rhaglen na'r rhai a oedd yn ddidaro/anfodlon (10% o gymharu â 27% yn y drefn honno).

O ran demograffeg bersonol, ymatebwyr benywaidd ifanc ac ymatebwyr gwrywaidd hŷn oedd yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am adael eu rhaglen nag ymatebwyr yn gyffredinol (20% o ymatebwyr benywaidd rhwng 16 a 18 oed a 22% o ymatebwyr gwrywaidd 35 oed neu'n hŷn o gymharu â 14% o ymatebwyr yn gyffredinol).

Tabl 29 A oedd dysgwyr wedi meddwl am adael eu cwrs yn ôl oedran o fewn rhyw'r unigolyn

	Cyfanswm	Gwryw yn ôl oedran				Benyw yn ôl oedran			
Sylfaen Pob Ymatebydd		16-18	19-24	25-34	35+	16-18	19-24	25-34	35+
Heb ei phwysoli	1458	275	306	**93	101	122	140	146	275
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Ie	14	15	13	9	22	20	11	11	11
Na	86	85	87	91	78	80	88	89	89
Ddim yn gwybod	*	0	*	0	0	0	1	0	0

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (<100).

Er bod cydbwysu hyfforddiant ag ymrwymïadau eraill gartref ac yn y gwaith ymhlith y problemau mwyaf cyffredin a wynebwyd gan ymatebwyr, nid oedd yr ymatebwyr hynny â'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn fwy tebygol o fod wedi meddwl o ddifrif am adael eu hyfforddiant. Er enghraifft:

- roedd 15 y cant o ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion wedi meddwl am adael eu rhaglen hyfforddi, a oedd yn debyg i'r 13 y cant o'r rhai heb unrhyw gyfrifoldebau gofalu a oedd hefyd wedi ystyried gwneud hyn, gan ddangos ymrwymïad mawr gan y grŵp cyntaf.
- ac roedd y rhai a oedd yn gyflogedig/hunangyflogedig yn llai tebygol o fod wedi ystyried gadael eu cwrs na'r rhai nad oeddent yn gyflogedig (13% o gymharu â 23% yn y drefn honno).

Tabl 30 A oedd dysgwyr wedi meddwl am adael eu cwrs yn ôl cyfrifoldebau gofalu a statws cyflogaeth yn ystod y cwrs

Sylfaen Pob Ymatebydd	Cyfanswm	Cyfrifoldebau gofalu		Statws cyflogaeth yn ystod y cwrs	
		Plant ac oedolion	Dim	Cyflogedig/hunangyflogedig	Ddim yn gweithio
Heb ei phwysoli	1458	419	1039	1330	128
	%	%	%	%	%
Ie	14	15	13	13	23
Na	86	85	87	87	77
Ddim yn gwybod	*	0	*	*	0

Noder: * yn dynodi < 0.5%

O ran hyd y cwrs, roedd tua dau o bob deg o ymatebwyr ar gyrsiau byr, yn para hyd at chwe mis wedi ystyried gadael eu rhaglen (22%). I'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr ar gyrsiau a oedd yn para mwy na chwe mis yn ymddangos yn fwy ymrwymedig i'w dysgu, gan mai dim ond 13 y cant a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen hyfforddi. Mae'r canfyddiad hwn yn gysylltiedig ag oedran fwy na thebyg, gan fod ymatebwyr ar gyrsiau byrrach yn fwy tebygol o fod rhwng 16 a 18 oed, tra bod y rhai ar gyrsiau hwy yn fwy tebygol o fod yn 19 oed neu'n hŷn.²⁹

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd ar gyrsiau a oedd yn ddefnyddiol iawn i'w swyddi hefyd yn fwy ymrwymedig i'w hyfforddiant yn ôl pob golwg: dim ond 9 y cant a oedd wedi meddwl am adael, o gymharu â 22 y cant o'r rhai yr oedd eu hyfforddiant yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl i'w swydd.

²⁹ O blith y dysgwyr ar gyrsiau a oedd yn para hyd at chwe mis, roedd 57% rhwng 16 a 18 oed ac roedd 43% yn 19 oed neu'n hŷn. I'r gwrthwyneb, o blith y rhai ar gyrsiau hwy roedd 26% rhwng 16 a 18 oed ac roedd 74% yn 19 oed neu'n hŷn.

Yn ôl y disgwyl efallai, roedd ymatebwyr nad oeddent wedi cael eu dewis cyntaf o raglen yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am adael eu rhaglen hyfforddi. Roedd tua thraean o'r rhai nad oeddent yn astudio eu dewis cyntaf o bwnc/cymhwyster wedi meddwl am adael eu rhaglen (35%) o gymharu â thua un o bob deg o ymatebwyr a oedd yn astudio eu dewis cyntaf o hyfforddiant (12%).

Tabl 31 A oedd dysgwyr wedi meddwl am adael eu cwrs yn ôl hyd yr hyfforddiant, dewis cyntaf o ddarparwr a hyfforddiant

Sylfaen Pob Ymatebydd	Cyfanswm	Hyd hyfforddiant		Dewis cyntaf o hyfforddiant	
		Hyd at chwe mis	Mwy na chwe mis	le (i gyd / rhai)	Na
Heb ei phwysoli	1458	93	1275	1232	60
	%	%	%	%	%
le	14	22	13	12	35
Na	86	78	87	88	65
Ddim yn gwybod	*	0	*	*	0

Noder: * <0.5%. ** yn dynodi sylfaen fach (<100).

Casgliadau a goblygiadau polisi

Gellir crynhoi prif ganfyddiadau'r arolwg sy'n ymwneud â phroblemau a wynebwyd fel a ganlyn:

- Dywedodd ychydig dros hanner y sampl nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau ers dechrau eu cwrs.
- 'Cynnal cymhelliant i barhau i ddysgu' a 'cydbwysu ymrwymïadau hyfforddiant ag ymrwymïadau eraill yn y gwaith' oedd y problemau fwyaf cyffredin.
- Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi problemau'n cydbwysu eu hymrwymïadau hyfforddiant ag ymrwymïadau yn y gwaith neu gartref, fel ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu.
- Roedd y rhai rhwng 35 a 44 oed yn tueddu i sôn am anawsterau yn cadw cymhelliant i raddau mwy na'r rhai o grwpiau oedran eraill.
- Roedd ymatebwyr a oedd wedi cael problemau ers dechrau eu cwrs yn llai tebygol o fod yn fodlon.
- Roedd 7 y cant o'r sampl wedi meddwl o ddifrif am adael y cwrs. Roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar y profiad dysgu cyffredinol.

- Roedd ymatebwyr benywaidd ifanc ac ymatebwyr gwrywaidd hŷn yn fwy tebygol o fod wedi meddwl am adael eu rhaglen nag ymatebwyr yn gyffredinol.
- Roedd y rhai ar gyrsiau a oedd yn para hyd at chwe mis yn fwy tebygol o fod wedi ystyried gadael na'r rhai ar gyrsiau hwy.
- Roedd ymatebwyr nad oeddent ar eu dewis cyntaf o raglen yn tueddu i fod yn fwy tebygol o feddwl am adael y cwrs.

Roedd bron hanner y sampl wedi cael problemau ers dechrau eu cwrs. Gan fod y canfyddiadau wedi nodi perthynas rhwng cael problemau a'r tebygolrwydd o fethu â chwblhau'r cwrs, mae'n amlwg bod cymhelliant i lunwyr polisi a'r rhai sy'n gyfrifol am addysgu i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'u lleddfu, lle bynnag y bo'n bosibl.

Un prif faes a oedd yn peri problemau oedd anawsterau ymatebwyr i gydbwyso gofynion eu cwrs ag ymrwymadau yn y gwaith a/neu gartref. O ran ymrwymadau yn y gwaith sy'n cystadlu â'r hyfforddiant, fel yr awgrymwyd yn y bennod flaenorol, gellir gwneud cryn dipyn i sicrhau mwy o gymorth gan gyflogwyr i alluogi eu cyflogeion i gael hyfforddiant. Hefyd, mae angen i'r rhai sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyn mynediad i ddysgwyr fod yn ddigon hyddysg ynghylch gofynion a galwadau cwrs penodol er mwyn tynnu sylw'r dysgwr at yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Fel prif ddarparwyr cyngor cyn mynediad i ddysgwyr seiliedig ar waith, mae angen i gyflogwyr a staff darparwyr dysgu allu gwneud hyn. Mae angen i gyflogwyr nodi'r hyn maent yn ei ddisgwyl yn glir, o ran parhau i gyflawni eu rolau presennol yn y gwaith, tra bod angen i ddarparwyr rybuddio ymgeiswyr am ofynion y cwrs. Dylai gwybodaeth o'r fath hefyd gael ei chynnwys yn llynyddiaeth y cwrs. Hefyd, dylid dosbarthu canllawiau ac awgrymiadau ynghylch sut i ymdopi â'r galwadau croes hyn i ddysgwyr fel mater o drefn.

Mae'r ffaith bod ymatebwyr benywaidd yn ei chael yn anos cydbwyso ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau yn y gwaith a/neu gartref yn codi'r cwestiwn a gaiff gweithwyr benywaidd eu ystyried yn yr un ffordd â gweithwyr gwrywaidd, gyda rhagolygon tebyg o ran hirhoedledd gwasanaeth a dyheadau gyrfao. Os yw cyflogwyr yn fwy amharod i roi cymorth ymarferol i gyflogeion benywaidd sy'n dilyn cyrsiau, mae angen tynnu eu sylw at eu cyfrifoldebau i'w holl gyflogeion, waeth beth fo'u rhyw.

Un agwedd arbennig o ddiddorol ar y canfyddiadau oedd nad oedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu, er eu bod yn fwy tebygol na'r sampl gyfan o fod wedi cael problemau yn ystod eu cwrs, yn fwy tebygol o fod wedi meddwl o ddifrif am adael eu cwrs. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod ymrwymiad mawr i ddysgu ymhlith y grŵp hwn - un y dylid ei annog a'i gefnogi lle bynnag y bo'n bosibl. Dylai cyflogwyr a darparwyr dysgu ystyried yr anawsterau a wynebier gan y rhai â chyfrifoldebau gofalu, er enghraifft drwy wneud amserlen y cwrs a'r modd y'i darperir yn fwy hyblyg, ynghyd â mynd i'r afael â'r anawsterau hynny. Mae'r ymrwymiad a ddangoswyd i ddyfalbarhau â'u cwrs yn ogystal â chyflawni eu cyfrifoldebau gofalu yn awgrymu bod awydd i ddysgu, a fydd, os caiff ei gefnogi a'i feithrin, yn esgor ar fwy o ddysgu a datblygu sgiliau.

Mae'r angen i sicrhau bod pobl yn aros ym maes addysg fel bod ymrwymiad i ddysgu yn y dyfodol hefyd yn berthnasol o ran y canfyddiad bod ymatebwyr ar gyrsiau byrrach yn fwy tebygol o feddwl am adael eu cwrs. Fel yr awgrymir yn y bennod, pobl iau sy'n tueddu i ddilyn y cyrsiau hyn. Mae'n hanfodol sicrhau eu bod yn cael profiad dysgu cadarnhaol er mwyn eu hatal rhag mynd 'ar goll' ym maes addysg yn y dyfodol. Felly, mae'n rhaid i ddarparwyr dysgu fonitro hynt cychwynnol unigolion ar y cyrsiau hyn a chynnig cymorth, boed yn addysgol neu'n fugeiliol, lle y bo'n amlwg, er enghraifft, eu bod yn ei chael yn anodd ymdopi â chynnwys y cwrs, neu eu bod yn diflasu ar y profiad.

Mae'r canfyddiad bod ymatebwyr nad oeddent ar eu dewis cyntaf o gwrs yn llawer mwy tebygol o fod wedi ystyried gadael, er nad yn syndod, yn tanlinellu unwaith eto yr her a wynebir gan lunwyr polisi a darparwyr i gynnig darpariaeth a arweinir gan ddysgwyr. Ar yr un pryd, mae'r angen am wybodaeth, cyngor ac arweiniad cyn mynediad cadarn, o amryw o ffynonellau efallai, ond yn ddelfrydol o ffynonellau credadwy a hyddysg, yn hanfodol er mwyn osgoi gwneud dewisiadau amhriodol, cael pobl sydd ar y cwrs 'anghywir', ac, yn y pen draw, gael dysgwyr anfodlon.


Bwriadau yn y dyfodol

Mae'r adran hon yn trafod bwriadau ymatebwyr yn y dyfodol o ran parhau i ddysgu o fewn tair blynedd.

Bwriad i barhau i ddysgu

Gofynnwyd i bob ymatebydd nad oedd ar gwrs neu raglen hyfforddi arall eisoes pa mor debygol ydoedd, os o gwbl, o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf³⁰. Fel y dangosir yn Siart 20, roedd mwy na phedwar o bob deg o ymatebwyr (44%) yn 'debygol iawn' o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf. Dywedodd traean arall (32%) ychwanegol eu bod yn 'eithaf tebygol' o barhau i ddysgu, gan olygu bod tua thri chwarter yr ymatebwyr (77%) yn debygol o barhau i ddysgu i ryw raddau. Dywedodd tua un o bob pump (21%) nad oeddent yn debygol o barhau i ddysgu, gyda 14 y cant yn dweud 'ddim yn debygol iawn' a 7 y cant yn dweud 'ddim yn debygol o gwbl'.

Siart 20 Bwriad i barhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf



³⁰ Roedd 11% o'r dysgwyr a oedd wedi cwblhau eu rhaglen yn llawn neu wedi gadael yn gynnar yn derbyn addysg amser llawn neu ran-amser eto neu yn dilyn rhaglen dysgu seiliedig ar waith arall; mae hyn yn cyfateb i 2% o'r sampl gyfan.

Sylfaen: Pob ymatebydd nad oedd ar gwrs arall eisoes (heb ei phwysoli: 1,470)

Gellid awgrymu y bydd y rhai sy'n cael profiad dysgu cadarnhaol yn fwy tebygol o ddysgu eto yn y dyfodol o ganlyniad i hynny. Yn wir, fel y dangosir yn Nhabl 32, roedd cysylltiad rhwng lefelau boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu a'r tebygolrwydd o barhau i ddysgu yn ystod y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, nid oedd y rhai a oedd wedi cael problemau ers dechrau eu rhaglen hyfforddi yn llai tebygol o ddweud ei bod yn debygol y byddent yn parhau i ddysgu neu gael hyfforddiant nag ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau (roedd 78% o gymharu â 75% yn credu ei bod yn 'tebygol iawn' neu'n 'eithaf tebygol').

Yn ddiddorol, nid oedd cael y dewis cyntaf o ddarparwr neu ddilyn y dewis cyntaf o gwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â bwriad i barhau i ddysgu. Dywedodd 77 y cant o'r ymatebwyr a oedd gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr eu bod yn debygol o barhau i ddysgu o gymharu ag 80 y cant o'r rhai nad oeddent gyda'u dewis cyntaf o ddarparwr, 77 y cant nad oeddent wedi ystyried opsiwn arall a 77 y cant yr oedd eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar eu rhan. Roedd cyfrannau tebyg o'r rhai a oedd yn astudio ar eu dewis cyntaf o gwrs (78%) yn bwriadu parhau i ddysgu o gymharu â'r rhai nad oeddent ar eu dewis cyntaf o gwrs (77%) neu'r rhai yr oedd eu cyflogwr neu'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis y cwrs ar eu rhan (71%).

Datgelodd dadansoddiad yn ôl y math o raglen nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran cyfrannau'r dysgwyr a oedd yn bwriadu dysgu eto yn y tair blynedd nesaf.

Tabl 32 Bwriad i barhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf yn ôl boddhad cyffredinol

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai ar gwrs arall	Cyfanswm	Boddhad cyffredinol			
		Hynod fodlon	Bodlon iawn	Eithaf bodlon	Ddim yn fodlon / nac yn anfodlon / anfodlon
Sylfaen: heb ei phwysoli	1,470	482	625	273	88
	%	%	%	%	%
Tebygol iawn	44	51	44	34	40
Eithaf tebygol	32	30	34	36	18
Ddim yn debygol iawn	14	11	14	21	17

Ddim yn debygol o gwbl	7	6	5	8	22
Ddim yn gwybod	2	2	2	1	3
(net) Tebygol	77	82	79	70	58
(net) Ddim yn debygol	21	16	19	29	39

Datgelodd dadansoddiad pellach yn ôl is-grwpiau o ymatebwyr wahaniaethau yn ôl oedran a rhyw:

- Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn 'tebygol iawn o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf (48% o gymharu â 41% o ymatebwyr gwrywaidd). Roedd ymatebwyr benywaidd hefyd yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol ynghylch eu profiad cyffredinol o hyfforddiant.
- Ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed oedd fwyaf cadarnhaol ynghylch y tebygolrwydd o barhau i gael hyfforddiant, gyda 57 y cant yn dweud 'tebygol iawn' o gymharu â 44 y cant neu lai o ymatebwyr o dan 25 oed neu'n 35 oed neu'n hŷn.

Hefyd, roedd yr ymatebwyr canlynol yn fwy tebygol o fod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf:

- Y rhai a gafodd eu hyfforddi yn y gweithle (79% yn debygol o gymharu â 72% a oedd yn mynychu coleg AB)
- Y rhai a gredai fod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol (81% o gymharu â 68% a oedd yn credu bod eu hyfforddiant yn eithaf defnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl i'w swydd bresennol)

Roedd yr ymatebwyr canlynol yn llai tebygol o fod yn ystyried parhau i gael hyfforddiant:

- Ymatebwyr a oedd wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen hyfforddi (roedd 66% yn debygol o gymharu â 79% nad oeddent wedi meddwl o ddifrif am adael eu rhaglen)

Casgliadau a goblygiadau polisi

- Dywedodd tri chwarter o'r rhai nad oeddent eisoes ar gwrs arall eu bod yn debygol o barhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.
- Roedd y rhai a nododd lefelau uchel o foddhad â'r profiad dysgu cyffredinol yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o ddweud eu bod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y dyfodol.
- Nid oedd ymatebwyr a oedd wedi cael problemau yn llai tebygol na'r rhai nad oeddent wedi cael problemau o ddweud eu bod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf.

- Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o nodi eu bod yn 'tebygol iawn' o barhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf.
- Roedd mwy o ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed yn hyderus y byddent yn parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf o gymharu â grwpiau oedran eraill.
- Roedd ymatebwyr yr oedd eu cyflogwr yn talu am eu cwrs ar eu rhan neu a oedd yn mynychu colegau neu'n dilyn cyrsiau a ddewiswyd gan eu cyflogwr yn llai tebygol o fod yn ystyried parhau i ddysgu neu gael hyfforddiant yn y tair blynedd nesaf.

Roedd y canfyddiadau'n ymwneud â bwriadau yn y dyfodol yn galonogol iawn, am i dri chwarter yr ymatebwyr ddweud eu bod yn barod i barhau i ddysgu yn y blynedd oedd i ddod. Mae hyn yn peri her i lunwyr polisi a darparwyr dysgu unigol o ran sicrhau bod yr hyn a ddarperir yn ddigon deniadol a pherthnasol a'u bod yn codi ymwybyddiaeth mewn modd effeithiol, er mwyn cynnal y diddordeb hwn a chreu ymrwymiad parhaus i ddysgu.

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, mae'n galonogol iawn gweld bod y rhai a oedd wedi cael problemau wrth ddysgu yr un mor debygol o fod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y dyfodol â'r rhai nad oeddent wedi cael unrhyw anawsterau.

Mae'r canfyddiad bod y rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle, a'r rhai a oedd o'r farn bod eu hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn i'w swydd bresennol, yn fwy tebygol o ystyried parhau i gael hyfforddiant yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn gweld manteision amlwg eu profiad dysgu. O fewn hyn, mae'n glir bod negeseuon allweddol ac enghreifftiau o fywyd go iawn y gellir eu defnyddio gan y rhai sy'n hyrwyddo hyfforddiant a dysgu gydol oes er mwyn annog mwy o bobl i ddysgu.

Grwpiau o ddiddordeb penodol

Drwy gydol y gwaith dadansoddi, daeth nifer o grwpiau o ymatebwyr i'r amlwg fel rhai a allai fod o ddiddordeb o safbwynt polisi. Mae rhai o'r grwpiau hyn yn gorgyffwrdd, h.y. nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd, ac fe'u disgrifir isod³¹ gyda'r nod o ysgogi trafodaeth bellach.

Lleoliad

Roedd 42 y cant o ymatebwyr yn dysgu mewn lleoliad AB ac roedd 59 y cant yn dysgu yn y gweithle, gyda rhai yn gwneud y ddau. Gellir crynhoi nodweddion allweddol y rhai a oedd yn dysgu ymhob lleoliad fel a ganlyn:

Demograffeg bersonol		Demograffeg cwrs	
AB <ul style="list-style-type: none">• Roedd 74% yn ymatebwyr gwrywaidd• Roedd 77% rhwng 16 a 24 oed• Roedd 66% yn perthyn i grŵp C1/C2• Nid oedd gan 82% gyfrifoldebau gofalu• Roedd 23% yn gymwys hyd at Lefel 3+	Gweithle <ul style="list-style-type: none">• Roedd 47% yn ymatebwyr gwrywaidd• Roedd 49% rhwng 16 a 24 oed• Roedd 65% yn perthyn i grŵp C1/C2• Nid oedd gan 66% gyfrifoldebau gofalu• Roedd 28% yn gymwys hyd at Lefel 3+	AB <ul style="list-style-type: none">• Roedd 58% ar gyrsiau a oedd yn para mwy na dwy flynedd• Roedd 60% ar gyrsiau adeiladu, peirianneg a gweithgynhyrchu	Gweithle <ul style="list-style-type: none">• Roedd 27% ar gyrsiau a oedd yn para mwy na dwy flynedd• Roedd 25% ar gyrsiau adeiladu, peirianneg a gweithgynhyrchu, ac roedd 26% ar gyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant

³¹ Dylid nodi y gall y sampl o ddysgwyr fod yn unochrog oherwydd dim ond y rheini a gytunodd i gymryd rhan mewn gwaith dilynol y bu'n bosibl i ni eu cyfweild (a chafodd y data ei bwysoli er mwyn cyfateb proffil y dysgwyr a wnaeth gytuno i hyn). Dylid bod yn ofalus wrth allosod canfyddiadau'r arolwg mewn perthynas â **phob** dysgwr DSW.

Dysgu eto yn y tair blynedd nesaf		Disgwyliadau mwyaf cyffredin	
AB	Gweithle	AB	Gweithle
<ul style="list-style-type: none"> Dywedodd 72% ei bod yn debygol 	<ul style="list-style-type: none"> Dywedodd 80% ei bod yn debygol 	<ul style="list-style-type: none"> 'cael cymhwyster' (97%), wedi'i ddilyn gan 'dysgu sgiliau newydd' (96%). Yn nodedig roedd 89% am 'cwrdd â phobl newydd' (o gymharu â 68% yn y gweithle) 	<ul style="list-style-type: none"> 'cael cymhwyster' (97%), wedi'i ddilyn gan 'dysgu sgiliau newydd' (93%) a 'symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella datblygiad mewn swydd' (93%) Dim ond 68% a nododd 'cwrdd â phobl newydd'

Rhyw: ymatebwyr benywaidd

Roedd 47 y cant o'r ymatebwyr yn yr astudiaeth yn fenywaidd ac roeddent yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar eu profiad dysgu cyffredinol (roedd 79% yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o gymharu â 72% o ymatebwyr gwrywaidd). Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud bod eu cyflogwr wedi dewis eu darparwr ar eu rhan (33% o ymatebwyr benywaidd o gymharu â 25% o ymatebwyr gwrywaidd). Fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn ystod eu cwrs nag ymatebwyr gwrywaidd. Roedd nodweddion allweddol ymatebwyr benywaidd fel a ganlyn:

Demograffeg bersonol	Demograffeg cwrs
<ul style="list-style-type: none"> Roedd 40% yn 35 oed neu'n hŷn Grŵp cymdeithasol C1/C2 yn bennaf Roedd 90% yn gweithio Nid oedd gan 60% unrhyw gyfrifoldebau gofalu Roedd 34% yn gymwys hyd at Lefel 3+ 	<ul style="list-style-type: none"> Roedd 67% yn dysgu yn y gweithle; Roedd 24% mewn lleoliad AB (nid oedd y categorïau hyn yn annibynnol ar ei gilydd) Roedd 43% yn astudio cyrsiau lechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant; Roedd 20% yn astudio cyrsiau rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith; Roedd 19% yn astudio cyrsiau manwerthu/dosbarthu/gwasanaethau cwsmeriaid Roedd 90% yn astudio NVQ Roedd 49% yn astudio cyrsiau a oedd yn para blwyddyn neu ddwy
Disgwyliadau	Bwriadau yn y dyfodol
<ul style="list-style-type: none"> Y disgwyliadau mwyaf cyffredin oedd 'cael 	<ul style="list-style-type: none"> Dywedodd 81% ei bod yn debygol y byddent yn

cymhwyster' (98%), gan awgrymu y gallai cryn dipyn o'r dysgu hwn fod wedi cael ei lywio gan ofynion statudol y cyflogwr, yn enwedig y rhai a oedd yn astudio pynciau'n ymwneud ag lechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant	dysgu eto yn y tair blynedd nesaf
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------

Cyfnod mewn bywyd

Ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd rhwng 19 a 24 oed

Roedd y grŵp hwn yn cyfrif am 30 y cant o'r sampl. Roedd gwahaniaethau yn ôl rhyw o fewn y grŵp hwn, er enghraifft roedd 85 y cant o ymatebwyr benywaidd rhwng 19 a 24 oed yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar eu profiad dysgu cyffredinol, o gymharu â 72 y cant o ymatebwyr gwrywaidd o'r un oedran. Yn yr un modd o ran boddhad ag ansawdd yr addysgu, roedd 81 y cant o ymatebwyr benywaidd yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn o gymharu â 62 y cant o ymatebwyr gwrywaidd o'r un oedran. Crynhoir nodweddion pob grŵp yn y tabl canlynol:

Demograffeg bersonol		Demograffeg cwrs	
Ymatebwyr gwrywaidd <ul style="list-style-type: none"> 24% C1 Nid oedd gan 93% gyfrifoldebau gofalu Roedd 22% yn gymwys hyd at Lefel 3+ 	Ymatebwyr benywaidd <ul style="list-style-type: none"> 34% C1 Nid oedd gan 82% gyfrifoldebau gofalu Roedd 34% yn gymwys hyd at Lefel 3+ 	Ymatebwyr gwrywaidd <ul style="list-style-type: none"> Roedd 71% yn gwneud rhywfaint o'u cwrs mewn coleg AB Roedd 28% ar gyrsiau a oedd yn para hyd at ddwy flynedd Roedd 75% yn astudio cyrsiau Adeiladu, peirianeg a gweithgynhyrchu 	Ymatebwyr benywaidd <ul style="list-style-type: none"> Roedd 27% yn gwneud rhywfaint o'u cwrs mewn coleg AB Roedd 78% ar gyrsiau a oedd yn para hyd at ddwy flynedd Roedd 49% yn astudio cyrsiau lechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant; Roedd 22% yn astudio cyrsiau manwerthu/dosbarthu/gwasanaethau cwsmeriaid; Roedd 18% yn astudio cyrsiau rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith
Bwriadau yn y dyfodol		Disgwyliadau mwyaf cyffredin	
Ymatebwyr gwrywaidd <ul style="list-style-type: none"> Dywedodd 72% ei bod yn debygol y byddent yn dysgu eto yn y tair blynedd nesaf 	Ymatebwyr benywaidd <ul style="list-style-type: none"> Dywedodd 88% ei bod yn debygol y byddent yn dysgu eto yn y tair blynedd nesaf 	Ymatebwyr gwrywaidd <ul style="list-style-type: none"> 'cael cymhwyster' (97%), wedi'i ddilyn gan 'dysgu sgiliau newydd' (96%) a 'dysgu llawer mwy am y pwnc' (95%). Yn nodedig roedd 88% am 'cwrdd â phobl newydd' 	Ymatebwyr benywaidd <ul style="list-style-type: none"> 'cael cymhwyster' (98%), wedi'i ddilyn gan 'symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella datblygiad mewn swydd' (94%). Dim ond 63% a ddywedodd 'cwrdd â phobl newydd'

Ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu

Roedd ymatebwyr a oedd yn gyfrifol am ofalu am oedolion neu blant ychydig yn llai tebygol o fynegi unrhyw fath o foddhad cyffredinol â'u profiad dysgu ac roeddent yn llai tebygol o ddweud eu bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr na'r rhai heb y fath gyfrifoldebau. Fodd bynnag, roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn bwriadu dysgu eto yn y tair blynedd nesaf na'r rhai heb gyfrifoldebau gofalu. Crynhoir nodweddion y grŵp hwn isod:

Demograffeg bersonol <ul style="list-style-type: none">• Roedd 65% yn fenywaidd• Roedd 66% rhwng 25 a 44 oed• Grŵp cymdeithasol C1/C2 yn bennaf (71%)• Roedd 37% yn gymwys hyd at Lefel 3+	Demograffeg cwrs <ul style="list-style-type: none">• Roedd 37% yn astudio cyrsiau lechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant; Roedd 21% yn astudio cyrsiau rheoli, busnes, materion gweinyddol a'r gyfraith• Roedd 93% yn astudio NVQ• Roedd 47% ar gyrsiau a oedd yn para blwyddyn neu ddwy• Roedd 71% yn dysgu yn y gweithle
Disgwyliadau <ul style="list-style-type: none">• Y disgwyliadau mwyaf cyffredin oedd 'cael cymhwyster' (97%), wedi'i ddilyn gan 'dysgu sgiliau newydd', 'symud ymlaen yn eich gyrfa neu wella eich datblygiad swydd' a 'gwella eich dealltwriaeth o'ch gwaith' - nodwyd y tri gan 93% o'r grŵp hwn	Bwriadau yn y dyfodol <ul style="list-style-type: none">• Dywedodd 82% ei bod yn debygol y byddent yn dysgu eto yn y tair blynedd nesaf

Casgliadau a Goblygiadau Polisi

Cyflwyniad

Un o'r prif feysydd a astudiwyd fel rhan o Raglen Ymchwil ymhlith Cwsmeriaid 2007-2010, ac un a welwyd hefyd yn Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid 2003-2006, yw boddhad y dysgwr. O ran Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW), penderfynwyd casglu data ar foddhad dysgwyr â'u darparwr a, lle y bo'n briodol, eu cyflogwr yn ogystal â'r profiad dysgu cyffredinol. Yn amlwg, mae'n debygol y byddai'r safbwyntiau hyn yn cael eu llywio gan eu rhesymau dros ddilyn eu cwrs DSW a'u gallu i gael eu dewis cyntaf. Fodd bynnag, yn achos lleiafrif sylweddol o'r sampl, cafodd eu cwrs a'r darparwr dysgu eu dewis ar eu rhan.

Boddhad â'r profiad dysgu

Fel y sampl o ddysgwyr AB, roedd y lefelau boddhad a gofnodwyd gan y sampl DSW yn uchel iawn. Roedd rhai gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr, gyda'r grwpiau canlynol yn fwy bodlon: ymatebwyr benywaidd a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd y graddau boddhad ffafriol iawn hyn i'w gweld ymhlith yr holl ymatebwyr DSW.

Ffactor pwysig i'w ystyried wrth edrych ar lefelau boddhad ymatebwyr DSW yw'r canfyddiad nad oedd bron traean o'r sampl wedi dewis eu darparwr na'r math o gwrs. Y rheswm dros hyn oedd am fod eu cyflogwr, ac mewn nifer fach o achosion y Ganolfan Byd Gwaith, wedi gofyn iddynt neu wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud math penodol o hyfforddiant a ddarparwyd gan ddarparwr dysgu penodol. Ar yr olwg gyntaf, gallai hyn ymddangos fel achos o ddysgu, ar ffurf hyfforddiant galwedigaethol fel arfer, yn cael ei orfodi arnynt. Nid yw hyn yn wir o reidrwydd oherwydd mewn llawer o swyddi mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd wneud hyfforddiant penodol, gyda chymhwyster yn ofyniad pellach. Gellir dadlau hefyd, pan fydd rhai unigolion yn amharod i ddysgu neu â diffyg diddordeb yn hynny, y gall eu cynnwys mewn gweithgaredd dysgu oresgyn y rhwystr hwn sy'n ymwneud ag agweddau ac esgor ar fanteision tymor hwy iddynt hwy a'u gyrfaoedd.

Er gwaethaf y pwyntiau a godir uchod, roedd y ffaith bod ymatebydd yn astudio gyda'i ddewis cyntaf o ddarparwr neu ar ei ddewis cyntaf o gwrs yn benderfynydd allweddol o lefel eu boddhad, tra bod y rhai lle y cafodd eu darparwr ei ddewis ar eu rhan yn tueddu bod yn llai bodlon ar eu profiad dysgu.

Wrth ystyried agweddau ar eu profiad dysgu nad oeddent yn fodlon arnynt, ansawdd yr addysgu, graddau'r cymorth gan eu cyflogwr, ynghyd â phryderon am berthnasedd yr

hyfforddiant, rheoli'r cwrs a bod ar y cwrs anghywir, oedd y ffactorau pwysicaf a oedd yn llywio anfodlonrwydd. I'r gwrthwyneb, y ffactorau a ystyriwyd bwysicaf wrth bennu lefelau uchel o foddhad ymhlith ymatebwyr o ran y profiad dysgu oedd ansawdd yr addysgu a rhoi cymorth parhaus i ddysgwyr.

Ymhlith y rhai a oedd yn anfodlon ar eu profiad dysgu i ryw raddau, un rheswm allweddol dros hynny oedd methiant y cwrs i fodloni eu disgwyliadau. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r sampl a oedd â disgwyliadau penodol ynghylch yr hyn y byddai'r cwrs yn ei ddarparu fod eu disgwyliadau wedi'u bodloni.

Fel canfyddiadau'r arolwg o ddysgwyr AB, roedd ymatebwyr hŷn yn llai tebygol o feddu ar ddisgwyliadau ynghylch eu cwrs, o gymharu ag ymatebwyr iau. Unwaith eto, roedd hyn yn rhannol oherwydd bod niferoedd mawr o ymatebwyr a oedd yn gweithio ac a anfonwyd ar gwrs gan eu cyflogwr.

Elfen arall a oedd yn debyg i'r arolwg o ddysgwyr AB oedd bod perthynas agos rhwng bodloni disgwyliadau a boddhad mawr ymhlith ymatebwyr, cadw myfyrwyr a bwriad i ddysgu yn y dyfodol.

Roedd y ffaith bod ymatebwyr o'r farn bod eu cwrs wedi bod yn effeithiol o ran eu helpu i gyflawni eu canlyniadau dysgu disgwylidig yn dystiolaeth o effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Gwelwyd ychydig o wahaniaeth yma rhwng y rhai a oedd yn dilyn cwrs mewn coleg addysg bellach a'r rhai a oedd yn dysgu yn y gweithle. Mae'r grŵp cyntaf yn fwy tebygol o nodi bod eu hyfforddiant wedi eu helpu i fodloni eu disgwyliadau dysgu disgwylidig. At hynny, honnwyd ei fod wedi eu helpu i gyflawni'r canlyniad cymdeithasol sef cwrdd â mwy o bobl.

Dewis a chyfle

Gyda dim ond hanner y sampl yn honni eu bod wedi cael eu dewis cyntaf o ddarparwr, a thua thraean yn dweud nad oedd dewis ganddynt o ran eu hyfforddiant, daw'r cysyniad o ddewis yn amlwg. Felly, er bod lefelau boddhad cyffredinol yn uchel iawn, roedd perthynas amlwg rhwng cael y dewis cyntaf o ddarparwr a bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y profiad dysgu.

Ymhlith y rhai lle cafodd eu darparwr hyfforddiant ei ddewis gan eu cyflogwr, roedd sefyllfa lle nad oeddent wedi cyfrannu at y penderfyniad hwnnw yn aml yn cael ei gwaethygu gan ddiffyg cymorth neu ddiffyg diddordeb ar ran y cyflogwr.

Pan roddwyd dewis i'r ymatebwyr o ran eu darparwr dysgu, y prif ffactorau a oedd yn pennu'r dewis hwnnw oedd pa mor agos ydoedd i gartref yr ymatebydd a'i fod yn cynnig y rhaglen ddysgu yr oedd yr ymatebydd am ei dilyn.

Roedd dylanwad cyflogwr hefyd yn amlwg o ran pennu'r cwrs yr oedd yr ymatebydd yn ei ddilyn, gydag un rhan o ddeg o'r sampl yn honni mai eu cyflogwr a oedd wedi dewis y cwrs (roedd y cyfrannau'n uwch ymhlith ymatebwyr benywaidd a'r rhai dros 25 oed). Serch hynny, roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn dilyn yr hyn a ystyriwyd ganddynt fel eu dewis cyntaf o gwrs. Roedd cysylltiad cadarnhaol rhwng hyn a boddhad cyffredinol ynghyd â ph'un a oeddent wedi ystyried gadael y cwrs.

O gymharu â chanfyddiadau'r arolwg o ddysgwyr AB, roedd mwy o gyfryngdod yn amlwg yn y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr DSW. 'Helpu gyda'm swydd bresennol/datblygiad mewn swydd' oedd y rheswm mwyaf cyffredin o gryn dipyn. Nid oedd hyn yn syndod, o ystyried y berthynas uniongyrchol rhwng y math hwn o ddysgu a'r gweithle. Serch hynny, nododd bron traean o ymatebwyr 'mwynhau'r pwnc' neu 'bod yn dda yn y pwnc' fel rhesymau, gan ddangos felly fod canlyniadau heblaw am rai'n ymwneud â gwaith yn bwysig i ymatebwyr DSW. Yr hyn a oedd yn peri rhywfaint o syndod oedd y canfyddiad bod ymatebwyr gwrywaidd yn tueddu dweud eu bod wedi dewis y cwrs am eu bod yn mwynhau'r pwnc yn fwy nag ymatebwyr benywaidd. Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o briodoli eu penderfyniad i resymau'n ymwneud â gwaith. Roedd hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg o ddysgwyr AB.

Rhywbeth arall a oedd yn debyg i'r arolwg o ddysgwyr AB oedd y canfyddiad bod y rhai dros 25 oed yn fwy tebygol nag ymatebwyr iau o fod wedi dewis eu cwrs am resymau'n ymwneud â'u swydd bresennol a meithrin sgiliau.

Cyngor ac arweiniad

Roedd cyflogwyr yn chwarae rhan amlwg unwaith eto mewn perthynas â rhoi cyngor i ymatebwyr cyn dechrau eu cwrs, gyda mwy na thair rhan o bump o'r sampl yn eu nodi. Soniodd ychydig o dan hanner am athrawon neu diwtoriaid y darparwr dysgu. Y ffynhonnell olaf hon oedd yr un y dywedwyd ei bod yn 'defnyddiol iawn' fwyaf. Fel yr ymatebion i'r arolwg AB, mae'r ffaith mai'r ddwy hyn oedd y ffynonellau o gyngor a ffafriwyd (ac, i ryw raddau, 'rhieni neu aelodau eraill o'r teulu', sef y drydedd ffynhonnell fwyaf cyffredin) yn codi cwestiynau ynghylch cynnwys y cyngor a roddir a pha mor ddiuedd ydyw.

O ran athrawon a thiwtoriaid y darparwr dysgu, os oedd yr hyn a gynigiwyd yn gyfystyr â 'gwybodaeth', er enghraifft am gynnwys a fformat y cwrs, yn hytrach na 'chyngor' ymddengys bod hyn yn briodol. Fodd bynnag, os yw'n ymwneud â rhoi cyngor ac arweiniad gyrfao, yna gellir dadlau ynghylch hygyrdd hynny, o ran ystyried buddiannau'r dysgwr yn anad dim. Gellid dadlau bod gan y darparwr ddiddordeb penodol mewn denu dysgwyr ac nad ef yw'r ffynhonnell orau o gyngor diduedd a gwrthrychol o reidrwydd.

Gellir gwneud pwynt tebyg ynghylch cyngor a roddir gan gyflogwr yr unigolyn, y mae fwy na thebyg yn mynd i fod yn meddwl am anghenion penodol y gweithle yn bennaf, yn hytrach na dyheadau gyrfaal hirdymor y cyflogai unigol.

Nid yw'n syndod i ymatebwyr iau dueddu sôn am eu rhieni a Gyrfa Cymru fel ffynonellau o gyngor yn fwy aml nag ymatebwyr hŷn, tra roedd ymatebwyr benywaidd yn tueddu cael cyngor gan ffrindiau i raddau mwy nag ymatebwyr gwrywaidd. Pa ffynhonnell bynnag o gyngor a gafwyd, roedd tua 90 y cant o ymatebwyr o'r farn ei bod yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol, gydag athrawon neu diwtoriaid y darparwr dysgu yn cael eu graddio uchaf - dywedodd mwy na dwy ran o dair o'r ymatebwyr fod y ffynhonnell hon yn 'defnyddiol iawn'. Cafodd cyngor gan gyflogwyr radd uchel hefyd, gyda 59 y cant o ymatebwyr yn dweud ei fod yn 'defnyddiol iawn'.

Bodddhad â darparwr

Cafwyd lefelau uchel iawn o foddhad ymhlith ymatebwyr o ran ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd gan eu darparwr dysgu, gyda'r lefelau hynny ar eu huchaf ymhlith ymatebwyr hŷn (dros 25 oed) ac ymatebwyr benywaidd.

Roedd y rôl hanfodol a chwaraewyd gan gymorth effeithiol cyflogwyr yn amlwg unwaith eto, gan fod perthynas gref rhwng bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr a bod yn hynod fodlon neu'n fodlon iawn ar ansawdd yr hyfforddiant a gafwyd.

Roedd cysylltiad agos hefyd rhwng lefel uchel o foddhad ag ansawdd yr hyfforddiant a bod yn dilyn y dewis cyntaf o gwrs, gyda'r dewis cyntaf o ddarparwr, a chael hyfforddiant a oedd yn berthnasol iawn i swydd bresennol yr ymatebydd.

Yn bwysicaf oll efallai yw'r ffaith i'r rhan fwyaf o ymatebwyr roi graddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar addysgu, gyda 'deall y dysgwr' yn cael ei graddio'n arbennig o uchel. O ddiddordeb arbennig oedd y ffaith bod y rhai heb unrhyw gymwysterau blaenorol, neu â chymwysterau hyd at lefel 2, yn tueddu rhoi graddau uwch i'r agweddau ar ddulliau addysgu nag ymatebwyr eraill. Mae hyn yn awgrymu bod darparwyr dysgu yn darparu profiad dysgu cadarnhaol i lawer o unigolion a all fel arall gael eu categorio'n ddysgwyr 'anhraddodiadol'. Mae hyn yn argoeli'n dda o ran y posibilrwydd y dônt yn fwy hyderus ynghylch dysgu ac y byddant yn barod i ddysgu ymhellach yn y dyfodol.

Dangoswyd pwysigrwydd cyflwyno cwrs mewn ffordd drefnus ymhlith ymatebwyr gan y ffaith mai 'gwneud defnydd da o amser sesiynau' oedd yr agwedd bwysicaf ar ansawdd yr addysgu o safbwynt yr ymatebwyr. Yn yr un modd, rhoddwyd graddau uchel i agweddau 'deall y dysgwr' ar gyflwyno rhaglen, gyda 'gwrando ar eich anghenion' yn cael ei amlygu fel ffactor allweddol a oedd yn llywio bodddhad ag ansawdd yr addysgu.

Bodddhad â chyflogwr

Fel y nodwyd yn gynharach, er bod y rhai a leisiodd bryderon ynghylch diffyg cymorth cyflogwr yn tueddu bod yn llai bodlon, dylid pwysleisio bod y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn gweithio yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr. Roedd hyn yn arbennig o wir am ymatebwyr iau. Roedd hefyd yn wir i'r rhan fwyaf o ymatebwyr roi graddau uchel iawn ar gyfer pob agwedd ar fewnbwn cyflogwr.

Ymhlith y mathau o gymorth a roddwyd gan y cyflogwyr hynny a oedd â'r diddordeb mwyaf yn hyfforddiant eu cyflogeion roedd caniatáu amser i'r dysgwr astudio yn ystod oriau gwaith a sicrhau nad oedd o dan bwysau, o ganlyniad i ofynion penodol y gwaith, i gollu sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr. Yn ogystal â rhoi graddau uchel i'w cyflogwr am yr agweddau hyn ac am sicrhau bod eu rhaglen hyfforddi yn berthnasol i'w swydd, roedd eu hanogaeth i gael cymhwyster hefyd yn cael sgôr uchel.

Roedd yn ddiddorol nodi bod yr ymatebwyr hynny a oedd ar gyrsiau adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu a chludiant yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar y cymorth a gafwyd gan eu cyflogwr nag ymatebwyr yn gyffredinol. Mae'r rhain yn sectorau diwydiannol traddodiadol sydd â chysylltiad hirsefydledig â hyfforddiant galwedigaethol. Ymddengys bod y diwylliant hwn o hyfforddiant yn chwarae rhan bwysig yn y sectorau hyn.

Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, roedd lefelau bodddhad yn uchel pan oedd yr ymatebydd yn cydnabod bod yr hyfforddiant a wnaed yn berthnasol iawn i'w waith. At hynny, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod eu hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol a'i fod yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol yn hynny o beth. Mae hyn yn dangos bod darparwyr dysgu yn llwyddiannus iawn o ran darparu hyfforddiant a oedd yn gwbl briodol i ofynion cyflogwyr. At hynny, gwelwyd hyd yn oed fod y rhai a oedd yn astudio mewn coleg AB yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn cael eu hyfforddi yn y gweithle o haeru bod eu cwrs yn uniongyrchol gysylltiedig â'u swydd.

Problemau a wynebwyd

Er bod yr ymatebion yn adlewyrchu lefelau hynod o uchel o foddhad â'r profiad dysgu, nododd bron hanner y sampl o hyd eu bod wedi cael problemau yn ystod eu cwrs. Y broblem fwyaf cyffredin oedd 'cynnal cymhelliant i barhau i ddysgu'. Roedd hyn hefyd yn wir yn yr arolwg AB. Fodd bynnag, tra roedd ymatebwyr iau yn yr arolwg AB (16-24 oed) yn fwy tebygol o sôn am y broblem hon, ymhlith ymatebwyr DSW, y rhai rhwng 35 a 44 oed oedd yn tueddu cael problemau i gynnal cymhelliant. Ymddengys yn debygol fod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod niferoedd mawr o ymatebwyr yn y grŵp oedran hwn ar

gyrsiau a ddewiswyd iddynt gan eu cyflogwr. Er nad oeddent o reidrwydd yn anfodlon ar y syniad, efallai eu bod yn ddidaro yn dechrau'r cwrs, a oedd yn wahanol i'r rhai mewn grwpiau oedran eraill a oedd yn fwy brwdfrydig ac yn dangos mwy o gymhelliant.

Mae hyn yn fater i'w ystyried gan ddarparwyr dysgu a chyflogwyr sef nodi, ar gam cynnar, pan fo dysgwyr yn colli diddordeb. Unwaith y nodir hyn, gellir rhoi cyngor a chymorth priodol.

Roedd anhawster i gydbwyso hyfforddiant ag ymrwymadau yn y gwaith yn amlwg iawn ymhlith y rhai dros 25 oed. Mae angen i hyn gael sylw gan gyflogwyr, drwy gydnabod yr angen i leihau'r baich gwaith ar gyflogion sy'n cael hyfforddiant, a chan ddarparwyr dysgu, drwy geisio cyflwyno'r rhaglen mewn ffordd fwy hyblyg.

Unwaith eto, mae'r lefelau uchel o foddhad cyffredinol yn awgrymu, yn achos y rhan fwyaf a nododd eu bod wedi cael problemau, nad oedd y rhain yn rhwystrau mawr i fwynhau'r profiad dysgu a chael budd ohono. Ategir y farn hon gan y canfyddiad mai dim ond 7 y cant o'r sampl a oedd wedi wedi meddwl o ddifrif am adael y cwrs. Y grwpiau a oedd fwyaf tebygol o fod wedi ystyried gadael oedd ymatebwyr benywaidd iau, ymatebwyr gwrywaidd hŷn a'r rhai nad oeddent ar eu dewis cyntaf o raglen.

Fel yr arolwg o ddysgwyr AB, roedd y rhai a oedd yn dilyn cyrsiau byrrach (hyd at chwe mis) yn fwy tueddol o ystyried gadael y cwrs.

Bwriadau yn y dyfodol

Nododd tua thri chwarter o'r rhai a oedd ar eu cwrs o hyd ddweud eu bod yn bwriadu parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf. Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o ddweud hyn. O ystyried bod ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o sôn am broblemau'n cydbwyso hyfforddiant ag ymrwymadau yn y gwaith a gartref, gall ymddangos bod gan ymatebwyr benywaidd fwy o ymrwymiad i ddysgu.

Yr hyn sydd hefyd yn galonogol yw'r canfyddiad nad oedd ymatebwyr a oedd wedi cael problemau yn llai tebygol o ystyried parhau i ddysgu yn y tair blynedd nesaf na'r rhai nad oeddent wedi cael problemau. Unwaith eto, gallai hyn ddynodi bod lleiafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn dysgu yn y tymor hwy.

Goblygiadau o ran polisi

Yn amlwg mae'r canfyddiadau yn berthnasol i lunwyr polisi ac yn atgyfnerthu negeseuon sydd wedi ymddangos mewn arolygon blaenorol o ddysgwyr DSW yng Nghymru. Mae'r lefelau uchel iawn o foddhad ymhlith myfyrwyr DSW yn gyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith bod polisiâu cyffredinol a'r broses o'u cyflawni'n lleol yn llwyddo i ddiwallu

anghenion a bodloni gofynion myfyrwyr. Fodd bynnag, ceir hefyd agweddau ar y canfyddiadau sy'n dynodi meysydd y mae angen i lunwyr polisi eu hystyried ymhellach.

- Hyd yn oed pan fo hyfforddiant yn orfodol, dylid annog cyflogwyr i drafod y cwrs sydd ar droed gyda'u cyflogeion, ynghyd â'r hyn a ddisgwylir ganddynt, a'r manteision cysylltiedig;
- Dylid parhau i ddarbwylo cyflogwyr ynghylch y manteision a gânt o ganlyniad i'r sgiliau a gaiff eu meithrin gan eu cyflogeion a'r wybodaeth a ddysgant. Fel rhan o'r broses hon, dylai unrhyw ddeunydd sy'n marchnata cyrsiau penodol neu ddysgu'n gyffredinol roi pwyslais ar sut mae'r hyfforddiant o fudd i'r cyflogwyr sy'n ei ddarparu;
- Yn eu deunydd marchnata a'u cysylltiadau â chyflogwyr, dylai darparwyr dysgu bwysleisio pa mor bwysig ydyw i gyflogwyr roi cymorth i gyflogeion sy'n cael hyfforddiant. Dylid hefyd roi pwyslais ar werth ychwanegol hyfforddiant i ddysgwyr a'u cyflogwyr, yn fwy na'r broses o ddatblygu sgiliau sy'n mynd rhagddi. Yn yr un modd, dylid parhau i atgyfnerthu negeseuon ynghylch manteision dysgu i unigolion;
- Dylai pawb sydd ar fin cael hyfforddiant neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu eraill gael cyngor ac arweiniad hyddysg ar yr opsiynau sydd ar gael a'r llwybrau gyrfaol a gynigir gan yr opsiynau hynny. Dylid ymdrechu i alluogi Gyrfa Cymru, fel darparwr cyngor ac arweiniad gyrfaol gwrthrychol, diduedd a hyddysg, i ehangu ei ddylanwad a'i rôl y tu hwnt i'w brif 'gynulleidfa' bresennol (sef pobl ifanc yn bennaf) a chael mwy o effaith ar benderfyniadau gyrfaol oedolion;
- Dylai darparwyr dysgu gael eu canmol am y graddau uchel a roddwyd gan ymatebwyr am ansawdd yr addysgu a gafwyd a'r cymorth a roddwyd iddynt. Dylid eu hannog hefyd i barhau i fonitro cynnwys eu cyrsiau a'r ffordd y'u cyflwynir yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y safonau uchel hyn yn cael eu cynnal;
- Dylai tystiolaeth o'r dadansoddiad atchweliad amcangyfrifon sefydlog, sy'n nodi'r meysydd y mae angen rhoi sylw penodol iddynt er mwyn sicrhau boddhad hyd yn oed yn uwch ymhlith ymatebwyr mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu, gael ei hanfon at ddarparwyr er mwyn cynnig fframwaith i lywio gweithgareddau datblygu staff. Ochr yn ochr â hyn, dylid nodi ble y gellir cael cymorth a deunyddiau datblygu staff priodol;
- Dylai darparwyr barhau i feithrin ethos ymhlith eu staff sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i bob dysgwr, ac sy'n arbennig o sensitif i nodi dysgwyr a all fod yn cael problemau;
- Dylai darparwyr anelu at fod yn hyblyg o ran yr amserlen a'u dulliau dysgu er mwyn darparu ar gyfer y rhai y mae ymrwymadau yn y gwaith neu ymrwymadau gofalu yn cyfyngu ar eu dysgu.

Atodiadau

Atodiad A: Ymadawyr Cynnar

Holwyd yr holl ymatebwyr am eu statws dysgu cyfredol, hynny yw, a oeddent yn dal i fod ar eu rhaglen, a oeddent wedi cwblhau eu rhaglen neu a oeddent wedi gadael eu rhaglen cyn ei chwblhau'n llawn. Dywedodd 3 y cant o ymatebwyr DSW eu bod wedi gadael eu rhaglen neu'u hyfforddiant yn gynnar (sef 49 o ymatebwyr), er y dylid pwysleisio nad yw'r ymadawyr cynnar yn yr arolwg hwn yn cynrychioli **pob** ymadawr cynnar ar raglenni DSW yng Nghymru. Cafodd yr arolwg ei samplu ar sail 'dysgwyr presennol' (fel yn 2003); felly roedd ymadawyr cynnar yn ôl eu diffiniad yn unigolion a adawodd eu cwrs ar ryw adeg rhwng 'rhewi'r' gronfa ddata a roddwyd i GfK NOP a'r cyfweiliad ei hun.³²

O ystyried y niferoedd bach iawn o ymatebwyr a oedd wedi gadael eu cwrs yn gynnar, ni chynhwyswyd pennod ar wahân ar yr ymatebwyr hyn yn y prif adroddiad DSW. Yn hytrach, mae'r atodiad hwn i'r adroddiad yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am broffil y grŵp (y dylid ei hystyried yn ofalus, o ystyried y niferoedd bach o ymatebwyr dan sylw) a chanlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd yn benodol i ymadawyr cynnar a'r rhai a oedd wedi cwblhau eu rhaglen hyfforddi'n llawn.

Mae'r tabl canlynol yn darparu trosolwg o broffil ymadawyr cynnar yn ôl nodweddion personol. O hyn mae'r canlynol yn amlwg:

- roedd tuedd tuag at ymatebwyr gwrywaidd a'r rhai yn y grŵp oedran ieuengaf (16-18 oed)
- roedd ymadawyr cynnar yn tueddu astudio cyrsiau a oedd yn para blwyddyn neu fwy ac yn astudio hyd at Lefel 2
- roedd y rhan fwyaf yn gwneud eu dewis cyntaf o hyfforddiant ond roedd y rhan fwyaf wedi cael problemau ers dechrau eu cwrs

³² Darparwyd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wedi'i rewi ym mis Rhagfyr 2008; cynhaliwyd cyfweiliadau rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2009.

Tabl 33 Proffil ymadawyr cynnar

Dangosir sylfeini heb eu pwysoli mewn cromfachau	Cyfran yr ymadawyr cynnar (%)
Cyfanswm (49)	
Rhyw	
Gwryw	63
Benyw	37
Oedran	
16-18	53
19-24	24
25+	22
Ymrwymadau gofalu	
Plant	8
Dim	90
Hyd cwrs	
Hyd at flwyddyn	43
Blwyddyn neu fwy	53
Lefel y cymhwyster a astudiwyd	
Hyd at lefel 2	63
Lefel 3+	24
Dewis cyntaf o raglen hyfforddi	
Ie	73
Na/ heb ystyried dewis arall	16
Cyflogwr wedi ei ddewis	10
Problemau ers dechrau'r hyfforddiant	
Ie	65
Na	35
Bodddhad â'r profiad dysgu cyffredinol	
Hynod fodlon / bodlon iawn	41
Eithaf bodlon	31
Didaro/anfodlon	29

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i ymadawyr cynnar er mwyn pennu pam eu bod wedi dewis gadael y rhaglen neu'r hyfforddiant yn gynnar. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd:

- cael swydd rywle arall (10 allan o 49)

- colli swydd (7 allan o 49)
- yr hyfforddiant/rhaglen anghywir (6 allan o 49).

Gan fod llawer o ymatebwyr DSW yn dilyn eu cwrs drwy eu cyflogwr, roedd rhai o'r rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros adael yn gynnar yn ymwneud â phroblemau gyda'r cyflogwr yn hytrach na rhai gyda'r darparwr fel y cyfryw, er enghraifft:

- dilëwyd fy swydd/daeth y cwmni i ben (4 allan o 49)
- diffyg cymorth gan gyflogwr (3 allan o 49)
- fy nghyflogwr yn fy atal rhag mynychu/rhoi'r gorau i'w ariannu (3 allan o 49)
- ymrwymïadau gwaith yn cymryd gormod o amser (2 allan o 49)

Y ffactorau eraill a oedd y tu hwnt i reolaeth y darparwr, a grybwyllwyd gan 4 allan o 49 o ymadawyr cynnar ymhob achos, oedd rhesymau personol ac iechyd.

Er y gall y darparwr gael effaith gyfyngedig ar y materion hynny sy'n ymwneud â'r cyflogwr neu broblemau personol/iechyd, roedd rhesymau eraill a oedd yn ymwneud â'r darparwr yn fwy uniongyrchol, er enghraifft roedd 3 allan o 49 o'r farn bod eu rhaglen wedi'i rhedeg yn wael.

Statws cyflogaeth ymadawyr cynnar a'r rhai a oedd wedi cwblhau eu cwrs (ymadawyr)

Holwyd y rhai a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant yn llawn a'r rhai a oedd wedi gadael eu hyfforddiant yn gynnar am eu statws cyflogaeth cyfredol. O hyn ymlaen cyfeirir at yr ymatebwyr hyn fel 'ymadawyr'. Roedd bron tri chwarter (72%) yr ymadawyr yn gweithio ar adeg y cyfweiliad. Dylid cofio y gall ymatebwyr fod wedi cwblhau neu adael eu cwrs yn ddiweddar iawn ac efallai nad oeddent wedi cael cyfle i ddod o hyd i waith - hynny yw, nid yw'r canfyddiadau o reidrwydd yn dynodi eu statws yn y tymor hwy na hyd yn oed y tymor canolig.

Tabl 34 Statws cyflogaeth ymadawyr

Sylfaen: Pob ymadawr (heb ei phwysoli, 343):	%
Yn gweithio	72
Di-waith	9
Ddim yn gweithio	8

Mewn addysg amser llawn/rhan-amser	5
------------------------------------	---

Gofynnwyd i ymadawyr a oedd yn gweithio yn ystod eu hyfforddiant ac ar ei ôl, h.y. ar adeg y cyfweliad, a oeddent yn dal i weithio i'r un cyflogwr. Roedd y rhan fwyaf o ymadawyr (82%) yn gweithio i'r un cyflogwr â'r un a oedd ganddynt yn ystod eu hyfforddiant a dywedodd tua un o bob pump eu bod yn gweithio i gyflogwr gwahanol (18%). Gofynnwyd hefyd i ymadawyr a oedd yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn ystod eu hyfforddiant a oeddent yn gweithio yn yr un swydd neu swydd debyg i'r un a oedd ganddynt yn ystod eu hyfforddiant, neu a oeddent wedi newid eu rôl ar ôl cwblhau eu rhaglen hyfforddi. Roedd y ffigurau'n debyg i'r rhai ar gyfer y cwestiwn blaenorol gydag 82 y cant o ymadawyr yn dweud eu bod mewn rôl debyg ac 16 y cant yn dweud eu bod yn gwneud rhywbeth gwahanol.

Tabl 35 Statws cyflogaeth ymadawyr

Sylfaen: Pob ymadawr a oedd yn gweithio fel cyflogai yn ystod ei hyfforddiant ac ar ei ôl (heb ei phwysoli, 226)	%
Yr un cyflogwr yn ystod ac ar ôl yr hyfforddiant	
Ie	82
Na	18
Sylfaen: Pob ymadawr a oedd yn gweithio fel cyflogai/yn hunangyflogedig yn ystod ei hyfforddiant ac ar ei ôl (heb ei phwysoli, 232)	
Rôl bresennol yn debyg i rôl y dysgwr yn ystod ei hyfforddiant	
Yr un rôl neu'n debyg	84
Rôl wahanol	16

Atodiad B: Proffil Ymatebwyr

Nodweddion demograffig allweddol

Dangosir nodweddion demograffig personol allweddol y sampl yn Nhabl 36. Yn arbennig, dylid nodi, o blith ein sampl o ymatebwyr DSW a wnaeth gytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau dilynol:

- roedd cyfran ychydig yn uwch o ymatebwyr yn wrywaidd (53% o gymharu â 47%).
- roedd tri o bob deg o ymatebwyr (28%) rhwng 16 a 18 oed ac roedd cyfran debyg (30%) rhwng 19 a 24 oed. Roedd un o bob chwech (16%) rhwng 25 a 34 oed, tra bod chwarter arall (26%) yn 35 oed neu'n hŷn, gyda 12 y cant yn 45 oed neu'n hŷn.
- Roedd gan 3 y cant o ymatebwyr anabledd neu anhawster dysgu³³.

Tabl 36 Nodweddion demograffig allweddol

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Rhyw	Gwryw	53
	Benyw	47
Oedran	16-18	28
	19-24	30
	25-34	16
	35-44	13
	45+	12
Unrhyw anabledd / anhawster dysgu	Na	97
	Ie	3
Gradd gymdeithasol	AB	11
	C1	31
	C2	32
	DE	21

³³ Cafwyd y wybodaeth hon o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru; os nad oedd ar gael yn y gronfa ddata honno, gofynnwyd y cwestiwn i'r dysgwyr fel rhan o'r arolwg. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cyfanswm cyfunol.

Hefyd, roedd gwahaniaethau mawr o ran oedran rhwng y rhywiau. Fel y gwelir yn y tabl canlynol, roedd ymatebwyr gwrywaidd lawer iau nag ymatebwyr benywaidd: roedd tri chwarter yr ymatebwyr gwrywaidd (75%) o dan 25 oed o gymharu â phedwar o bob deg o ymatebwyr benywaidd (39%). I'r gwrthwyneb, roedd 61 y cant o ymatebwyr benywaidd yn 25 oed neu'n hŷn o gymharu â chwarter yr ymatebwyr gwrywaidd (25%).

Tabl 37 Oedran o fewn rhyw'r unigolyn

Sylfaen: Pob ymatebydd	Rhyw	
	Gwryw	Benyw
Sylfaen: heb ei phwysoli	806	701
	%	%
16-18	36	19
19-24	39	21
25-34	12	21
35-44	8	20
45+	5	20

Cefndir profiad dysgu

Mae pobl yn dod yn ddysgwyr DSW ar gamau gwahanol o'u bywydau gwaith ac yn cynnwys y rhai sy'n chwilio am waith, y rhai ar leoliadau gwaith neu brentisiaethau a'r rhai sy'n gweithio ar sail amser llawn.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr DSW (91%) yn gweithio (mae hyn yn cynnwys y rhai ar leoliad gwaith a'r hunan-gyflogedig) o gymharu ag un o bob deg (9%) nad oeddent yn gweithio. Roedd dros hanner y rhai nad oeddent yn gweithio (57%) yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi gan ddarparwr preifat, o gymharu â dim ond un o bob deg o'r rhai a oedd yn gweithio (10%).

Roedd gan y mwyafrif helaeth o ymatebwyr DSW gymwysterau blaenorol hefyd: roedd gan un rhan o bump gymwysterau lefel mynediad neu lefel 1 (21%), roedd gan ddwy ran o bump gymwysterau lefel 2 (40%), roedd gan un rhan o bump arall gymwysterau lefel 3 (21%) ac roedd gan 7 y cant gymwysterau lefel 4 ac uwch. Nid oedd gan 7 y cant gymwysterau blaenorol.

Roedd gan chwarter y sampl o ymatebwyr (25%) gyfrifoldebau rhiant am blant (11% am blant o dan bump oed a 18% am blant dros bump oed), ac roedd un o bob ugain (5%) yn gyfrifol am ofalu am oedolyn. Nid oedd gan ychydig dros saith o bob deg o ymatebwyr (72%) unrhyw gyfrifoldebau fel rhiant na chyfrifoldebau gofalu.

Roedd y rhai â chyfrifoldebau rhiant am blant yn fwy tebygol o fod yn 25 oed neu'n hŷn: roedd gan 56 y cant o'r rhai rhwng 25 a 34 oed, 68 y cant o'r rhai rhwng 35 a 44 oed a 31% o'r rhai 45 oed neu'n hŷn gyfrifoldebau rhiant am blant o gymharu ag 8 y cant o'r rhai rhwng 19 a 24 oed a 2 y cant o'r rhai rhwng 16 a 18 oed. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr benywaidd nag ymatebwyr gwrywaidd (roedd gan 36% o ymatebwyr benywaidd gyfrifoldebau rhiant o gymharu â 15% o ymatebwyr gwrywaidd).

Tabl 38 Cefndir profiad dysgu

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Statws cyflogaeth	Cyflogedig / hunangyflogedig	91
	Ddim yn gyflogedig	9
Cymhwyster uchaf	Dim	7
	Lefel mynediad / Lefel 1	21
	Lefel 2	40
	Lefel 3	21
	Lefel 4+	7
	Arall	4
Cyfrifoldebau gofalu	Plant	25
	Plant o dan bump oed	11
	Plant dros bump oed	18
	Oedolion	5
	Dim	72

Nodweddion cwrs

O ganlyniad i'r dull samplu, erbyn i'r cyfweiliad gael ei gynnal nid oedd cyfran o'r ymatebwyr ar eu cwrs mwyach. Felly, roedd ychydig dros dri chwarter (77%) y rhai a gyfwelwyd yn dal i fod ar eu rhaglen hyfforddi, roedd un o bob pump (20%) wedi cwblhau eu hyfforddiant yn llawn ac roedd 3 y cant arall wedi gadael eu rhaglen yn gynnar.

Math o raglen

O'r wybodaeth yn y sampl, roedd yn hysbys bod ymatebwyr yn dilyn rhaglenni hyfforddi gwahanol fel a ganlyn:

Prentisiaeth Fodern	38%
Prentisiaeth Fodern Sylfaenol	45%
Adeiladu Sgiliau	11%
Rhaglen arall	7%

Sut y cyflwynwyd rhaglen


Cyflwynwyd rhaglenni DSW mewn sawl ffordd. Roedd pedwar o bob deg o ymatebwyr DSW (42%) yn mynychu sesiynau mewn coleg AB, tra roedd 14 y cant yn cael hyfforddiant gan ddarparwr preifat. Cafodd chwech o bob deg o ymatebwyr DSW (59%) eu hyfforddiant yn eu gweithle. Mewn nifer o achosion, cyflwynwyd yr hyfforddiant mewn sawl ffordd: roedd 14 y cant o ymatebwyr yn cael hyfforddiant yn eu gweithle ac mewn coleg AB, tra roedd 4 y cant o ymatebwyr yn cael hyfforddiant yn y gweithle a chan ddarparwr preifat.

Tabl 39 Sut y cyflwynwyd rhaglen

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Statws dysgu	Ar y cwrs o hyd	77
	Wedi'i gwblhau'n llawn	20
	Ymadawr cynnar	3
Darparu hyfforddiant	Coleg AB	42
	Darparwr hyfforddiant preifat	14
	Gweithle	59

Fel y dangosir yn y siart ganlynol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr ar raglenni hyfforddi a oedd yn para mwy na blwyddyn: roedd dros draean (37%) ar raglenni a oedd yn para mwy na blwyddyn a hyd at ddwy flynedd, tra bod traean (33%) ar raglenni a oedd yn para mwy na dwy flynedd. Roedd un o bob chwech o ymatebwyr (17%) ar raglenni a oedd yn para mwy na chwe mis a hyd at flwyddyn, tra bod 7 y cant ar raglenni byrrach a oedd yn para hyd at chwe mis.

Siart 21 Hyd rhaglen




Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)

Pynciau a chymwysterau

Gofynnwyd i bob ymatebydd nodi pa bynciau roeddent yn eu hastudio ac fe'u categoriwyd yn gategorïau pwnc eang (felly efallai y gallai ymatebwyr a oedd yn astudio mwy nag un pwnc fod wedi cael eu cynnwys mewn mwy nag un categori). Roedd tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr DSW (38%) yn dilyn cyrsiau adeiladu, cludiant neu beirianneg a gweithgynhyrchu, tra roedd ychydig o dan chwarter (22%) ar gyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant.

Siart 22 Meysydd pwnc



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507). Noder y caniatwyd rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn.

Fel y dangosir yn y tabl canlynol, roedd gwahaniaethau mawr rhwng y rhywiau ac o ran oedran ym mhroffil ymatebwyr a oedd yn astudio gwahanol bynciau.

- Yn nodedig, roedd saith o bob deg (69%) o ymatebwyr ar gyrsiau adeiladu, cludiant neu beirianeg a gweithgynhyrchu (o gymharu â dim ond 1% o ymatebwyr benywaidd). Yn arbennig, roedd hyn yn cyfrif am bedair rhan o bump (79%) o'r ymatebwyr gwrywaidd rhwng 16 a 18 oed a chyfran debyg (82%) o ymatebwyr gwrywaidd rhwng 19 a 24 oed a mwy na hanner y sampl gyffredinol o ymatebwyr o dan 25 oed (56%).
- Roedd mwy na phedwar o bob deg o ymatebwyr benywaidd (43%) ar gyrsiau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (o gymharu â 4% o ymatebwyr gwrywaidd). Tra bod traean o'r holl ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn (33%) yn astudio'r pwnc hwn, roedd tua thraean o'r ymatebwyr benywaidd rhwng 16 a 18 oed (34%) a thua hanner yr ymatebwyr benywaidd rhwng 19 a 24 oed (49%) yn astudio'r pwnc hwn.
- Yn yr un modd, roedd ymatebwyr benywaidd a'r rhai 25 oed neu'n hŷn hefyd yn fwy tebygol o astudio pynciau'n ymwneud â Rheoli, Busnes, Materion Gweinyddol a'r Gyfraith (roedd 20% o ymatebwyr benywaidd a 26% o'r holl ymatebwyr 25 oed neu'n hŷn yn astudio'r pwnc hwn o gymharu â 9% o ymatebwyr gwrywaidd, 8% o'r holl ymatebwyr rhwng 19 a 24 oed a 4% rhwng 16 a 18 oed).

- Roedd ymatebwyr benywaidd hefyd yn fwy tebygol o astudio pynciau Manwerthu, Dosbarthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid (19% o gymharu â 6% o ymatebwyr gwrywaidd) a Lletygarwch ac Arlwyo (7% o gymharu â 3% o ymatebwyr gwrywaidd).

Tabl 40 Meysydd pwnc yn ôl rhyw ac oedran

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Rhyw		Oedran		
		Gwryw	Benyw	16-18	19-24	25+
Sylfaen heb ei phwysoli	1507	806	701	423	458	626
	%	%	%	%	%	%
Gwaith adeiladu / Cludiant / Peirianeg a Gweithgynhyrchu	38	69	1	55	57	12
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	22	4	43	12	17	33
Busnes, Rheoli, Materion Gweinyddol a'r Gyfraith	14	9	20	4	8	26
Manwerthu, Dosbarthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	12	6	19	13	10	12
TGCh	5	5	6	5	6	6
Lletygarwch ac Arlwyo	5	3	7	2	3	8
Arall	12	12	11	16	10	10

Roedd nifer o dueddiadau allweddol hefyd yn amlwg rhwng y pwnc a hyd y rhaglen hyfforddi (gweler Tabl 41). Yn arbennig, nodwyd y canlynol:

- Roedd 68 y cant o raglenni Adeiladu / Cludiant / Peirianeg a Gweithgynhyrchu yn para mwy na dwy flynedd.
- Roedd hyfforddiant TGCh yn fwy tebygol o gael ei gyflwyno ar ffurf cyrsiau byrrach na phynciau eraill, gyda 28% o raglenni TGCh yn para hyd at chwe mis.
- Roedd tua hanner yr ymatebwyr a oedd yn cael hyfforddiant yn y pynciau canlynol ar raglenni a oedd yn para mwy na blwyddyn a hyd at ddwy flynedd:
 - Lletygarwch ac Arlwyo (56%)
 - Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (54%)
 - Busnes, Rheoli, Materion Gweinyddol a'r Gyfraith (49%)

Tabl 41 Hyd rhaglen yn ôl meysydd pwnc

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Pwnc						
		Gwaith adeiladu / Cludiant / Peirianeg a Gweithgynhyrchu	Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	Lletygarwch ac Arlwyo	TGCh	Rheoli, Busnes, Materion Gweinyddol a'r Gyfraith	Manwerthu, Dosbarthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	Arall
Sylfaen heb ei phwysoli	1,507	566	336	78	81	217	175	175
	%	%	%	%	%	%	%	%
Hyd at chwe mis	7	2	7	5	28	4	11	14
Mwy na chwe mis a hyd at flwyddyn	17	7	25	18	27	18	23	21
Mwy na blwyddyn a hyd at ddwy flynedd	37	19	54	56	19	49	42	35
Mwy na dwy flynedd	33	68	8	6	22	21	14	25
Dim terfyn amser/amser wedi'i bennu	3	3	3	6	2	5	3	2

Mae Tabl 42 yn dangos y math o gymhwyster a lefel y cymhwyster a oedd yn cael ei astudio gan ymatebwyr DSW. Roedd bron naw o bob deg (88%) yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ ac roedd un o bob pump (19%) yn anelu at gymwysterau eraill. Roedd un o bob deg (10%) yn gweithio tuag at gymhwyster lefel mynediad neu lefel 1, tra roedd pedwar o bob deg (39%) yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2. Roedd rhaglenni pedwar o bob deg (41%) o ymatebwyr eraill yn arwain at gymhwyster lefel 3 ac roedd un o bob ugain yn hyfforddi ar lefel 4 neu uwch.

Tabl 42 Cymwysterau a hyd cwrs

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Y math o gymhwyster	NVQ	88
	Arall	19
Lefel y cymhwyster	Lefel mynediad / lefel 1	10
	Lefel 2	39
	Lefel 3	41
	Lefel 4+	5

Sgiliau Cymraeg a dewisiadau dysgu

Fel y dangosir yn y tabl canlynol, roedd 12 y cant o ymatebwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl a gallai 6 y cant arall siarad cryn dipyn. Roedd mwy na hanner (54%) yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig ac ni allai dros chwarter yr ymatebwyr (28%) siarad unrhyw Gymraeg.

Pan ofynnwyd pa mor dda y gallent ysgrifennu yn Gymraeg, nododd 8 y cant o ymatebwyr 'da iawn', nododd 17 y cant 'cymharol dda' a nododd 22 y cant 'ddim yn dda'. Ni allai mwy na hanner yr ymatebwyr (53%) ysgrifennu yn Gymraeg.

Tabl 43 Sgiliau Cymraeg

Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)		%
Lefel Cymraeg lafar	Siarad Cymraeg yn rhugl	12
	Siarad cryn dipyn	6
	Dim ond ychydig/ychydig o eiriau	54
	Ddim yn siarad Cymraeg	28
Lefel Cymraeg ysgrifenedig	Da iawn	8
	Yn gymharol dda	17
	Ddim yn dda	22
	Ddim yn gallu ysgrifennu yn Gymraeg	53

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a allai siarad **unrhyw** Gymraeg nodi pa iaith roeddent yn ei siarad fel arfer gartref, yn gymdeithasol ac yn y gwaith.

Tabl 44 Sgiliau Cymraeg (yr iaith a siaredir fwyaf)

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai na allent siarad unrhyw Gymraeg (heb ei phwysoli: 1,085)		%
Iaith a siaradwyd gartref fel arfer	Cymraeg	6
	Defnydd cyfartal o Gymraeg a Saesneg	3
	Saesneg	91
Iaith a siaradwyd yn y gwaith fel arfer	Cymraeg	5
	Defnydd cyfartal o Gymraeg a Saesneg	7
	Saesneg	87
Iaith a siaradwyd fel arfer y tu allan i'r gwaith a'r cartref (e.e. mewn sefyllfa gymdeithasol)	Cymraeg	4
	Defnydd cyfartal o Gymraeg a Saesneg	6
	Saesneg	90

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi sawl agwedd, os o gwbl, ar eu hyfforddiant a oedd ar gael yn Gymraeg. Yn Nhabl 45, dangosir bod cyfran uchel o ymatebwyr (rhwng 11% ac 20%) wedi dweud nad oeddent yn gwybod i ba raddau yr oedd pob agwedd ar gael yn Gymraeg.

Tabl 45 Darpariaeth Gymraeg mewn rhai agweddau ar hyfforddiant

Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)	Cyfathrebu llafar mewn sesiynau neu wersi	Deunyddiau ysgrifenedig, taflenni a nodiadau	Cymorth gan hyfforddwyr neu diwtoriaid y tu allan i sesiynau
	%	%	%
Pob un	24	26	21

Rhywfaint	19	21	19
Dim	42	36	37
Ddim yn gymwys	5	4	4
Ddim yn gwybod	11	13	20


Yn y tabl nesaf ceir yr ymatebion sy'n ailseiliedig ar yr holl ymatebwyr a oedd yn gallu rhoi ateb (h.y. heb gynnwys y rhai a ddywedodd nad oeddent yn gwybod neu nad oedd yn gymwys). Deunyddiau ysgrifenedig, taflenni a nodiadau oedd ar gael fel arfer yn Gymraeg (dywedodd 56% fod y deunyddiau ysgrifenedig i gyd neu rai ohonynt ar gael yn Gymraeg). Roedd hyn yn sylweddol uwch na 'cymorth gan hyfforddwyr neu diwtoriaid y tu allan i sesiynau' (dywedodd 52% fod y cymorth i gyd neu ran ohono ar gael yn Gymraeg) neu 'cyfathrebu llafar mewn sesiynau neu wersi' (dywedodd 51% fod y cyfathrebu i gyd neu ran ohono ar gael yn Gymraeg).

Tabl 46 Darpariaeth Gymraeg mewn rhai agweddau ar hyfforddiant

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai a atebodd 'Ddim yn gymwys' neu 'ddim yn gwybod'	Cyfathrebu llafar mewn sesiynau neu wersi	Deunyddiau ysgrifenedig, taflenni a nodiadau	Cymorth gan hyfforddwyr neu diwtoriaid y tu allan i sesiynau
Sylfaen heb ei phwysoli:	1,278	1,244	1,154
	%	%	%
Pob un	28	31	27
Rhywfaint	22	25	25
Dim	49	44	48

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi faint o'u dysgu yr hoffent iddo fod ar gael yn Gymraeg. Fel y dangosir yn y tabl canlynol, byddai'n well gan 1 y cant o'r holl ymatebwyr fod eu holl ddysgu ar gael yn Gymraeg a byddai'n well gan 6 y cant fod rhywfaint ar gael yn Gymraeg. Dywedodd dwy ran o dair (68%) y byddai'n well ganddynt beidio â chael unrhyw Gymraeg ac nid oedd chwarter yr ymatebwyr (25%) yn poeni'r naill ffordd neu'r llall.

Siart 23 Dewis o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg



Sylfaen: Pob ymatebydd (heb ei phwysoli: 1,507)

Atodiad C: Cymhwysedd ar gyfer rhaglenni DSW a manylion y math o raglenni³⁴

Mae'r unigolion hynny sydd wedi gadael yr ysgol yn gyfreithlon ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, neu'r unigolion hynny y mae eu swydd neu eu lleoliad gwaith yng Nghymru, yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer pob oedran.

Ni chaiff unigolion ddilyn y rhaglenni os ydynt:-

- o oedran ysgol gorfodol; neu
- yn mynychu ysgol neu goleg yn amser llawn fel disgybl neu fyfyrwr; neu
- mewn addysg uwch amser llawn; neu
- yn wladolyn anghymwys o dramor; neu
- yn y ddalfa neu ar remand; neu
- yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad; neu
- yn cael cefnogaeth gweithgarwch Parth Cyflogaeth; neu
- yn cymryd rhan mewn unrhyw raglen dysgu neu fenter cyflogaeth a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU neu Weinidogion Cymru; neu
- yn cymryd rhan mewn unrhyw raglenni hyfforddiant galwedigaethol eraill a ariennir gan yr UE;

Rhaglenni nas Arweinir gan Fframwaith

Adeiladu Sgiliau

Mae Adeiladu Sgiliau yn targedu dysgwyr nad ydynt yn gweithio ac sydd am ddysgu sgiliau galwedigaethol, a/neu nad oes ganddynt ffocws galwedigaethol a bod angen lleoliadau blas ar waith arnynt neu fod ganddynt ddiffyg hyder, cymhelliant gwael neu Sgiliau Sylfaenol gwael. Mae'r rhaglen Adeiladu Sgiliau yn cwmpasu:

- Nodi rhwystrau dysgu sy'n atal y dysgwr rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu galwedigaethol ar lefel 1, 2 neu 3
- Nodi a diwallu angen Sgiliau Sylfaenol;
- Cyfleoedd dysgu sy'n rhoi'r ystod o sgiliau hyblyg sydd eu hangen ar ddysgwyr i'w galluogi i gyfrannu at y gweithlu a chymdeithas yn well;

³⁴ Daw'r wybodaeth o <http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/090908wblprogrammespecv3en.pdf>

- Dysgu galwedigaethol hyd at lefel alwedigaethol 1, 2 neu 3.

Dysgu Cyn Prentisiaeth

Rhaglen sy'n galluogi dysgwyr cyflogedig i ddatblygu Sgiliau Sylfaenol ar ôl cael eu hasesu yn rhai na allant ddilyn rhaglenni a arweinir gan fframwaith yn syth yw Dysgu Cyn Prentisiaeth. Dim ond y canlynol y gall dysgwyr ei wneud:

- y Dystysgrif mewn Llythrennedd Oedolion a/neu'r Dystysgrif mewn Rhifedd Oedolion ar lefelau mynediad 1, 2 a/neu 3 (yn ystod y cyfnod dysgu, dim ond y lefel uchaf a gyflawnir y gellir ei hariannu) ac/os yw'n angenrheidiol;
- Sgiliau Allweddol lefel 1 ym maes Cyfathrebu a/neu Gymhwyso Rhif lefel 1 a/neu;
- Cymhwyster a gymeradwyir ar lefel alwedigaethol 1 fel y nodwyd yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Adran 96/97) ac sy'n berthnasol i'r rôl gyfredol.

Rhaglenni a Arweinir gan Fframwaith

Prentisiaethau Modern Sylfaenol

Rhaglen dysgu seiliedig ar gyflogaeth ar lefel 2 yw Prentisiaeth Fodern sy'n dilyn fframwaith a ddatblygwyd gan y Cyngor Sgiliau Sector perthnasol ac a gymeradwywyd gan y Grŵp Cymeradwyo a Chynghori sy'n nodi'r dysgu, gan gynnwys Sgiliau Allweddol a thystysgrifau technegol (lle y bo'n berthnasol).

Fel rhan o fframwaith y Prentisiaeth Fodern Sylfaenol, gall dysgwr astudio ar gyfer cymhwyster cymeradwy ar lefel 3 fel cymhwyster ychwanegol. Mae'n rhaid i'r hyn a ddysgir fod yn berthnasol i anghenion y dysgwr a'r cyflogwr.

Prentisiaethau Modern

Rhaglen dysgu seiliedig ar gyflogaeth i ddysgwyr cyflogedig ar lefel 3 yw Prentisiaeth Fodern Sylfaenol sy'n dilyn fframwaith a ddatblygwyd gan y Cyngor Sgiliau Sector diwydiant perthnasol ac a gymeradwywyd gan y Grŵp Cymeradwyo a Chynghori. Mae'r fframweithiau'n nodi'r dysgu, gan gynnwys Sgiliau Allweddol a thystysgrifau technegol (lle y bo'n berthnasol), sy'n angenrheidiol gan y sector diwydiannol priodol.

Gall dysgwr gychwyn ar y rhaglen Prentisiaeth Fodern a dilyn llwybr lefel 2 (yn ogystal â chymhwyster galwedigaethol lefel 3) y byddai'r dysgwr wedi'i ddilyn beth bynnag petai wedi dysgu ar lefel Prentisiaeth Fodern Sylfaenol yn gyntaf.

Diploma Sgiliau Modern

Rhaglen seiliedig ar gyflogaeth i ddysgwyr cyflogedig yw Diploma Sgiliau Modern. Mae'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr wella eu sgiliau a'u gwybodaeth ar lefel 4.

Atodiad C: Crynodeb Technegol

Dull

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Dewiswyd gwneud hyn yn hytrach na dulliau eraill o gasglu data am sawl rheswm:

- mae'r ymateb yn llawer gwell nag ar gyfer holiadur hunangwblhau drwy'r post, felly gellir cynnwys mwy o ddysgwyr
- mae'n ei gwneud yn bosibl dewis sampl o ddysgwyr DSW heb ei chlystyru y gellid ei monitro'n ofalus drwy waith maes
- roedd y pwnc dan sylw yn addas ar gyfer cyfweiliadau dros y ffôn a wnaeth roi'r cyfle i ni holi cwestiynau agored a mynd ar drywydd mwy cymhleth nag a fyddai'n ymarferol drwy arolwg papur

Datblygu'r holiadur

Roedd yr arolwg yn para 20 munud ar gyfartaledd. Seiliwyd yr holiadur ar Arolwg Cenedlaethol 2003 o Fodddhad Dysgwyr yng Nghymru gan wneud rhai newidiadau yn dilyn gweithdy gyda darparwyr DSW ym mis Ionawr 2008, lle y cawsant y cyfle i leisio barn ar gynnwys yr holiadur ar gyfer yr arolwg newydd. Lluniwyd yr holiadur terfynol ar y cyd â thîm prosiect APADGOS a'r prif bynciau a drafodwyd yn yr arolwg oedd:

- manylion am y rhaglen neu'r hyfforddiant
- ymadawyr cynnar
- dewis, disgwyliadau a chynghor a gafwyd cyn dechrau'r hyfforddiant
- boddhad â'r darparwr hyfforddiant
- boddhad â'r cymorth a gafwyd gan y cyflogwr
- problemau a gafwyd ar y rhaglen
- boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu a ph'un a fodlonwyd disgwyliadau'r rhaglen ai peidio

Cafodd yr holiadur ei dreialu cyn dechrau'r gwaith maes er mwyn sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu deall yn gywir gan yr ymatebwyr a hefyd er mwyn profi hyd y cyfweiliad. Cynhaliwyd 25 o gyfweiliadau peilot rhwng 18^{fed} ac 21^{ain} Chwefror 2009. Adolygwyd recordiadau o'r cyfweiliadau gan dîm y prosiect a wnaeth hefyd ffonio sawl un o'r ymatebwyr yn dilyn hynny a oedd wedi cytuno i hynny. Defnyddiwyd y sgysiau hyn ag ymatebwyr i fireinio geiriad yr holiadur ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ac ychwanegu esboniadau lle y bo angen. Cafodd APADGOS gyfres o argymhellion yn dilyn yr holiadur peilot y cytunwyd arnynt cyn mynd ati i newid yr arolwg ar gyfer y prif gam.

Gellir lawrlwytho copi o'r holiadur llawn o wefan rhaglen ymchwil ymhlith cwsmeriaid APADGOS: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/customer-research>.

Er mwyn gwneud yr arolwg mor hygyrch â phosibl i bob ymatebydd, lluniwyd fersiwn byrrach o'r holiadur dros y ffôn (dilewyd rhai cwestiynau), yn para 10 munud ar gyfartaledd (gweler yr is-adran ar Waith maes).

Ffynhonnell y sampl a'r weithdrefn samplu

Defnyddiodd GfK NOP Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i greu'r sampl o ddysgwyr DSW³⁵. Mae Hysbysiad Prosesu Teg (HPT) yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a dim ond y dysgwyr hynny a wnaeth gytuno y gellid defnyddio eu manylion at ddibenion ailgysylltu a gafodd eu cynnwys yn y sampl.

Nid oedd byth yn fwriad gan APADGOS i samplu dysgwyr DSW mewn niferoedd digonol i allu dadansoddi darparwyr, oherwydd roedd yn hysbys o drafodaethau blaenorol na fyddai'n bosibl cynnal digon o gyfweiliadau ar gyfer llawer o'r darparwyr llai. Roedd a wnelo dyluniad cychwynnol y sampl â llunio sampl haenog ar sail 4.7:1 (h.y. am bob cyfweiliad a gwblhawyd, byddai pedwar dysgwr yn cael eu dewis), ond oherwydd cyfyngiadau'r HPT, yn hytrach na llunio sampl fel hyn, defnyddiwyd holl gofnodion dysgwyr DSW ar gyfer y cyfweiliadau.

Mae'n bwysig cydnabod, o ystyried y nifer fawr o ddysgwyr na wnaethant gytuno, mai dim ond arolwg o'r dysgwyr a gytunodd i gymryd rhan mewn gwaith dilynol yw arolwg Llais y Dysgwr 2009. Rhydd y tablau canlynol fanylion rhai newidynnau dadansoddi allweddol ar gyfer y rhai a wnaeth gytuno a'r rhai na wnaethant gytuno³⁶.

Tabl 47 Oedran o fewn rhyw'r unigolyn

Grŵp Oedran	Heb gytuno			Wedi cytuno		
	cyfanswm %	B	G	cyfanswm %	B	G
16-17	23	17	30	25	17	33
18	25	21	30	31	21	40
19	19	20	17	17	22	14
20-24	18	23	13	14	21	8
25-29	12	15	8	9	15	4
30-39	3	3	2	2	4	1
Cyfanswm	100	100	100	100	100	100
		Benyw	Gwryw		Benyw	Gwryw
		53%	47%		47%	53%

³⁵ casglwyd gan APADGOS ac mae'n darparu'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr ôl-16 (nad ydynt mewn addysg uwch) yng Nghymru.

³⁶ mae'r wybodaeth hon yn deillio o rewi Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar sail ragarweiniol ar 31^{ain} Hydref 2008

Tabl 48 Dull dysgu

LP07	% Heb gytuno	% Wedi cytuno
01 darpariaeth barhaus, yn ystod y dydd	10	4
02 darpariaeth barhaus, gyda'r nos yn unig	0	0
03 darpariaeth barhaus - arall	1	0
04 darpariaeth barhaus yn y gweithle	88	96
05 cwrs rhyngosod	0	0
06 rhyddhad bloc	0	

Tabl 49 Math o raglen gyffredinol

LP17	% Heb gytuno	% Wedi cytuno
01 Prentisiaeth Fodern	35	36
02 Prentisiaethau Modern Sylfaenol	45	47
03 Gwaith Paratoi Adeiladu Sgiliau	0	0
04 Adeiladu Sgiliau Lefel 1	0	0
05 Diploma Sgiliau Modern	4	4
06 Ardystiad WBLA	0	0
08 rhaglen DSW arall	3	2
09 Gwaith Paratoi Dysgu (wedi'i farchnata fel Adeiladu Sgiliau)	0	0
10 Dysgu Sgiliau (wedi'i farchnata fel Adeiladu Sgiliau+)	0	0
14 Addysg alwedigaethol heb ei nodi neu gymysg	0	0
21 Adeiladu Sgiliau	14	10
22 Dysgu Cyn Prentisiaeth	0	0
80 Bagloriaeth Cymru	0	0
91 rhaglen arall	0	0

Gan ddefnyddio Cronfa Dysgu Gydol Oes Cymru fel yr oedd pan gafodd ei rhewi ar 31ain Rhagfyr 2008, dadansoddodd GfK NOP y cofnodion oedd ar gael ar gyfer dysgwyr DSW. Ar ôl hepgor y dysgwyr nad oeddent yn bodloni'r meini prawf³⁷, cynhaliwyd proses ailddyblygu. Cafodd dysgwyr â dau neu fwy cofnod dysgu eu dewis ar sail y math o raglen a ddilynwyd ganddynt (rhoddwyd blaenoriaeth i'r mathau o raglenni y gellid eu nodi, h.y. nid 'rhaglen arall' yn LP17) ac, yn ail, eu dyddiad dysgu (rhoddwyd blaenoriaeth i raglenni a oedd yn gyfredol yn ôl Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn hytrach na'r rhai a ddylai fod wedi gorffen). O ganlyniad, cafodd 7,133 o ddysgwyr DSW eu cynnwys yng nghwmpas yr arolwg.

³⁷ Sef, y rhai na wnaethant gytuno i gymryd rhan mewn gwaith dilynol drwy'r Hysbysiad Prosesu Teg a oedd yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, y rhai o dan 16 oed, dysgwyr a oedd wedi marw, y rhai heb rif ffôn dilys a'r rhai nad oedd modd nodi lle roeddent yn byw.

Y broses a argymhellwyd o ran samplu dysgwyr DSW oedd haenu'r sampl fesul rhanbarth, ac ymhob rhanbarth ei haenu yn ôl:

- Rhyw
- Oedran - pedwar categori: 16-18/19-24/25 – 34/35+
- Ethnigrwydd - dau categori: ddim yn wyn a gwyn/ddim yn gwybod
- Anabledd/anhawster dysgu: ie neu na/ddim yn gwybod
- Rhaglen – pum categori fel y nodir yn y tabl uchod
- Dull dysgu - dau categori: darpariaeth barhaus yn y gweithle/ darpariaeth barhaus, arall

Penderfynwyd llunio'r sampl ar sail cymhareb 4.7:1 (h.y. 4 dysgwr i sicrhau un cyfweliad gan ganiatáu bod 85% o ddysgwyr y sampl yn ddilys). Fodd bynnag, o ystyried nifer y dysgwyr oedd ar gael, ni chynhaliwyd ymarfer samplu, ac roedd y sampl DSW gyfan ar gael (fesul carfan) gyda'r nod o gyflawni targedau'r cyfweliad a bennwyd fesul cell haenu (0). Er y byddem fel arfer yn argymhellu gorsamplu newidynnau penodol (megis gwyn/ ddim yn wyn) er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal dadansoddiad mwy cadarn, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd mai prin oedd nifer y dysgwyr oedd ar gael.

Tabl 50 Cyfweld â thargedau yn ôl newidynnau allweddol (n=1500)

Newidyn haenu	%	Nifer y cyfweiliadau (yn cynrychioli nifer y dysgwyr oedd ar gael) n=1500)	Cywirdeb ar lefel hyder o 95% (canlyniad arolwg o 50%)
Rhanbarth			
Gogledd Cymru	21	320	+/-4.9
De Cymru	22	323	+/-4.8
De-ddwyrain Cymru	19	278	+/-5.2
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	39	578	+/-3.6
cyfanswm		1500	
Oedran o fewn rhyw'r unigolyn			
Ymatebwyr benywaidd 16-18 oed	9	128	+/-7.7
Ymatebwyr benywaidd 19-24 oed	10	143	+/-7.3
Ymatebwyr benywaidd 25-34 oed	10	147	+/-7.2
Ymatebwyr benywaidd 35-54 oed	17	Ymatebwyr benywaidd 35+ =278	+/-5.2
Ymatebwyr benywaidd 55+	2		
Ymatebwyr gwrywaidd 16-18 oed	19	291	+/-5.1
Ymatebwyr gwrywaidd 19-24 oed	21	314	+/-4.9
Ymatebwyr gwrywaidd 25-34 oed	7	101	+/-8.7
Ymatebwyr gwrywaidd 35-54 oed	6	Ymatebwyr gwrywaidd 35+ = 99	+/-8.8
Ymatebwyr gwrywaidd 55+	1		
cyfanswm		1500	
Ethnigrwydd			
Gwyn/ddim yn gwybod	98	1470	+/-2.3

Ddim yn wyn	2	30	+/-15.9
cyfanswm		1500	
Dull dysgu			
Darpariaeth barhaus yn y gweithle	96	1431	+/-2.3
Darpariaeth barhaus, yn ystod y dydd	4		
Darpariaeth barhaus, gyda'r nos yn unig	0	69	+/-10.5
Darpariaeth barhaus - arall	0		
Rhyddhad bloc	0		
cyfanswm		1500	
Math o raglen gyffredinol			
Prentisiaeth Fodern	37	550	+/-3.7
Prentisiaethau Modern Sylfaenol	46	680	+/-3.3
Diploma Sgiliau Modern	5	70	+/-10.4
Gwaith Paratoi Adeiladu Sgiliau	0		
Gwaith Paratoi Dysgu (wedi'i farchnata fel Adeiladu Sgiliau)	0	Adeiladu Sgiliau=166	+/-6.8
Dysgu Sgiliau (wedi'i farchnata fel Adeiladu Sgiliau+)	0		
Adeiladu Sgiliau	11		
Ufl	0		
Bagloriaeth Cymru	0	Rhaglen arall = 34	+/-15.0
Rhaglen DSW arall	2		
cyfanswm		1500	
Anabledd/anhawster dysgu			
le ¹	3	51	+/-12.2
Na/ddim yn gwybod	97	1449	+/-2.3
cyfanswm		1500	

Noder: ¹ mae hyn yn cwmpasu pob cod ym maes LP30 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru heblaw am 91, 98 a 99.

Gwaith maes

Cafodd cyfanswm o 1,507 o ddysgwyr DSW eu cyfweid dros y ffôn rhwng 9^{fed} Mawrth a 24^{ain} Ebrill 2009. Roedd pob cyfwelydd wedi cael hyfforddiant IQCS ynghyd â sesiwn wyneb yn wyneb gydag aelod o dîm gweithredol GfK NOP. Defnyddiwyd y briff i roi cefndir a diben yr arolwg i'r cyfwelwyr, ynghyd â gweithdrefnau cyfweid a'r holiadur ei hun. Cynhaliodd pob cyfwelydd gyfweiliad ffug cyn gweithio ar y sampl fyw.

Ar ddechrau'r cyfweiliad, cafodd yr ymatebwyr gynnig cyfweiliad Cymraeg. Ailgyssylltwyd â'r rhai hynny a oedd am gael cyfweiliad yn Gymraeg gan gyfwelydd Cymraeg yn ddiweddarach. Cynhaliwyd 27 o gyfweiliadau yn Gymraeg ymhlith ymatebwyr DSW.

Er mwyn gwneud yr arolwg mor hygyrch â phosibl i bob dysgwr DSW, cafodd yr ymatebwyr hynny y nodwyd yn sampl Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru³⁸ bod ganddynt anawsterau dysgu neu anabledau penodol lythyr ymlaen llaw yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn cyfweiliad 10 munud byrrach os oeddent yn credu na fyddai'r cyfweiliad llawn yn addas ar eu cyfer. Roedd hefyd yn bosibl iddynt ofyn am gyfweiliad wyneb yn wyneb os na fyddai cyfweiliad dros y ffôn yn briodol yn eu barn hwy. Cynigiwyd yr opsiynau hyn i ymatebwyr â'r mathau canlynol o anabledau ac anawsterau dysgu ym maes LP30 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (dangosir y codau mewn cromfachau isod):

- nam ar y clyw (codau 2 a 22)
- anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (codau 6 a 24)
- nam aml-synhwyrol (codau 10 a 25)
- anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (codau 11 a 26)
- anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu (codau 12 a 27)
- anawsterau dysgu difrifol (cod 29)
- anawsterau dysgu dwys a lluosog (cod 30)

Ni ofynnodd dysgwyr DSW am gyfweiliadau byr na chyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Ymateb

Gan nad oedd y sampl yn un seiliedig ar debygolrwydd cwbl ar hap byddai'n gamarweiniol cyfeirio at gyfraddau ymateb. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi canlyniadau'r sampl dan sylw:

Tabl 51 Canlyniadau'r sampl

Cyfanswm y sampl dan sylw	6700
Cyfanswm y sampl heblaw am y dysgwyr nad oeddent yn bodloni meini prawf y celloedd haenu	4403
Anghymwys am gyfweiliad (rhif anghywir, ddim ar gael yn ystod y gwaith maes, ac ati)	1329

³⁸ Cymerwyd o faes LP30, dangosir codau mewn cromfachau

Wedi gwrthod	445
Cyfweliadau a gynhaliwyd	1507

Pwysoli

Adolygwyd y data terfynol yn erbyn y proffil o ddysgwyr AB ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a oedd wedi cytuno i weithgareddau ailgysylltu³⁹. Dangosodd y gymhariaeth hon fod y sampl a gyflawnwyd yn debyg iawn i'r proffil hwn o ddysgwyr ac felly nid oedd angen pwysoli er mwyn gwneud y sampl yn gynrychioliadol.

Ymadawyr cynnar

Yn 2003, roedd y sampl o IRL wedi'i rewi mewn perthynas â dysgwyr presennol; erbyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal roedd cyfran o'r rhain wedi gadael eu cwrs. Gwnaed yr un peth yn 2009 a chyfeirir at y rhai a wnaeth adael eu cwrs rhwng llunio'r sampl a chynnal y cyfweliadau fel 'ymadawyr cynnar' yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn ei hanfod mae'r arolwg yn arolwg o ddysgwyr presennol ac ymadawyr 'diweddar'.

Cymariaethau ag Arolwg Cenedlaethol 2003 o Fodddhad Dysgwyr

Yn 2003, deilliodd y sampl DSW o'r Gronfa Ddata Genedlaethol o Hyfforddeion a lluniwyd sampl haenog ar hap o 4,000 o enwau o fan cychwyn ar hap cyfrifiadurol. Cafodd dysgwyr yng Nghanolbarth Cymru eu gorsamplu a chywirwyd hyn drwy bwysoli'r canlyniadau ar y cam dadansoddi. Felly, roedd sampl 2003 yn wahanol i sampl 2009, oherwydd, gyda'r olaf, defnyddiwyd pob dysgwr oedd ar gael ac nid oedd y sampl gyffredinol o reidrwydd yn cynrychioli pob dysgwr DSW yng Nghymru. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu na chymherir canlyniadau arolwg 2003 â chanlyniadau 2009 yn yr adroddiad hwn.

³⁹ Drwy'r Hysbysiad Prosesu Teg a oedd yn gymwys i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Atodiad Ch: Tablau data

Tabl 52 Ai'r darparwr oedd y dewis cyntaf yn ôl bodddhad â'r profiad dysgu

Pob ymatebydd	Cyfanswm	Bodddhad â'r profiad dysgu		
		Hynod fodlon/ bodlon iawn	Eithaf bodlon	Didaro/ anffodlon
Cyfanswm sylfaen heb ei phwysoli	1507	1131	283	91
	%	%	%	%
Ie, fy newis cyntaf	58	63	48	38
Na, nid fy newis cyntaf	4	3	2	2
Nid oedd gen i ddewis gan fod fy nghyflogwr wedi dewis ar fy rhan	29	26	37	38
Nid oedd gen i ddewis gan fod y Ganolfan Byd Gwaith wedi dewis ar fy rhan	2	2	4	3
Nid ystyriais unrhyw opsiwn arall	7	6	8	16
Ddim yn gwybod	*	*	1	1

Noder: * yn dynodi < 0.5%.

Tabl 53 Rhesymau dros ddewis eu darparwr yn ôl oedran

Sylfaen: Pob ymatebydd heblaw am y rhai y dewisodd eu cyflogwr/y Ganolfan Byd Gwaith eu darparwr	Cyfanswm	Oedran				
		16-18	19-24	25-34	35-44	45+
Heb ei phwysoli	1038	358	326	145	102	107
	%	%	%	%	%	%
Lleoliad cyfleus/agosaf	32	26	29	40	44	32
Cefais gynnig yr hyfforddiant roeddwn am ei wneud	18	22	16	12	16	20
Enw da (yn gyffredinol)	15	12	17	12	14	21
Ffrindiau'n mynd yno/ffrindiau wedi ei argymhell	12	15	12	9	11	8

Dim dewis - cyflogwr wedi ei ddewis	10	4	11	13	15	17
Cynghorydd gyrfaoedd/ysgol wedi ei argymell	7	13	6	3	2	4
Dim dewis - dim darparwyr eraill yn yr ardal	5	5	6	6	5	3
Enw da ar gyfer fy nghwrs	5	3	6	6	3	5
Wedi bod i'r coleg/ar gyrsiau eraill o'r blaen	4	*	4	6	9	7
Cwrs am ddim/yn rhad/cael fy nhalu i'w wneud.	3	2	4	5	4	1
Cynnig cyrsiau pan fo'n gyfleus i mi	3	3	2	1	7	3

Noder: * yn dynodi <0.5%. Rhesymau a roddwyd gan 3% o ymatebwyr neu fwy.

Tabl 54 Rhesymau dros fod yn anfodlon ar gyflogwr yn ôl rhyw a chyfrifoldebau gofalu

	Cyfanswm	Rhyw		Cyfrifoldebau Gofalu	
		Ymatebwyr gwrywaidd	Ymatebwyr benywaidd	Plant	Dim
Sylfaen: Ymatebwyr sy'n anfodlon ar eu cyflogwr					
Heb ei phwysoli	**83	**39	**44	**33	**46
	%	%	%	%	%
Nid yw fy nghyflogwr yn rhoi cymorth/cyngor/help gyda'm prosiectau	45	44	45	42	48
Pwysau gwaith / dim amser i astudio / hyfforddi	17	15	18	30	9
Nid oes gan fy nghyflogwr ddiddordeb/nid yw'n dangos diddordeb	17	5	27	24	11
Angen mwy o gefnogaeth yn y gwaith	12	8	16	15	7
Dim digon o amser i hyfforddi/astudio/gorfod cymryd gwyliau	11	13	9	15	9
Yn well ganddynt fy ngweld yn gweithio/nad wyf yn mynd i'r coleg/nad wyf yn cael hyfforddiant	7	8	7	3	11
Cyfathrebu gwael rhwng y	7	8	7	3	9

cyflogwr/ coleg/ a minnau					
---------------------------	--	--	--	--	--

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (<100). Caiff y rhesymau a nodir eu crybwyll gan 7% o ymatebwyr neu fwy.

Tabl 55 Mesur boddhad â'r cyflogwr yn ôl ymrwymadau gofalu

Sylfaen, pob ymatebydd cyflogedig* (1336)	Cyfanswm	Ymrwymadau Gofalu	
		le	Na
% a roddodd 9-10 allan o 10 (sgôr uchel)			
Sylfaen heb ei phwysoli	1336	387	949
Sicrhau bod eich swydd yn gysylltiedig â'ch rhaglen hyfforddi	65	60	67
Sicrhau nad oes pwysau i golli sesiynau hyfforddi neu gyfarfodydd ag aseswyr	64	59	66
Eich annog i gael y cymhwyster*	65	57	68
Caniatáu amser i chi yn ystod oriau gwaith ar gyfer y rhaglen	62	56	64
Eich caniatáu i weithio oriau hyblyg os oes angen	58	55	60
Deall eich rhaglen hyfforddi a'r gwaith sydd angen i chi ei wneud ar ei chyfer	56	48	60

* Dim ond ymatebwyr a gyflogwyd ac a oedd yn astudio ar gyfer cymhwyster yn ystod eu cwrs a holwyd ynghylch p'un a oedd eu cyflogwr yn eu hannog i gael y cymhwyster (maint sylfaen y cwestiwn hwn yw cyfanswm o 1318, ymatebwyr gwrywaidd - 706, ymatebwyr benywaidd 612, 16-18 - 317, 19-24- 428, 25+ - 573).

Tabl 56 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl boddhad cyffredinol â'r profiad dysgu

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Boddhad cyffredinol		
		Hynod fodlon / bodlon iawn	Eithaf bodlon	Didaro / anfodlon
Heb ei phwysoli	1507	1131	283	**91
	%	%	%	%
Dim problemau	54	60	43	18
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20	15	27	54
Cydbwyso ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill yn y gwaith	16	12	24	36
Cydbwyso ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill	13	11	18	34

gartref				
Cynnal safon y gwaith sydd ei hangen	11	9	14	32
Delio â phwysau arian	11	9	16	18
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7	7	8	14
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7	6	9	9
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7	6	7	12
Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu	5	3	8	18

Noder: ** yn dynodi sylfaen fach (<100).

Tabl 57 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl cyfrifoldebau fel rhiant a gofalwr

Sylfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Cyfrifoldebau	
		Plant/oedolion	Dim
Heb ei phwysoli	1507	424	1083
	%	%	%
Dim problemau	54	44	58
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20	25	17
Cydbwysu ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill yn y gwaith	16	26	12
Cydbwysu ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill gartref	13	25	9
Cynnal safon y gwaith sydd ei hangen	11	13	11
Delio â phwysau arian	11	10	11
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7	8	7
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7	4	8
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7	5	7
Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu	5	4	5

Tabl 58 Problemau a gafwyd ers dechrau'r cwrs yn ôl boddhad â chymorth y cyflogwr

Sylyfaen: Pob ymatebydd	Cyfanswm	Boddhad â chyflogwr		
	Cyfanswm	Hynod fodlon / bodlon iawn	Eithaf bodlon	Didaro / anfodlon
Heb ei phwysoli	1507	846	308	177
	%	%	%	%
Dim problemau	54	62	47	34
Cynnal cymhelliant i barhau â'r hyfforddiant	20	15	21	34
Cydbwyso ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill yn y gwaith	16	10	22	40
Cydbwyso ymrwymadau hyfforddiant ag ymrwymadau eraill gartref	13	10	16	25
Cynnal safon y gwaith sydd ei hangen	11	10	12	19
Delio â phwysau arian	11	8	11	17
Sgiliau mathemateg neu rifedd	7	6	9	8
Teithio i'r coleg neu i'r ganolfan hyfforddi	7	6	8	6
Sgiliau darllen neu ysgrifennu	7	7	5	8
Cymorth ychwanegol a addawyd i chi heb ei ddarparu	5	5	6	6